Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
28/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
20/03/2025

Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-83715-476-0**

Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol

Awduron: Hefin Thomas, Jennifer Lane, Sioned Lewis, Brett Duggan, Sam McAlister-Wilson, Anest Williams

Thomas, H; Lane, J; Lewis, S; Duggan, B; McAlister-Wilson, S; Williams, S (2025). Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol : arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 28/2025.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-arolwg-o-ymarferwyr-gweithwyr-proffesiynol

Safbwyntiau’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Gwasanaethau
Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys....1
Rhestr o'r tablau....2
Rhestr o'r ffigurau....2
Geirfa....6
1. Cyflwyniad....8
2.Methodoleg....11
3. Proffil o'r ymatebwyr....20
Penodau 4 i 14: canfyddiadau'r arolwg....23
4.Gwybodaeth a dealltwriaeth....23
5.Cefnogaeth i'r gweithlu....39
6.Rôl y CADY....53
7.Adnabod ADY....70
8.Cynllunio....82
9.Darpariaeth....92
10. Prosesau adolygu....108
11. Prosesau pontio....114
12. Cydweithio ag eraill....125
13. Y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY....142
14. Rhwystrau a galluogwyr i weithredu'r system ADY....160
15. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau....168
Atodiad A: Proffil y sampl....182
Atodiad B: Adroddiad technegol....185
Atodiad C: Tablau data (gweler y ddogfen ar wahân)....190
Atodiad D: Holiadur yr arolwg (gweler y ddogfen ar wahân)....190

Rhestr o'r tablau

Tabl 1. Nifer yr ymatebion a gafwyd o bob sector a phob math o leoliad 12
Tabl 2. Trothwyon ar gyfer adrodd ar wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion gan wahanol grwpiau o ymatebwyr 185
Tabl 3. Sampl a phoblogaeth ysgolion a chyfyngau hyder (CH) dangosol ar gyfer pennu gwahaniaethau nodedig 187

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY 26
Ffigur 2. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY 29
Ffigur 3. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY 31
Ffigur 4. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY 33
Ffigur 5. Ymateb ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â chyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael 42
Ffigur 6. Ymateb ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn "A oes angen hyfforddiant neu arweiniad pellach arnoch mewn perthynas â'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)" 44
Ffigur 7. Ymateb ymarferwyr o SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael 46
Ffigur 8. Ymateb ymarferwyr mewn ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â gweithgaredd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael 48
Ffigur 9. Ymatebion ymarferwyr mewn BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael 51
Ffigur 10. Ymatebion CADYau i'r cwestiwn: "Faint o amser wedi'i warchod yr wythnos sydd wedi'i neilltuo i chi gyflawni eich rôl CADY?" 58
Ffigur 11. Ymatebion CADYau i'r cwestiwn: "Pa adnoddau staff ychwanegol sydd ar gael yn eich ysgol/lleoliad i'ch cefnogi gyda'ch cyfrifoldebau CADY? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)" 60

Ffigur 12. Ymatebion CADYau mewn ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "Pa mor aml ydych chi'n ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol fel CADY?" 63
Ffigur 13. Ymatebion CADYau mewn SABau i'r cwestiwn: "Pa mor aml ydych chi'n ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol fel CADY?" 68
Ffigur 14. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY 73
Ffigur 15. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY 76
Ffigur 16. Ymatebion ymarferwyr mewn ALlau i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY 78
Ffigur 17. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY ... 80
Ffigur 18. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio 84
Ffigur 19. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio 86
Ffigur 20. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio 88
Ffigur 21. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio 90
Ffigur 22. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â DDdY 93
Ffigur 23. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â DDdY ... 98
Ffigur 24. Ymatebion ymarferwyr ALl i ddatganiadau yn ymwneud â darpariaeth ddysgu ychwanegol 101
Ffigur 25. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â DDdY 105
Ffigur 26. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu 109
Ffigur 27. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu 111
Ffigur 28. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu 112

Ffigur 29. Ymatebion ymarferwyr o ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "I ba raddau yr ydych yn cytuno bod trefniadau pontio rhwng y lleoliadau addysg canlynol yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY?" 116
Ffigur 30. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i'r cwestiwn: "I ba raddau yr ydych yn cytuno bod trefniadau pontio rhwng y lleoliadau addysg canlynol yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY?" 120
Ffigur 31. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i'r cwestiwn: "I ba raddau yr ydych yn cytuno bod trefniadau pontio rhwng y lleoliadau addysg canlynol yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY?" 123
Ffigur 32. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion/UCDau i'r datganiad: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…' 127
Ffigur 33. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â chydweithio ag eraill: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…' 131
Ffigur 34. Ymatebion ymarferwyr ALl i ddatganiadau'n ymwneud â chydweithio ag eraill: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…' 134
Ffigur 35. Ymatebion ymarferwyr mewn BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â chydweithio ag eraill: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…' 139
Ffigur 36. Ymatebion ymarferwyr o ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:" 144
Ffigur 37. Ymatebion ymarferwyr o ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?" 147
Ffigur 38. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:" 149
Ffigur 39. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?" 151

Ffigur 40. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:" 152
Ffigur 41. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?" 154
Ffigur 42. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:" 156
Ffigur 43. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?" 158

Geirfa

AAA

Anghenion Addysgol Arbennig

AAD

Anawsterau a/neu anableddau dysgu

AB

Addysg Bellach

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol

AHY

Addysg Heblaw yn Yr Ysgol

ALl

Awdurdod lleol

BILI

Bwrdd Iechyd Lleol

CADY(au)

Cydlynydd/Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

CDU

Cynllun Datblygu Unigol

CYBLD

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

DDdY

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

ISPI

Sefydliadau Ôl-16 Arbenigol Annibynnol.

LIDPC ADY

Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ADY

SAB

Sefydliad Addysg Bellach

SACDA(au)

Swyddog(ion) Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg

ThG

Therapi Galwedigaethol

ThILl

Therapi Lleferydd ac Iaith

UCD

Uned Cyfeirio Disgyblion

Y Cwricwlwm

Y Cwricwlwm i Gymru

YI

Ymwelydd Iechyd

1. Cyflwyniad

Cefndir polisi

1.1 Y system Anghenion Addysgol Arbennig (ADY)[1] yw'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc 0 i 25 oed yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

1.2 Mae'r system ADY yn disodli'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) flaenorol ar gyfer plant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) a'r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc mewn addysg bellach ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD)[2]. Mae'r broses o weithredu'r system ADY yn cael ei chynnal dros gyfnod o 4 blynedd o fis Medi 2021 i fis Awst 2025. Ceir rhagor o fanylion ar y rhesymeg dros y diwygiadau a'r elfennau allweddol yn y Gwerthusiad o'r system Anghenion Addysgol Arbennig: adroddiad cwmpasu (Llywodraeth Cymru, 2023).

Gwerthusiad o'r System ADY

1.3 Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithredu'r system ADY.[3] Yn dilyn hynny, cafodd adroddiad cwmpasu, sy'n cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad, yn ogystal â'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer y camau sy'n weddill, ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1.4 Mae'r adroddiad cyfredol yn cyflwyno canfyddiadau cam nesaf y gwerthusiad. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn

[1] Cafodd y fframwaith deddfwriaethol ADY presennol ei greu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf), Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf.
[2] Mae'r Ddeddf ADY yn disodli'r ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol (y darperir ar ei chyfer yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996), Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a deddfwriaeth anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) (y darperir ar ei chyfer yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000).
[3] Defnyddir yr ymadrodd 'system ADY' i ddisgrifio'r Ddeddf ADY, y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, y Cod ADY a dyletswyddau cysylltiedig.

ysgolion, UCDau, SABau, ISPIs, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.[4] Cynhaliwyd yr arolwg ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2024 ac roedd yn casglu barn ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ar wahanol agweddau ar weithredu'r system ADY.

1.5 Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- Ym Mhennod 1, rhoddir trosolwg o'r system ADY ynghyd ag amlinelliad o'r cefndir polisi a nodau'r gwerthusiad.
- Mae Pennod 2 yn amlinellu methodoleg yr arolwg
- Ym mhennod 3, cyflwynir gwybodaeth am broffil y sampl
- Mae Penodau 4 i 14 yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg yn ymwneud â'r themâu canlynol
    - Pennod 4 - Gwybodaeth a dealltwriaeth
    - Pennod 5 - Cefnogaeth i'r gweithlu
    - Pennod 6 - Rôl y CADY
    - Pennod 7 - Adnabod ADY
    - Pennod 8 - Cynllunio
    - Pennod 9 - Darpariaeth
    - Pennod 10 - Prosesau adolygu
    - Pennod 11 - Prosesau pontio
    - Pennod 12 - Cydweithio ag eraill
    - Pennod 13 - Deilliannau
    - Pennod 14 - Rhwystrau a galluogwyr i weithredu'r system ADY
- Mae pennod 15 yn amlinellu'r casgliadau'n seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg.

1.6 Bydd adroddiad yn seiliedig ar arolwg o rieni a gofalwyr, yn ogystal ag adroddiad yn seiliedig ar ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn

[4] Mae'r gwerthusiad hefyd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar drwy waith ymchwil ansoddol.

ysgolion, UCDau, SABau, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a darparwyr blynyddoedd cynnar, yn cael eu cyhoeddi yn 2025.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn darparu manylion am fethodoleg y gwerthusiad. Mae hyn yn cynnwys manylion y broses o ddylunio offeryn ymchwil, y gwaith maes a gynhaliwyd, y broses ddadansoddi, yr heriau a wynebwyd a chyfyngiadau'r fethodoleg.

Dyluniad yr offeryn ymchwil

2.1 Dyluniwyd holiadur arolwg gan Arad gyda mewnbwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Seiliwyd strwythur a themâu yr holiadur ar y theori newid ar gyfer y system ADY, a amlinellir yn yr adroddiad cwmpasu ar gyfer y gwerthusiad o'r system ADY (Llywodraeth Cymru, 2023). Cafodd yr holiadur ei brofi'n wybyddol gyda CADYau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal â gyda rhanddeiliaid o'r sectorau AB, ALlau a BILlau. Roedd strwythur yr holiadur yn dilyn themâu Penodau 4 i 14 yr adroddiad hwn yn fras a chafodd cwestiynau eu teilwra i ymatebwyr o wahanol sectorau. Mae copi o'r holiadur wedi'i gynnwys yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.

Dosbarthu'r holiadur

2.2 Dosbarthwyd yr holiadur drwy'r sianeli a ganlyn:

- Anfonwyd dolen i'r holiadur drwy e-bost i'r holl ysgolion, UCDau a SABau yng Nghymru (dull cyfrifiad). Roedd yr arolwg wedi'i anelu at CADYau ac uwch arweinwyr mewn ysgolion, UCDau a SABau. Cafodd uwch arweinwyr yr anfonwyd yr holiadur atynt drwy e-bost eu hannog i rannu'r ddolen i'r holiadur gyda CADYau.
- Anfonwyd dolen i'r arolwg drwy e-bost at gyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol (ALlau) a gofynnwyd iddynt anfon y gwahoddiad ymlaen at unigolion a oedd yn gweithio yn y system ADY yn eu ALl.
- Anfonwyd dolen i'r arolwg drwy e-bost at ymatebwyr o fyrddau iechyd lleol drwy Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDAau) a gofynnwyd iddynt anfon y gwahoddiad ymlaen at unigolion a oedd yn gweithio yn y system ADY.
- Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ddolen i'r arolwg yng nghylchlythyrau Dysg ac ADY Llywodraeth Cymru a rhoddwyd erthygl yn ymwneud â'r arolwg ar Hwb.

2.3 Lansiwyd yr arolwg ar 14 Mehefin 2024 a daeth i ben ar 26 Gorffennaf 2024. Cafodd y sampl o ymatebion eu monitro'n barhaus, ac anfonwyd nodiadau atgoffa wedi'u

targedu at ysgolion i sicrhau cynrychiolaeth dda o sectorau, cyfrwng iaith, daearyddiaeth, maint, a chanran y dysgwyr a oedd yn cael prydau ysgol am ddim.

Sampl yr arolwg

2.4 Cafwyd cyfanswm o 603 o ymatebion i'r arolwg. Tabl **1**Mae Tabl 1 yn dangos y nifer a dderbyniwyd o bob sector a phob math o leoliad. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Tabl 1. Nifer yr ymatebion a gafwyd o bob sector a phob math o leoliad

Sector	Nifer yr ymatebion i'r arolwg
Ysgolion ac UCDau	344
Ysgolion cynradd	224
Ysgolion uwchradd	75
Ysgolion pob oed (3 i 16/18)	15
Ysgolion arbennig	22
UCDau	8
SABau ac ISPIs	33
SABau	30
ISPIs	3
ALlau	139
BILlau	87
Cyfanswm	603

Dadansoddiad o'r arolwg

2.5 Caiff ymatebion gan wahanol grwpiau o ymatebwyr eu dadansoddi ar wahân yn yr adroddiad hwn.

- Pob ysgol ac UCD.[5]
    - Ble y bo'n briodol, adroddir ar wahaniaethau nodedig ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau, a lleoliadau a chanddynt nodweddion gwahanol, gan gynnwys:
        - Ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.
        - Ysgolion â chanrannau isel, canolig ac uchel o ddysgwyr:
            - gydag ADY/AAA
            - gyda CDUau
            - sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
            - o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.[6]
- SABau ac ISPIs.[7]
- ALlau.
- BILlau.

2.6 Mae'r ffigurau sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu canrannau wedi'u cydgrynhoi o'r ymatebwyr a oedd yn “cytuno” ac yn “cytuno'n gryf” / “anghytuno” ac “anghytuno'n gryf” ar gyfer pob cwestiwn oni nodir fel arall. Hynny yw, mae'r canrannau wedi cael eu cyfuno ar gyfer y categorïau ymateb “Cytuno'n gryf” a “Cytuno”. Mae'r canrannau hefyd wedi cael eu cyfuno ar gyfer y categorïau ymateb “Anghytuno'n gryf” ac “Anghytuno”. Oni nodir fel arall, mae'r siartiau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ganran yr ymatebwyr a adroddodd i ba raddau yr oeddent yn

[5] Mae'r ymatebion gan ysgolion pob oed (3 i 16/18), ysgolion arbennig ac UCDau wedi eu cynnwys yn y sampl 'pob ysgol ac UCD' ond ni chânt eu dadansoddi ar wahân oherwydd meintiau bach y sampl a'r boblogaeth.
[6] Gweler Tabl 3 am ragor o fanylion am y categorïau hyn.
[7] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ddangoswyd iddynt. Caiff tablau data llawn sy'n cyflwyno ymatebion heb eu cydgrynhoi eu cynnwys yn Atodiad B. Mae copi o'r holiadur ei hun i'w weld yn Atodiad C.

2.7 Ni chafodd rhai o gwestiynau'r arolwg eu dangos bob ymatebydd. Er enghraifft, dim ond i CADYau mewn ysgolion/UCDau a SAB y gofynnwyd cwestiynau'n ymwneud â'u rôl fel CADY. Dim ond os oeddent wedi nodi eu bod yn rhan o'r prosesau cynllunio ac adolygu y gofynnwyd y cwestiynau hynny i ymatebwyr. At hynny, dewisodd rhai ymatebwyr beidio ag ateb pob cwestiwn a ofynnwyd iddynt yn yr holiadur. Mae hyn yn golygu bod maint y sylfaen yn amrywio drwy gydol y dadansoddiad.

2.8 Mae'r dull samplu a ddewiswyd, nad oedd yn seiliedig ar debygolrwydd, a lefelau'r diffyg ymateb yn golygu nad yw'n bosibl datgan yn hyderus i ba raddau y gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth.[8] Felly, wrth ddadansoddi'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn, ac yn enwedig wrth gymharu canfyddiadau ar draws sectorau, dylid nodi na ellir ystyried bod y canlyniadau'n gynrychioliadol o'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sectorau hyn. Dylid dehongli'r canlyniadau, felly, fel rhai sy'n seiliedig ar sampl cyfleustra o ymatebwyr. Felly, ni ddefnyddiwyd profion o arwyddocâd ystadegol yn yr adroddiad. Fodd bynnag, rydym wedi defnyddio sail arall i bennu gwahaniaethau nodedig rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr. Defnyddir y termau 'nodedig is/uwch' neu 'llawer mwy/llai tebygol' i ddisgrifio'r gwahaniaethau nodedig hyn yn yr adroddiad hwn. Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r gwahaniaethau nodedig hyn yn ystadegol arwyddocaol, ond mae'r dull hwn yn rhoi rhywfaint o arweiniad wrth ddehongli'r canlyniadau. Ceir rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwahaniaethau nodedig yn Atodiad B.

2.9 Drwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddir y termau canlynol i ddisgrifio canran yr ymatebwyr a roddodd ymatebion penodol i gwestiynau.

[8] Mae'r dull cyfrifiad o ddosbarthu'r holiadur i ysgolion ac UCDau a'r ddibyniaeth ar sefydliadau rhanddeiliaid sy'n 'borthorion' a chylchlythyrau i'w ddosbarthu i bob cynulleidfa yn golygu ei bod yn heriol pennu lefel y diffyg ymateb (h.y. nid yw'n hysbys faint o CADYau ac uwch arweinwyr yr anfonwyd y gwahoddiad ymlaen atynt).

Disgrifyddion a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar ganrannau'r ymatebwyr yn yr adroddiad hwn

- 85%+ = Mwyafrif llethol
- 70 i 84% = Mwyafrif
- 55 i 69% = Dros hanner
- 46 i 54% = Tua hanner
- 30 i 45% = Llai na hanner
- 15 i 29% = Lleiafrif
- Llai na 15% = Lleiafrif bach

Disgrifyddion a ddefnyddir i adrodd ar fathau o ysgolion yn yr adroddiad hwn

Haen 1 - Ysgolion cynradd

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion cynradd a meithrin

Disgrifiad - Yr holl ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a gwblhaodd yr arolwg

Haen 2 - Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Disgrifiad - Ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig ac ysgolion dwy iaith yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (gan gynnwys ysgolion oedd yn flaenorol yn ddwyieithog neu dwy ffrwd categori A, B ac C)

Haen 3 - Canran y dysgwyr ag ADY mewn ysgolion

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY/AAA

Disgrifiad - Isel (Yr holl ysgolion â llai na 7% o ddysgwyr ag ADY/AAA)

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY/AAA

Disgrifiad - Canolig (Yr holl ysgolion gyda 7.1 i 14% o ddysgwyr ag ADY/AAA)

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY/AAA

Disgrifiad - Uchel (Yr holl ysgolion gyda thros 14% o ddysgwyr ag ADY/AAA)

Haen 4 - Canran y dysgwyr sydd â CDU mewn ysgolion

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran isel o ddysgwyr â CDU

Disgrifiad - Yr holl ysgolion sydd â 0 i 25% o ddysgwyr â CDU

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr â CDU

Disgrifiad - Yr holl ysgolion sydd â 25.1 i 60% o ddysgwyr â CDU

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr â CDU

Disgrifiad - Yr holl ysgolion sydd â thros 60% o ddysgwyr â CDU

Haen 5 - Canran y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim

Disgrifiad - Yr holl ysgolion sydd â llai nag 13% o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim

Disgrifiad - Yr holl ysgolion sydd ag 13.1 i 25% o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim

Grŵp o ymatebwyr - Ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim

Disgrifiad - Yr holl ysgolion sydd â thros 25% o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim

Canfyddiadau o adroddiad gwaelodlin AAA (2019)

2.10 Cyn gweithredu'r diwygiadau ADY, cynhaliwyd astudiaeth gan Ymchwil Arad i bennu gwaelodlin y system AAA bresennol yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad yn seiliedig ar yr astudiaeth hon ym mis Chwefror 2019 a'i fwriad oedd bod yn sail i werthusiad o'r system ADY yn y dyfodol. Roedd y fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth yn cynnwys arolwg, a gynlluniwyd i archwilio barn a phrofiadau gweithwyr proffesiynol o'r system AAA.

2.11 Mewn rhai adrannau o'r adroddiad presennol, mae canfyddiadau'r Ymchwil i bennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019) wedi'u cyflwyno ochr yn ochr â chanfyddiadau'r arolwg hwn a gynhaliwyd yn 2024. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd pob un o'r cwestiynau a gynhwyswyd yn yr arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth waelodlin o AAA yn defnyddio'r un geiriad ag a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn a gynhaliwyd yn 2024. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod yr arolwg gwaelodlin AAA yn cyfeirio at y gwahanol brosesau (e.e. asesiadau statudol, gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy) a oedd ar waith bryd hynny. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus wrth gymharu canfyddiadau'r ddau arolwg hyn.

Cyfyngiadau methodolegol

2.12 Wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o gyfyngiadau'r fethodoleg.

2.13 Dylid nodi bod y canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth gymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. O ystyried y sylfaen fach, nid yw canlyniadau SABau ac ISPIs yn cael eu disgrifio fel rhai 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill. At hynny, mae'r canlyniadau ar gyfer y sector hwn wedi'u cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

2.14 Mewn ymateb i rai cwestiynau, dywedodd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg nad oedd rhai o'r datganiadau yn berthnasol iddyn nhw drwy ddewis yr opsiwn "Ddim yn

berthnasol”. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â phrosesau pontio rhwng rhai mathau o leoliadau (Gweler Pennod 11), cydweithio â rhai mathau o sefydliadau (Pennod 12) a chwestiynau’n ymwneud â chynllunio Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) yn Gymraeg (Gweler Penodau 8 a 9). Er mwyn cynorthwyo â dehongli’r canfyddiadau, cafodd yr ymatebion “Ddim yn Berthnasol” eu hepgor o’r dadansoddiad lle y gallai canran yr ymatebwyr a ddewisodd yr ateb hwnnw ystumio’r canfyddiadau. Mae achosion lle mae ymatebion “Ddim yn Berthnasol” wedi'u hepgor o'r dadansoddiad wedi cael eu nodi'n glir yn y penodau hyn. Fodd bynnag, mae'r set lawn o ymatebion, gan gynnwys ymatebion “Ddim yn Berthnasol”, wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

2.15 Mewn ymateb i rai cwestiynau, dewisodd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg yr ymateb “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno”. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos ymatebwyr o BILlau ar gyfer rhai cwestiynau. Wrth ddehongli'r canfyddiadau, mae'n bwysig ystyried y gallai ymatebwyr fod wedi dewis yr opsiwn hwn am amrywiaeth o resymau (e.e. os oeddent yn ansicr sut i ymateb neu os oeddent yn teimlo nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddyn nhw). Yn ogystal â chyfyngiadau’r dull samplu a nodir yn adran 2.8 uchod, mae’n bwysig cydnabod y risg o duedd dethol ymhlith y sampl o ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg. Mae’n bosibl bod ymatebwyr a oedd o’r farn bod y broses o weithredu’r system ADY yn mynd rhagddi'n effeithiol yn eu hysgol neu sefydliad wedi bod yn fwy tueddol o gwblhau’r arolwg. Yn yr un modd, efallai fod ymatebwyr a oedd yn teimlo bod heriau o ran gweithredu’r system ADY wedi ystyried bod yr ymchwil yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw broblemau yr oeddent yn eu hwynebu. Ceisiodd y gwerthusiad liniaru’r risg hon drwy ddosbarthu’r arolwg a nodiadau atgoffa i bob ysgol, UCD, SAB, ALl a BILl a thrwy ddosbarthu nodiadau atgoffa i gwblhau’r arolwg, gan dargedu ymatebwyr mewn ysgolion, colegau a sefydliadau nad oedd cymaint o gynrychiolaeth ohonynt yn y sampl (e.e. fesul sector a chyfrwng iaith yr ysgol, fesul rhanbarth neu sefydliad).

2.16 Cyflwynir ymatebion i gwestiynau testun agored drwy'r adroddiad cyfan, a nodir ym mhob adran faint o ymatebwyr a ddewisodd roi sylwadau o dan bob cwestiwn. At ei gilydd, roedd yr ymatebion testun agored yn tueddu i gynnwys mwy o gyfeiriadau at y materion a’r heriau canfyddedig yn ymwneud â’r system ADY, o gymharu ag ymatebion i’r cwestiynau caeedig. Fodd bynnag, wrth ddehongli’r canfyddiadau hyn

mae'n bwysig ystyried bod llai o ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau testun agored o gymharu â'r cwestiynau caeedig ac felly ni ddylid ystyried bod yr ymatebion hyn yn gynrychioliadol o'r holl ymatebwyr.

3. Proffil o'r ymatebwyr

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am broffil yr ymatebwyr i'r arolwg. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiadau A a B.

Ysgolion ac UCDau

3.2 Daeth cyfanswm o 344 o ymatebion i law gan ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau. Roedd y rhain yn cynrychioli 302 o ysgolion ac UCDau unigryw ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.

3.3 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn CADYau (75%). Roedd lleiafrif bach (11%) yn benaethiaid ac roedd gan leiafrif (24%) uwch swyddi arwain eraill (e.e. dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol). Roedd lleiafrif yr ymatebwyr yn athrawon (22%), ac roedd lleiafrif bach (1%) yn weithwyr cymorth dysgu. Nododd lleiafrif bach fod ganddynt rolau eraill (gweler Atodiad A am fanylion).

SABau ac ISPIs

3.4 Daeth cyfanswm o 30 o ymatebion i law gan ymatebwyr a oedd yn cynrychioli pob un o'r 13 SAB yng Nghymru. Daeth tri ymateb i law gan ISPIs hefyd[9].

3.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu rôl ac roeddent yn gallu dewis mwy nag un opsiwn o restr o rolau yn ogystal â rhoi rhagor o fanylion os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd lleiafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn 'Rheolwr/cydlynydd â chyfrifoldeb dros ADY' (12 o blith 33, neu 36%). Roedd lleiafrif o ymatebwyr o SABau ac ISPIs (12 o blith 33, neu 36%) yn CADYau. Disgrifiodd lleiafrif (8 o blith 33, neu 24%) rolau eraill a gyflawnwyd ganddynt mewn ymateb i gwestiynau testun

[9] Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ariannu lleoliadau mewn ISPIs o dan y system AAA. Bydd y cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau a sicrhau lleoliadau i bobl ifanc mewn ISPIs yn cael ei drosglwyddo'n llawn i ALlau o 1 Medi 2025 ymlaen. Dylid nodi nad yw'n ofynnol i ISPIs roi sylw i'r Cod ADY ond gallai'r canllawiau a'r wybodaeth yn y Cod fod yn ddefnyddiol i gyfrannu at eu dealltwriaeth o'r system ADY a'r rhan y gallent ei chwarae o ran sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr ag ADY.

agored a dewisodd lleiafrif bach (5 o blith 33, neu 15%) rolau eraill o'r rhestr a gyflwynwyd iddynt (gweler Atodiad A).

ALlau

3.6 Daeth cyfanswm o 139 o ymatebion i law gan ALlau, yn cynrychioli 21 o blith y 22 ALl. Dangosir cyfanswm yr ymatebion o bob rhanbarth isod:

- Y gogledd - 35
- Y canolbarth a'r gorllewin - 49
- Canol y de - 37
- Y de-ddwyrain - 18

3.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu rôl. Y mathau o rolau a nodwyd amlaf oedd 'athro ymgynghorol neu arbenigol' (39 ymateb), 'Rheolwr / arweinydd tîm / cydlynydd' (29), 'seicolegydd addysg' (23), 'swyddog cynhwysiant / arweinydd' (15) a 'swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar' (8). Roedd gan leiafrif bach rolau eraill (gweler Atodiad A am fanylion).

BILlau

3.8 Daeth cyfanswm o 87 o ymatebion i law gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn BILlau. Roedd nifer yr ymatebion fesul BILl fel a ganlyn:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - 40
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - 19
- Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Bae Abertawe - 8
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - 6
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - 6
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - 5
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - 3

3.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu cefndir proffesiynol. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd 'therapi iaith a lleferydd – plant' (26 o ymatebion), 'ymwelydd iechyd' (12), 'pediatreg gymunedol' (9), 'gwasanaethau anabledd dysgu' (9) a 'ffisiotherapi – plant' (8). Y statws uchaf a nodwyd amlaf ymhlith ymatebwyr o BILlau oedd 'gweithiwr iechyd proffesiynol uwch' (28 o ymatebion) ac yna 'uwch arweinydd' (15), 'ymarferwr' (13) ac 'arweinydd tîm' (9). Ceir disgrifiad llawn o rolau'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Penodau 4 i 14: canfyddiadau'r arolwg

4. Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymatebwyr o'r system ADY. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY.

Canfyddiadau allweddol: gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY

Ymhlith yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs ac ALlau:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” eu bod yn deall sut i ddehongli a rhoi'r diffiniadau o ADY a DDdY ar waith.
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson yn eu sefydliadau.
- Yn llai cadarnhaol, roedd llai na hanner yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (37%), a lleiafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (7 o blith 30, neu 23%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson gan eraill y tu allan i'w sefydliadau.
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ALlau (69%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod gan weithwyr proffesiynol yn eu sefydliad y wybodaeth a'r sgiliau priodol i gefnogi gweithredu'r system ADY, o gymharu â thua hanner yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (45% – mewn perthynas ag athrawon yn eu hysgol/UCD) yn ogystal â SABau ac ISPIs (15 o blith 31, neu 48% mewn perthynas ag ymarferwyr yn eu SAB/ISPI).
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ALlau (71%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod ymarferwyr yn eu sefydliad yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi gweithredu'r system ADY, o gymharu â thua hanner yr ymatebwyr o ysgolion a UCDau (54%) yn ogystal â SABau/ISPIs (16 o blith 30, neu 53%).

- Mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 ag ADY, roedd yr ymatebwyr o ALlau (49%) yn llai tebygol na'r rhai o SABau ac ISPIs o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" eu bod yn deall y dyletswyddau ar eu sefydliad mewn perthynas â'r garfan hon.[10]

O gymharu â sectorau eraill, roedd ymatebwyr o BILlau yn llai tebygol na'r rhai mewn sectorau eraill o "gytuno'n gryf" neu "gytuno":

- bod diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson yn eu sefydliadau.
- bod diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson gan eraill y tu allan i'w sefydliadau.

Roedd tua hanner yr ymatebwyr o BILlau (49%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn deall sut i ddehongli a rhoi'r diffiniadau o ADY ar waith mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol (yn unol â dyletswyddau'r Cod ADY).

Cymwysterau a gweithgaredd dysgu proffesiynol

- Nododd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (24 o blith 32, neu 75%) a thua thraean o ysgolion ac UCDau (35%) fod ganddynt gymwysterau ADY neu AAA penodol.
- Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr o SABau ac ISPIs (4 o blith 32, neu 13%) a lleiafrif o ysgolion ac UCDau (22%) wedi dilyn y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ADY (LIDPC ADY) ar Hwb.
    - Yn y ddau sector, roedd mwyafrif y rhai a oedd wedi dilyn y LIDPC ADY yn cytuno, i raddau o leiaf, ei fod wedi gwella eu dealltwriaeth o'r system ADY a/neu wedi eu helpu i gyflawni eu rôl.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

[10] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, nid yw canlyniadau SABau ac ISPIs yn cael eu disgrifio fel rhai 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill

- pryder am anghysondebau o ran dehongli a/neu gymhwyso agweddau ar y system ADY, gan gynnwys diffiniadau o ADY a DDdY
- nododd Ysgolion/UCDau fod angen hyfforddiant ychwanegol neu ganllawiau cliriach ar ddehongli a chymhwyso diffiniadau o ADY a DDdY a gofynnwyd am ragor o enghreifftiau ymarferol neu astudiaethau achos i helpu ysgolion i roi'r diffiniadau hyn ar waith

nododd BILlau fod problemau'n ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer rhai dysgwyr ag ADY, yn benodol darpariaeth ddim yn cael ei rhoi ar waith yn ddigon buan.

Canfyddiadau yn ôl sector: Ysgolion ac UCDau

Ffigur 1. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY



N= 339 i 343 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

4.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY. Fel y dangosir yn ffigur 1, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn deall sut i ddehongli a rhoi'r diffiniadau o ADY (78%) a DDdY (72%) ar waith. Roedd dros hanner yr ymatebwyr hefyd yn "cytuno" neu'n

“cytuno’n gryf” bod diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson yn eu hysgolion/UCDau (69%). Pan ofynnwyd i ba raddau yr oedd y diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson gan eraill y tu allan i’w hysgol neu UCD, roedd yr ymatebion yn fwy cymysg; roedd llai na hanner yr ymatebwyr (37%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” a dywedodd 23% eu bod yn “cytuno i raddau”. Roedd barn gymysg ynghylch i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn cytuno bod gan athrawon yn eu hysgol/UCD y wybodaeth a’r sgiliau priodol i gefnogi gweithredu'r system ADY; roedd 45% yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” a 41% yn “cytuno i raddau” â hyn. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle ceir canran isel o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim (42 o blith 81, neu 52%) yn fwy tebygol o “gytuno” neu “gytuno’n gryf” â hyn o gymharu â'r rhai o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n cael prydau am ddim (38 o blith 117, neu 32%).

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas â’u gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’r system ADY

4.2 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith yr 83 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr fod dryswch ynghylch y diffiniadau o ADY sy'n esblygu gan egluro bod canfyddiad bod y canllawiau wedi newid ers yr hyfforddiant cychwynnol ar y rhaglen drawsnewid, gan arwain at ansicrwydd ynghylch sut i gymhwyso'r diffiniadau, ac yn benodol pwy ddylai fod yn gymwys i gael CDU.
- Amlygodd yr ymatebwyr anghysondebau o ran dehongli, o fewn a rhwng awdurdodau lleol, gan nodi heriau o ran sicrhau dealltwriaeth unedig o ddiffiniadau ADY a DDdY, yn enwedig o ran beth yw DDdY a pha gymorth sydd ar gael i bob dysgwr yn lle hynny.
- Gwnaed sylwadau am sut y mae newidiadau i'r diffiniad o ADY wedi effeithio ar gofnodion ADY ysgolion a chasglu data (e.e. data CYBLD), gan godi pryderon ynghylch adlewyrchu niferoedd ac anghenion dysgwyr yn gywir o dan y system ADY.

- Nododd yr ymatebwyr fod angen hyfforddiant ac eglurhad pellach, ac roeddent yn teimlo y byddent yn elwa o hyfforddiant ychwanegol neu ganllawiau cliriach ar ddehongli a chymhwyso'r diffiniadau o ADY a DDdY. Gofynnodd yr ymatebwyr am ragor o enghreifftiau ymarferol neu astudiaethau achos i helpu ysgolion i roi'r diffiniadau hyn ar waith.

SABau ac ISPIs[11]

Ffigur 2. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY



N= 30 i 31 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

[11] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

4.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY. Fel y dangosir yn ffigur 2, dywedodd mwyafrif llethol (29 o blith 31, neu 94%) yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs eu bod yn deall y dyletswyddau ar eu coleg/sefydliad mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 ag ADY. At hynny, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” eu bod yn deall sut i ddehongli a rhoi'r diffiniadau o ‘DDdY’ ar waith (28 o blith 30, neu 93%) ac ‘ADY’ (28 o blith 31, neu 90%). Fodd bynnag, yn debyg i ymatebwyr ysgolion ac UCDau, pan ofynnwyd iddynt i ba raddau yr oedd y diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson gan eraill y tu allan i’w lleoliad, roedd yr ymatebion yn fwy cymysg. Nododd y gyfran fwyaf o ymatebwyr (9 o blith 30, neu 30%) eu bod yn “cytuno i raddau” â’r datganiad hwn, dywedodd 7 o blith y 30 ymatebydd (23%) eu bod yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno”, a nododd 6 ymatebydd arall o blith y 30 (20%) eu bod “ddim yn cytuno nac yn anghytuno”.

4.4 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y saith ymatebydd o SABau ac ISPIs a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Mae angen cyson am hyfforddiant parhaus a datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau bod gan yr holl staff y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.
- Roedd sicrhau cysondeb o ran y ddealltwriaeth o'r system ADY a'r ffordd y caiff ei rhoi ar waith mewn ar draws SABau mawr yn parhau i fod yn her, ac roedd gan rai aelodau o staff well dealltwriaeth nag eraill.

ALlau

Ffigur 3. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY



N= 137 i 139 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

4.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY. Fel y dangosir yn ffigur 3, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr o ALlau eu bod yn deall sut i

ddehongli'r diffiniadau o ADY (83%) a DDdY (78%) a'u rhoi ar waith. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ALlau (61%) hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson yn eu ALl. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn fwy cymysg pan ofynnwyd a oedd diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson gan ysgolion/lleoliadau yn eu ALl; roedd llai na hanner (36%) yr ymatebwyr yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod hyn yn wir, nododd traean (33%) eu bod yn “cytuno i raddau” a nododd 12% eu bod yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf”. Roedd tua hanner yr ymatebwyr o ALlau (49%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” eu bod yn deall y dyletswyddau ar eu ALl mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 ag ADY.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol o ALlau am y cymorth sydd ar gael i’r gweithlu mewn perthynas â’r system ADY

4.6 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 33 o ymatebwyr i’r arolwg a ddarparodd wybodaeth ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn ALl anghysondebau yn y modd yr oedd diffiniadau’n cael eu rhoi ar waith ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys gwahaniaethau rhwng ysgolion ac ALlau. Roedd hyn yn cynnwys gwahanol ddealltwriaeth o'r hyn y gellid ei ystyried yn angen meddygol a'r hyn y gellid ei ystyried yn ADY.
- Nodwyd bod dealltwriaeth wahanol ar draws ysgolion a lleoliadau o'r diffiniad o’r hyn a elwid gan ymatebwyr yn ‘Ddarpariaeth Gyffredinol’ a'i bod yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd wahanol. Nododd yr ymatebwyr y gallai darpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr gael ei hystyried yn 'Ddarpariaeth Gyffredinol' mewn un lleoliad ond yn ddarpariaeth DDdY mewn lleoliad arall.
- Roedd gweithwyr proffesiynol mewn ALl o'r farn bod diffyg arweiniad ac eglurder cyffredinol ynghylch dyletswyddau ôl-16, yn enwedig o ran yr hawl dwy flynedd.

BILlau

Ffigur 4. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY



N= 86 i 87 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

4.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion gan BILlau mewn perthynas â chwestiynau ynghylch gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY yn llai cadarnhaol nag ymatebion gan y

sectorau eraill a gymerodd ran yn yr arolwg. Fel y dangosir yn ffigur 4, roedd tua hanner yr ymatebwyr o'r BILlau (50%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod ganddynt y wybodaeth a’r sgiliau priodol i gyflawni eu rôl wrth gefnogi gweithrediad y system ADY, a’u bod yn deall sut i ddehongli'r diffiniad o ADY a'i roi ar waith (mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol) (49%). Dim ond 11% o’r ymatebwyr a nododd eu bod yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod y diffiniadau o ADY a DDdY, yn eu profiad nhw, yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson gan eraill y tu allan i’w BILl, a nododd y gyfran fwyaf o ymatebwyr eu bod “ddim yn cytuno nac yn anghytuno” (31%) gyda chwarter arall yn nodi eu bod yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” (25%) â'r datganiad hwnnw.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn BILlau mewn perthynas â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY

4.8 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 29 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau at amrywiadau mewn ymarfer ac anghysondeb o ran dehongli rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys: adroddiadau o ddehongliadau gwahanol o agweddau ar y Ddeddf a'r Cod; amrywiadau mewn arferion a phrosesau rhwng awdurdodau lleol, gan arwain at heriau i BILlau wrth reoli ceisiadau am wybodaeth i gefnogi’r gwaith o baratoi CDUau (a hynny, ar adegau, oherwydd diffyg rhybudd i gyfrannu atynt); effeithiau dyfarniadau’r Tribiwnlys Addysg sy’n arwain at newidiadau yn y modd y gweithredwyd y Ddeddf.
- Nododd gweithwyr proffesiynol eraill y BILlau fod ganddynt wybodaeth dda am ofynion y Ddeddf.
- Teimlai'r ymatebwyr nad oedd y Ddeddf wedi arwain at well darpariaeth i rai dysgwyr ag ADY. Nodwyd nad oedd ysgolion a lleoliadau yn adnabod plant ag ADY nac yn rhoi DDdY ar waith mewn modd amserol, gan arwain at beidio â rhoi CDUau ar waith yn ddigon buan. Roedd rhai dysgwyr yn dod i

gysylltiad â CAMHS 'dro ar ôl tro' gydag anghenion dysgu nad oeddent wedi cael eu hadnabod. Teimlai'r ymatebwyr nad oedd anghenion y dysgwyr hyn yn cael sylw yn eu lleoliadau addysgol a bod hyn, mewn rhai achosion, wedi arwain at broblemau emosiynol ychwanegol.

- Awgrymodd yr ymatebwyr fod y system ADY wedi arwain at alwadau cynyddol ar amser BILlau ac nad oedd gan BILlau ddigon o gapasiti i ddarparu gwybodaeth a chyngor. Adroddwyd bod y galwadau ar amser y BILlau yn cynyddu, ac nad oedd unrhyw gymorth ariannol ychwanegol yn cael ei ddarparu i adlewyrchu'r costau.
- Roedd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau hefyd yn cydnabod y cymhlethdodau, gan gynnwys yr angen am fwy o eglurder mewn perthynas â rhai dyletswyddau a gofynion ar ymarferwyr a chlinigwyr BILl.

Cymwysterau a gweithgaredd dysgu proffesiynol

Ysgolion ac UCDau

4.9 Nododd tua thraean yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (35%) fod ganddynt gymwysterau ADY neu AAA penodol, a nododd 65% nad oedd ganddynt gymwysterau o'r fath. Roedd CADYau mewn ysgolion uwchradd (34 o blith 60, neu 57%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd (44 o blith 171, neu 26%) o adrodd bod ganddynt ADY neu gymwysterau AAA penodol. Rhoddodd cyfanswm o 123 o ymatebwyr fanylion ychwanegol am eu cymwysterau mewn ymatebion testun agored. Y cymwysterau mwyaf cyffredin a restrwyd oedd tystysgrifau Meistr neu dystysgrifau ôl-raddedig a diplomâu mewn AAA neu ADY. Cyfeiriodd llawer o'r cyfranogwyr at hyfforddiant arbenigol mewn meysydd megis awtistiaeth, dyslecsia, chwarae therapiwtig ac arferion sy'n ystyriol o drawma.

4.10 Roedd lleiafrif o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (22%) wedi dilyn y LIDPC ADY ar Hwb (nid oedd 74% wedi gwneud hynny a, dywedodd 4% nad oeddent yn gwybod).[12]

[12] Rhaglen ddysgu ar-lein sydd â'r nod o gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn eu helpu i wireddu nodau'r ddeddfwriaeth ADY yw'r LIDPC ADY.

Ymhlith y rhai a ddywedodd nad oeddent wedi dilyn y LIDPC ADY, neu a oedd yn ansicr a oeddent wedi gwneud hynny:

- nododd lleiafrif o'r ymatebwyr hyn (29%) eu bod yn ymwybodol o'r cymhwyster yn flaenorol, ond nid oedd y mwyafrif (71%) yn ymwybodol o'r LIDPC ADY.
- nododd llai na hanner yr ymatebwyr hyn o ysgolion ac UCDau (41%) eu bod yn debygol iawn neu'n weddol debygol o ddilyn y LIDPC ADY yn y dyfodol, roedd 31% yn ansicr a nododd 29% eu bod yn weddol annhebygol neu'n annhebygol iawn o ddilyn y cymhwyster.

4.11 O blith y 22% o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau a oedd wedi dilyn y cymhwyster LIDPC ADY (N=75):

- roedd dros hanner yr ymatebwyr hyn (52%) yn ansicr ar ba lefel yr oeddent wedi dilyn y cymhwyster; roedd 24% wedi cwblhau LIDPC ADY ar Lefel 1, 7% ar Lefel 2 ac 17% ar Lefel 3.
- roedd 36% yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y LIDPC ADY wedi gwella eu dealltwriaeth o'r system ADY; roedd 26% yn "cytuno i raddau", 27% "ddim yn cytuno nac yn anghytuno", 5% yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno" ac 1% yn "anghytuno i raddau" (dywedodd 4% nad oedd hyn yn berthnasol iddyn nhw).
- roedd 26% yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y LIDPC ADY wedi eu helpu i gyflawni eu rôl; roedd 27% yn "cytuno i raddau", nododd 31% eu bod "ddim yn cytuno ddim yn anghytuno", roedd 9% yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno" a 3% yn "anghytuno i raddau" (dywedodd 4% nad oedd hyn yn berthnasol iddyn nhw).

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau am y LIDPC ADY

4.12 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi cwblhau'r LIDPC ADY wneud sylwadau pellach am y LIDPC ADY. Ymhlith y 22 o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Soniodd yr ymatebwyr am anawsterau o ran dod o hyd i amser i gwblhau'r LlDPC ADY oherwydd cyfyngiadau yn sgil eu llwyth gwaith presennol a'u hymrwymiadau personol.
- Gallai cymorth gan gyfoedion fod yn fwy defnyddiol na'r LlDPC ADY.
- Mynegwyd pryderon ynghylch dyfnder a pherthnasedd y cwrs, yn enwedig i CADYau profiadol a'r rhai yn y sector UCDau, ac roedd rhai o'r farn ei fod yn rhy sylfaenol neu nad oedd yn ddigon penodol; galwodd yr ymatebwyr am gefnogaeth a hyfforddiant wedi'u teilwra.
- Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr heriau a wynebir gan CADYau yn deillio'n fwy o brinder cyllid ac adnoddau nag o ddiffyg hyfforddiant.

SABau ac ISPIs

4.13 Nododd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (24 o blith 32, neu 75%) fod ganddynt gymwysterau ADY neu AAA penodol. Rhoddodd cyfanswm o 19 o ymatebwyr fanylion ychwanegol am eu cymwysterau mewn ymatebion testun agored. Y cymwysterau mwyaf cyffredin a restrwyd oedd tystysgrifau Meistr neu dystysgrifau ôl-raddedig a diplomâu mewn AAA neu ADY. Soniodd ymatebwyr eraill am hyfforddiant lefel 7 neu hyfforddiant ôl-raddedig mewn awtistiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, ac arweinyddiaeth.

4.14 Roedd lleiafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (4 o blith 32, neu 13%) wedi dilyn y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ADY (LlDPC ADY) ar Hwb (nid oedd 23 o blith 32, neu 72% wedi gwneud hynny, ac nid oedd 5 o blith 32, neu 16%, yn gwybod). Ymhlith yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs nad oeddent wedi ymgymryd â'r LlDPC ADY, neu nad oeddent yn siŵr:

- nododd lleiafrif o'r rhain (10 o blith 27, neu 37%) eu bod yn ymwybodol o'r cymhwyster yn flaenorol, gyda'r mwyafrif (17 o blith 27, neu 63%) ddim yn ymwybodol o ADY y LlDPC.
- nododd mwyafrif o'r rhain (19 o blith 27, neu 70%) eu bod yn debygol iawn neu'n weddol debygol o ddilyn y LlDPC ADY yn y dyfodol, roedd 6 o blith 27

(22%) yn ansicr a nododd 2 o blith 27 (7%) eu bod yn weddol annhebygol neu'n annhebygol iawn o ddilyn y cymhwyster.[13]

4.15 Ymhlith y 4 (o blith 32, neu 13%) o ymatebwyr o SABau ac ISPIs a oedd wedi ymgymryd â chymhwyster LIDPC ADY, roedd pob un (4 o blith 4, neu 100%) yn "cytuno i raddau" bod rhaglen wedi cynyddu eu dealltwriaeth o'r system ADY a'u helpu i gyflawni eu rôl. [14]

[13] Ni wnaeth un ymatebydd nad oedd wedi dilyn y LIDPC ADY, neu nad oedd yn siŵr a oedd wedi gwneud hynny, ateb y cwestiynau dilynol hyn.
[14] Gofynnwyd i ymatebwyr o SABau ac ISPIs esbonio eu hymateb i ddatganiadau ar y LIDPC ADY. Ni chafwyd digon o ymatebion i'w dadansoddi.

5. Cefnogaeth i'r gweithlu

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ar y gweithgaredd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'r cymorth a oedd ar gael iddynt.

Canfyddiadau allweddol: cefnogaeth i'r gweithlu

- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o ALlau yn llawer mwy tebygol na'r rhai o sectorau eraill o ddweud eu bod yn cael digon o gymorth, ac yn llai tebygol o nodi bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr mewn ALlau (81%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ganddynt fynediad at gymorth priodol (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, cymorth gan gydweithwyr) i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl o dan y system ADY; roedd hyn yn nodedig uwch nag mewn ysgolion/UCDau (65%) a BILlau (52%).
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ALlau (70%) a thros hanner y rhai o ysgolion ac UCDau (61%) a SABau ac ISPIs (21 o blith 32, neu 66%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn cael digon o gymorth (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad) gan eu sefydliad mewn perthynas â'r system ADY. Roedd canran nodedig is o ymatebwyr o BILlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â hyn (47%).
- Roedd tua hanner yr ymatebwyr mewn BILlau (47%) a 39% mewn ysgolion ac UCDau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY; roedd y canrannau hyn yn nodedig uwch na'r ganran gyfatebol ar gyfer ALlau (18%).

Y cymorth pellach sydd ei angen

- Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd[15] bod angen cymorth pellach arnynt a oedd angen rhagor o hyfforddiant neu arweiniad arnynt mewn perthynas â nifer o agweddau penodol ar y system ADY. Ymhlith ysgolion/UCDau a SAB/ISPIs, y math mwyaf cyffredin o gymorth yr oedd ei angen arnynt oedd "Penderfynu pryd mae cyflwr iechyd

[15] Yn "cytuno", yn "cytuno'n gryf", neu'n "cytuno i raddau" bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY fel y mae'n berthnasol i'w rôl

– gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl – yn golygu bod gan ddisgybl ADY (ac felly bod angen CDU)" (55% mewn ysgolion/UCDau a 15 o blith 24 (63%) mewn SABau ac ISPIs). Roedd rhai gwahaniaethau nodedig rhwng ymatebwyr o wahanol sectorau:

- Roedd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (22%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ALlau (5%) o nodi bod angen cymorth arnynt gydag "Adnabod yn gynnar: adnabod pryd y gall fod gan ddysgwr ADY".
- Roedd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (38%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ALlau (20%) o nodi bod angen cymorth arnynt gyda "Monitro a gwerthuso effaith DDdY".
- Roedd ymatebwyr o BILlau (39%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion ac UCDau (20%) o nodi bod angen cymorth arnynt gyda "Gweithio ar y cyd gyda phartneriaid allanol".
- Roedd ymatebwyr o BILlau (46%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion (19%) ac ALlau (23%) o nodi bod angen cymorth arnynt gyda "Rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau".
- Roedd ymatebwyr o ALlau (50%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion ac UCDau (33%) o nodi bod angen "Canllawiau pellach ar y dyletswyddau statudol ar Gydlynydd ADY".

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- y llwyth gwaith ychwanegol sylweddol a wynebir gan y gweithlu sy'n gysylltiedig â gweithredu'r system ADY, a nodwyd gan ymatebwyr o ysgolion/UCDau.
- barn gymysg o wahanol sectorau ar y cymorth a ddarperir, gydag ALlau yn tueddu i fod â barn fwy cadarnhaol nag ysgolion/UCDau ynghylch y cymorth sydd ar gael.
- barn gadarnhaol gan ymatebwyr o BILlau ar y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan SACDAau, ond canfyddiad bod llai o gyfleoedd i weithwyr iechyd proffesiynol gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol o gymharu â'r rhai mewn sectorau eraill.

pob sector yn tynnu sylw at yr angen am gymorth pellach i uwchsgilio a helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall y diwygiadau'n well ac ymateb yn well iddynt.

Canfyddiadau yn ôl sector: Ysgolion ac UCDau

Ffigur 5. Ymateb ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â chyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael



N= 340 i 343 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

5.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chefnogaeth i'r gweithlu. Cyflwynir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Ffigur 5. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (65%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ganddynt fynediad at gymorth priodol (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, cymorth gan gydweithwyr) i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl o dan y system ADY. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr (39%) yn

“cytuno” neu'n “cytuno’n gryf” bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY fel y mae’n berthnasol i’w rôl, ac roedd 25% arall yn "cytuno i raddau".

5.2 Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd[16] fod angen cymorth pellach arnynt pa fath o gymorth oedd ei angen arnynt. Nododd dros hanner yr ymatebwyr hyn (55%) bod angen cymorth arnynt gyda “Penderfynu pryd mae cyflwr iechyd – gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl – yn golygu bod gan ddisgybl ADY (ac felly bod angen CDU)”. Cyflwynir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Ffigur 6.

16 Yn “cytuno”, yn “cytuno’n gryf”, neu'n “cytuno i raddau” bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY fel y mae’n berthnasol i’w rôl

Ffigur 6. Ymateb ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn "A oes angen hyfforddiant neu arweiniad pellach arnoch mewn perthynas â'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)"



N= 85

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

5.3 Dewisodd cyfanswm o 35 o ymatebwyr yr opsiwn “arall” gan ddisgrifio’r cymorth pellach yr oedd ei angen arnynt ar agweddau penodol ar y system ADY. Roedd yr atebion yn cynnwys ymatebwyr yn dweud bod angen amser ychwanegol arnynt i gyflawni eu rolau, yn hytrach na chymorth pellach fel y cyfryw, yn enwedig i ymgysylltu â staff a theuluoedd, a deunyddiau hyfforddi. Roedd eraill eisiau mwy o eglurder, gan gynnwys beth sy'n cyfrif fel DDdY, rheolaeth dda ar CDUau, a phroses sicrwydd ansawdd ar draws lleoliadau. Cafwyd ceisiadau hefyd am gymorth pellach gan arbenigwyr ac arweiniad ar ymdrin ag anghenion cymhleth disgyblion a chydweithio amlasiantaeth.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol o BILlau am y gefnogaeth sydd ar gael i’r gweithlu mewn perthynas â’r system ADY

5.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach am y gefnogaeth sydd ar gael i ymarferwyr mewn perthynas â’r system ADY. Ymhlith y 102 o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Tynnodd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau sylw at y pwysau yn sgil y llwyth gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â'r system ADY, yn enwedig oherwydd y gofynion gweinyddol a diffyg amser neu adnoddau digonol i baratoi ac adolygu CDUau.
- Nododd yr ymatebwyr anghysondebau a diffygion mewn hyfforddiant, a mynegodd llawer bryderon nad oeddent wedi cael eu paratoi’n ddigonol ar gyfer y newidiadau a gyflwynwyd gan y Cod ADY.
- Mynegodd yr ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch anghysondeb o ran y cymorth gan awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â chyngor amserol a gwneud penderfyniadau.
- Soniwyd hefyd am heriau cyllido sylweddol, yr ystyriwyd eu bod yn effeithio ar allu ysgolion i ddiwallu anghenion cynyddol a chymhleth dysgwyr.

SABau ac ISPIs[17]

Ffigur 7. Ymateb ymarferwyr o SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael



N= 32

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

5.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chefnogaeth i'r gweithlu. Fel y dangosir yn Ffigur 7, roedd dros hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (21 o blith 32, neu 66%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod cymorth priodol ar gael iddynt (e.e. dysgu

[17] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

proffesiynol, arweiniad, cymorth gan gydweithwyr) i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl o dan y system ADY a'u bod yn cael digon o gymorth gan eu coleg/sefydliad mewn perthynas â'r system ADY (21 o blith 32, neu 66%). Roedd llai na hanner (14 o blith 32, neu 44%) yr ymatebwyr yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY a 10 arall o blith 32 (31%) yn "cytuno i raddau". Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd[18] fod angen rhagor o gymorth arnynt pa fath o gymorth oedd ei angen arnynt. O blith yr ymatebwyr hyn (N=24), y math mwyaf cyffredin o gymorth yr oedd ei angen ar ymatebwyr yn y sectorau hyn oedd "Penderfynu pryd mae cyflwr iechyd – gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl – yn golygu bod gan ddisgybl ADY (ac felly bod angen CDU)".

Ymatebion testun agored gan SABau ac ISPIs am y cymorth sydd ar gael i'r gweithlu mewn perthynas â'r system ADY

5.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach am y gefnogaeth sydd ar gael i ymarferwyr mewn perthynas â'r system ADY. Ymhlith y saith ymatebydd o SABau ac ISPIs a roddodd sylwadau ychwanegol, y pwyntiau a godwyd amlaf oedd ymatebwyr yn rhestru lle roeddent wedi cael cymorth (e.e., Arweinydd Trawsnewid Ôl-16, Colegau Cymru, cydweithwyr), a chanmolwyd hynny. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod angen cymorth parhaus bob amser. Nodwyd hefyd mai ychydig iawn o gymorth yr oedd ISPIs wedi'i gael.[19]

[18] Yn "cytuno", yn "cytuno'n gryf", neu'n "cytuno i raddau" bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY fel y mae'n berthnasol i'w rôl

[19] Mae'n bwysig nodi nad oes gan ISPIs ddyletswyddau penodol o dan y Cod ADY.

ALlau

Ffigur 8. Ymateb ymarferwyr mewn ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â gweithgaredd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael



N= 135 i 139 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

5.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chefnogaeth i'r gweithlu. Fel y dangosir yn Ffigur 8, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (81%) o ALlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ganddynt fynediad at gymorth priodol (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, cymorth gan gydweithwyr) i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl o dan y system ADY. Roedd y mwyafrif (70%) hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn cael digon o gymorth gan eu ALl mewn perthynas â'r system ADY. O gymharu ag ymatebwyr o

sectorau eraill, roedd llai o ymatebwyr o ALlau (18%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod angen cymorth pellach arnynt (31% yn “anghytuno” neu'n “anghytuno’n gryf”). Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd[20] fod angen rhagor o gymorth arnynt pa fath o gymorth oedd ei angen arnynt. Ymhlith y rhai a nododd hynny (N=45), y mathau mwyaf cyffredin o gymorth oedd ei angen oedd gyda'r “Broses benderfynu ar gyfer pennu ADY: Penderfynu a yw anhawster dysgu neu anabledd dysgwr yn gofyn am DDdY” a “Cydweithio gyda phartneriaid allanol”. Ymhlith yr 14 o ymatebwyr i’r arolwg o ALlau a nododd fod angen math “Arall” o gymorth arnynt, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd ymarferwyr mewn ALlau fod angen mwy o gymorth ar sut i reoli achosion cymhleth, megis y rhai ble roedd cynlluniau lluosog ar gael ar gyfer dysgwyr, fel CDU a Chynllun Gofal Iechyd Unigol.
- Nodwyd bod angen canllawiau i ymarferwyr mewn ALlau ar reoli achosion trawsffiniol o Loegr. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar brotocolau rhannu gwybodaeth ac egluro pwy oedd yn gyfrifol am drefnu DDdY.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol o ALlau am y cymorth sydd ar gael i’r gweithlu mewn perthynas â’r system ADY

5.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach am y cymorth sydd ar gael i weithwyr proffesiynol mewn perthynas â’r system ADY. Ymhlith y 41 ymatebydd o ALlau a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol o ALlau eu bod yn awyddus i gael mwy o gymorth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol canolog, templedi ar gyfer CDUau a disgrifiadau penodol o DDdY.
- Amlygodd gweithwyr proffesiynol o ALl y lefelau da o gymorth a gawsant gan rwydweithiau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys rhwydweithiau o fewn yr ALl yn ogystal â rhwydweithiau allanol gydag asiantaethau/gwasanaethau eraill.

[20] Yn “cytuno”, yn “cytuno’n gryf”, neu'n “cytuno i raddau” bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY fel y mae’n berthnasol i’w rôl

- Nododd gweithwyr proffesiynol yr ALl fod capasiti'r gweithlu yn yr ALl ac ysgolion yn heriol. Nodwyd cyfraddau uchel o drosiant staff a bylchau staffio fel heriau allweddol i ymarferwyr wrth ddiwallu anghenion dysgwyr.

BILlau

Ffigur 9. Ymatebion ymarferwyr mewn BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael



N= 85 i 87 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

5.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chefnogaeth i'r gweithlu. Fel y dangosir yn Ffigur 9, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (81%) o ALlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ganddynt fynediad at gymorth priodol (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, cymorth gan gydweithwyr) i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl o dan y system ADY. Roedd tua'u hanner (47%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY ac roedd 21% arall yn "cytuno i raddau". Gofynnwyd i'r rhai a nododd ("cytuno", "cytuno'n gryf" neu "cytuno i raddau") fod angen cymorth pellach arnynt (N=58) pa fath o gymorth yr

oedd ei angen arnynt a'r math mwyaf cyffredin o gymorth a nodwyd oedd “Cyfrannu at CDUau”.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn BILlau am y cymorth sydd ar gael i’r gweithlu mewn perthynas â’r system ADY

5.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach am y cymorth sydd ar gael i weithlu BILlau mewn perthynas â’r system ADY. Ymhlith y 40 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Roedd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau yn cydnabod y cymorth a'r arweiniad effeithiol a ddarparwyd gan eu SACDA. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at lefelau da o ymgysylltu â'u SACDA, drwy hyfforddiant wedi'i gynllunio ar agweddau penodol ar y Cod ADY a thrwy gyngor a roddir ynghylch ymholiadau penodol ar sail ad hoc.
- Fodd bynnag, nododd ymatebwyr o BILlau hefyd yr angen am gymorth pellach i uwchsgilio a helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall y diwygiadau. Galwodd rhai am gymorth mwy rheolaidd yn wyneb y broses weithredu 'sy'n esblygu'n barhaus'. Roedd hyn yn cynnwys cymorth ymarferol i helpu i integreiddio’r dyletswyddau a nodir yn y Cod i weithgareddau gwaith o ddydd i ddydd.
- Roedd teimlad bod llai o gyfleoedd i weithwyr iechyd proffesiynol gael mynediad at weithgaredd dysgu proffesiynol yn ymwneud â’r system ADY o gymharu â chyfleoedd i ymarferwyr yn y sector addysg.
- Mynegodd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau bryder am ddiffyg eglurder ynghylch agweddau ar y Ddeddf a'r Cod. Nododd yr ymatebwyr
- fod rhai agweddau ar y Cod yn agored i ddehongliad, a allai arwain at amrywiadau mewn ymarfer a gweithredu'r Ddeddf ledled Cymru.

6. Rôl y CADY

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â rôl y CADY. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (257 o blith 344, neu 75%) a lleiafrif y rhai o SABau ac ISPIs (12 o blith 33, neu 36%)[21] yn CADYau. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr hyn am eu rôl, gan gynnwys eu patrwm gweithio, eu llwyth gwaith a'r tasgau a gyflawnwyd, yr amser a'r adnoddau a neilltuwyd iddynt gyflawni eu rôl CADY.

Canfyddiadau allweddol: rôl y CADY

- Nododd mwyafrif llethol y CADYau mewn ysgolion ac UCDau (85%) a mwyafrif yr ymatebwyr mewn SAB (10 o blith 12, neu 83%) eu bod yn gweithio'n llawn amser. Roedd CADYau mewn ysgolion uwchradd (57 o blith 60, neu 95%) yn llawer mwy tebygol o fod yn gweithio'n llawn amser na'r rhai mewn ysgolion cynradd (134 o blith 170, neu 79%). Nododd lleiafrif bach o CADYau mewn ysgolion ac UCDau (11%) fod eu rôl yn cael ei rhannu â mwy nag un person o gymharu â thraean yr ymatebwyr (4 o blith 12, neu 33%) mewn SABau.[22]
- Roedd canran uwch o CADYau mewn ysgolion ac UCDau (75%) yn rhan o'r uwch dîm arwain o gymharu â SABau, lle nad oedd 10 o blith 11 (91%) CADY yn rhan o dîm o'r fath. Roedd CADYau mewn ysgolion cynradd (143 o blith 171, neu 84%) yn llawer mwy tebygol o fod yn aelodau o uwch dîm arwain na'r rhai mewn ysgolion uwchradd (30 o blith 60, neu 50%).
- Roedd gan fwyafrif y CADYau mewn ysgolion gyfrifoldebau addysgu yn ychwanegol at eu rôl CADY (77%) ond nid oedd gan fwyafrif y CADYau mewn SABau gyfrifoldebau addysgu (10 o blith 12, neu 83%).
- Dywedodd mwyafrif (75%) y CADYau mewn ysgolion eu bod yn cael 'amser wedi'i warchod' i gyflawni eu rôl CADY o gymharu ag 8 o blith 12 (67%) mewn SABau.

[21] Ni nododd unrhyw ymatebydd o ISPIs fod ganddo rôl CADY. Felly, mae gweddill yr adran hon yn cyfeirio at SABau yn unig.
[22] Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr is-adran hon yn seiliedig ar sampl fach o 12 CADY mewn SABau. Er bod hyn yn cynrychioli cyfran uchel o golegau, mae'n bwysig trin y canlyniadau hyn fel rhai sy'n ddangosol o'r sampl a ymatebodd yn hytrach na rhai y gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth. Felly ni ddylid ystyried y gwahaniaethau rhwng yr ymatebion gan CADYau mewn ysgolion ac UCDau a SABau fel rhai nodedig.

- Roedd gan ganran uwch o CADYau mewn SABau fynediad at gymorth gan gynorthwywyr addysgu a staff eraill o gymharu â CADYau mewn ysgolion ac UCDau. Roedd gan ganran uwch o CADYau mewn ysgolion uwchradd fynediad at gymorth gan staff eraill o gymharu â'r rhai mewn ysgolion cynradd.
- O ran y gweithgareddau a gyflawnir amlaf gan CADYau, dywedodd y rhai mewn ysgolion/UCDau a SABau mai “Cynghori a chefnogi staff eraill”, “Gweithgareddau gweinyddol (e.e. cadw cofnodion)” a “Cydgysylltu â rhieni a gofalwyr” oedd y gweithgareddau yr oeddent yn ymgymryd â nhw.
- Roedd lleiafrif y CADYau mewn ysgolion/UCD (12%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith CADY yn effeithiol o fewn yr oriau a neilltuwyd yn swyddogol i’w rôl CADY, ond roedd dros eu hanner (55%) yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf” â hyn.
- Mewn SABau, nododd 4 o bob 10 (40%) o ymatebwyr eu bod yn “cytuno i raddau” eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith CADY yn effeithiol o fewn yr oriau a neilltuwyd yn swyddogol i’w rôl, ac roedd 3 o bob 10 (30%) arall yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â hyn.
- Roedd lleiafrif y CADYau mewn ysgolion/UCDau (15%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY, ac roedd tua'u hanner (53%) yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf” â hyn.
- Yn olaf, roedd 12% o CADYau mewn ysgolion/UCDau yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” eu bod yn gallu cydbwyso gofynion eu rôl CADY â gofynion y rolau eraill yr oeddent yn eu cyflawni, (e.e. addysgu, prifathrawiaeth / arweinyddiaeth), roedd 51% yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf” â hyn.
- Mewn SABau, roedd 4 o bob 10 (40%) CADY yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf”, bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY a nododd 40% arall eu bod yn “cytuno i raddau” â hyn.
- Roedd lleiafrif (2 o blith 10, neu 20%) y CADYau mewn SABau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” eu bod yn gallu cydbwyso gofynion eu rôl CADY â gofynion y rolau eraill yr oeddent yn ymgymryd â nhw (e.e. addysgu, prifathrawiaeth / arweinyddiaeth) ac roedd 3 arall o blith 10 (30%) “yn cytuno i raddau”.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith lleiafrif y CADYau o ysgolion/UCDau a roddodd ymatebion i'r cwestiynau testun agored, roedd y themâu a godwyd amlaf yn cynnwys y canlynol:

- heriau i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â chyfyngiadau amser, gan gynnwys:
    - mae'r llwythi gwaith sylweddol yn golygu bod tasgau sy'n gysylltiedig ag ADY yn aml yn cael eu cwblhau y tu allan i oriau ysgol.
    - anhawster i gydbwyso eu dyletswyddau o dan y Cod â'u cyfrifoldebau addysgu.
    - cynnydd yn y gwaith papur o dan y system ADY o gymharu â'r system flaenorol.

Patrymau gwaith CADYau: ysgolion ac UCDau

6.1 Nododd mwyafrif llethol y CADYau (85%) mewn ysgolion ac UCDau eu bod yn gweithio'n llawn amser. Roedd CADYau mewn ysgolion uwchradd (57 o blith 60, neu 95%) yn llawer mwy tebygol o fod yn gweithio'n llawn amser na'r rhai mewn ysgolion cynradd (134 o blith 170, neu 79%). Nododd lleiafrif bach (11%) fod rôl y CADY yn cael ei rhannu rhwng dau neu fwy o bobl yn eu lleoliad (dywedodd 89% nad oedd hyn yn wir).

6.2 Nododd mwyafrif y CADYau (75%) eu bod yn rhan o'r uwch dîm arwain yn eu hysgol neu UCD, a nododd ychydig dros eu hanner (54%) fod ganddynt gyfrifoldebau arwain eraill (e.e. pennaeth adran, pennaeth blwyddyn) ochr yn ochr â'u rôl CADY. Roedd CADYau mewn ysgolion cynradd (143 o blith 171, neu 84%) yn llawer mwy tebygol o fod yn aelodau o uwch dîm arwain na'r rhai mewn ysgolion uwchradd (30 o blith 60, neu 50%).

6.3 Nododd mwyafrif y CADYau fod ganddynt gyfrifoldebau addysgu yn ychwanegol at eu rôl CADY (77%).

Amser 'wedi'i warchod' i CADYau: ysgolion ac UCDau

Dywedodd mwyafrif (75%) y CADYau mewn ysgolion eu bod yn cael amser wedi'i warchod er mwyn cyflawni eu rôl. Ar gyfartaledd, dywedodd y CADYau hynny a nododd eu bod yn cael amser wedi'i warchod eu bod yn cael 1.9 diwrnod o amser wedi'i warchod wythnos, ac adroddodd CADYau mewn ysgolion uwchradd eu bod yn cael mwy o amser ar gyfartaledd (3 diwrnod) na'r rhai mewn ysgolion cynradd (1.5 diwrnod) gweler Ffigur 10

6.4 Ffigur 10.

Ffigur 10. Ymatebion CADYau i'r cwestiwn: "Faint o amser wedi'i warchod yr wythnos sydd wedi'i neilltuo i chi gyflawni eich rôl CADY?"



Ffynhonnell: Arolwg Arad o Ymarferwyr

N=168

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas ag amser wedi'i warchod

6.5 Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau pellach ar amser wedi'i warchod. Ymhlith yr 88 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Dim digon o amser ar gael i gyflawni rôl y CADY ochr yn ochr â chyfrifoldebau addysgu, ac mewn rhai achosion, cyfrifoldebau rheolwr llinell neu rôl arwain. Dywedodd y CADYau eu bod yn gweithio oriau hir, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau, er mwyn rheoli eu llwyth gwaith.
- Nododd yr ymatebwyr fod eu hamser gwarchodedig wedi'i leihau, mewn rhai achosion o ddau neu dri diwrnod i un diwrnod yr wythnos yn unig, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau ar gyllidebau.

- Roedd galwadau hefyd am ganllawiau cliriach a mwy o gefnogaeth o fewn eu hysgol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo nad oedd gofynion y rôl yn cael eu cydnabod yn llawn nac yn cael sylw llawn gan yr arweinwyr yn eu hysgol.

Adnoddau ychwanegol sydd ar gael i CADYau: ysgolion ac UCDau

6.6 Gofynnwyd i CADYau mewn ysgolion ac UCDau pa adnoddau staff ychwanegol, os o gwbl, a oedd ar gael yn eu hysgol/lleoliad i'w cefnogi gyda'u cyfrifoldebau CADY. Fel y dangosir yn Ffigur 11, nododd llai na hanner (43%) yr ymatebwyr fod cynorthwywyr addysgu ar gael i'w cefnogi, a nododd 36% nad oedd dim adnoddau staff ar gael i'w cefnogi. Nododd lleiafrif (21%) fod cefnogaeth weinyddol ar gael iddynt a nododd lleiafrif bach fod athrawon arbenigol (13%) neu CADY cynorthwyol ar gael iddynt (13%). Roedd gan ganran uwch o CADYau mewn ysgolion uwchradd fynediad at gymorth gan staff eraill o gymharu â'r rhai mewn ysgolion cynradd.[23]

[23] Yn seiliedig ar ymatebion gan 60 o CADYau mewn ysgolion uwchradd a 171 mewn ysgolion cynradd.

Ffigur 11. Ymatebion CADYau i'r cwestiwn: "Pa adnoddau staff ychwanegol sydd ar gael yn eich ysgol/lleoliad i'ch cefnogi gyda'ch cyfrifoldebau CADY? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)"



Ffynhonnell: Arolwg Arad o Ymarferwyr

N=247

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas â chymorth a ddarperir gan staff ychwanegol

6.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg amlinellu'r cymorth o ran adnoddau staff ychwanegol sydd ar gael iddynt. Ymhlith y 126 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr fod cefnogaeth weinyddol ar gael, a oedd yn cynnwys tasgau megis uwchlwytho dogfennau i blatfformau meddalwedd (e.e., Eclipse, Edukey), cynhyrchu adroddiadau, trefnu cyfarfodydd, a rheoli atgyfeiriadau.
- Credwyd bod cynorthwywyr addysgu yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu ymyriadau, casglu gwybodaeth ar gyfer CDUau, a chefnogi dysgwyr.

- Roedd yr adnoddau staff a oedd ar gael yn amrywio: dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn cael ychydig iawn o gymorth ychwanegol neu ddim cymorth o ychwanegol o gwbl gan staff, ond cyfeiriodd eraill at gymorth gan y rhai â rolau penodol fel dirprwy CADYau a swyddogion cyswllt teuluol, ac at gymorth gan uwch arweinwyr, athrawon arbenigol, neu dîm ymroddedig o gynorthwywyr addysgu sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion fel anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) ac anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.
- Nododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch adnoddau ac amser annigonol i gefnogi eu dyletswyddau ADY yn ddigonol.

Gweithgareddau CADY: ysgolion ac UCDau

6.8 Gofynnwyd i CADYau pa mor aml yr oeddent yn ymgymryd â chyfres o weithgareddau'n ymwneud â'u rôl. Fel y dangosir yn Ffigur 12, nododd mwyafrif y CADYau eu bod yn gwneud y gweithgareddau canlynol yn aml iawn (bron bob dydd):

- Gweithgareddau gweinyddol (e.e. cadw cofnodion) - 74%.
- Cyd-drafod â rhieni a gofalwyr (gan gynnwys ymateb i ymholiadau) – 72%.

Roedd mwyafrif llethol y CADYau (88 i 96%) yn ymgymryd â'r gweithgareddau uchod, yn ogystal â "Chyd-drafod â gwasanaethau arbenigol", o leiaf unwaith yr wythnos.

6.9 Roedd CADYau mewn ysgolion uwchradd (55 o blith 60, neu 92%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd (109 o blith 171, neu 64%) o ddweud eu bod "yn cyd-drafod â rhieni a gofalwyr (gan gynnwys ymateb i ymholiadau) "yn aml iawn (bron bob dydd)". Roedd CADYau mewn ysgolion cynradd (53 o blith 171, neu 31%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd (4 o blith 60, neu 7%) o ddweud eu bod yn gwneud hyn "yn weddol aml (o leiaf un diwrnod yr wythnos)".

6.10 Roedd CADYau mewn ysgolion cynradd yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o ddweud eu bod yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol "yn anaml (ychydig o weithiau bob tymor)":

- Adolygiadau o CDU – 57% yn y cynradd (95 o blith 166), 22% yn yr uwchradd (13 o blith 60).
- Mynychu cyfarfodydd CDU (cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) – 52% yn y cynradd (89 o blith 171), 20% yn yr uwchradd (12 o blith 60).
- Paratoi CDUau – 46% cynradd (77 o blith 166), 14% uwchradd (8 o blith 59).

Gallai'r gwahaniaethau hyn adlewyrchu'r ffaith bod gan ysgolion cynradd lai o ddysgwyr nag ysgolion uwchradd fel arfer, ac felly byddai CADYau yn debygol o fod â llai o CDUau i'w paratoi a'u hadolygu.

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas â pha mor aml yr oeddent yn ymgymryd â gweithgareddau CADY

6.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg gynnwys unrhyw sylwadau i egluro pa mor aml yr oeddent yn ymgymryd â gweithgareddau CADY. Ymhlith y 69 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr fod amrywioldeb rôl y CADY yn golygu ei bod yn anodd rhoi atebion cywir ar ba mor aml yr oeddent yn cyflawni gweithgareddau, gan fod rhai cyfnodau a oedd yn canolbwyntio'n helaeth ar gyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a pharatoi neu adolygu CDUau, a chyfnodau eraill a oedd yn canolbwyntio ar dasgau neu faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Eglurodd yr ymatebwyr hefyd fod newidiadau bach—fel salwch ymysg y staff neu ddigwyddiadau yn yr ysgol—yn golygu bod angen aildrefnu tasgau a mynd i'r afael â materion yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith drwy gydol y dydd.
- Eglurodd yr ymatebwyr fod cyfyngiadau amser yn bryder mawr, gan ddweud eu bod yn aml yn cwblhau tasgau'n gysylltiedig ag ADY y tu allan i oriau ysgol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr her barhaus o reoli amser oherwydd eu llwyth gwaith sylweddol.
- Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys cynnydd canfyddedig mewn tasgau gweinyddol a oedd yn cael sgil-effeithiau ar weithgareddau eraill, staffio a chymorth cyfyngedig, a chymhlethdod cynyddol y rôl.

Ffigur 12. Ymatebion CADYau mewn ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "Pa mor aml ydych chi'n ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol fel CADY?"



Ffynhonnell: Arolwg Arad o Ymarferwyr

N=257

Barn ar rôl y CADY: ysgolion ac UCDau

6.12 Roedd dros hanner y CADYau mewn ysgolion ac UCD (55%) yn “anghytuno” neu’n “anghytuno'n gryf ” eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith CADY yn effeithiol o fewn yr oriau a neilltuwyd yn swyddogol i’w rôl CADY (roedd 12% yn “cytuno'n gryf” neu’n “cytuno” â hyn). Roedd tua hanner yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf” bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY (53%) a’u bod yn gallu cydbwyso gofynion eu rôl CADY â gofynion y rolau eraill yr oeddent yn eu cyflawni (e.e. addysgu, prifathrawiaeth / arweinyddiaeth) (51%).

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas â'u rôl CADY

6.13 Gofynnwyd i CADYau mewn ysgolion ac UCDau a oedd yn “anghytuno’n gryf”, yn “anghytuno” neu'n “anghytuno i raddau” eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith yn effeithiol, bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY neu eu bod yn gallu cydbwyso gofynion eu rôl CADY â rolau eraill, i roi sylwadau ar ddau gwestiwn testun agored arall. Pan ofynnwyd i’r 176 o CADYau hyn (o blith cyfanswm o 257 a gwblhaodd yr holiadur) beth oedd yn effeithio fwyaf ar eu gallu i reoli eu llwyth gwaith yn effeithiol, roedd y ffactorau a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Soniodd yr ymatebwyr yn aml am gyfyngiadau amser fel y brif her. Amlygwyd yr anhawster o gydbwyso eu dyletswyddau CADY â'u cyfrifoldebau addysgu. Nododd llawer fod yr amser a neilltuwyd ar gyfer tasgau CADY yn annigonol, sy'n golygu eu bod yn gweithio'n rheolaidd gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Roedd maint y gwaith papur, gan gynnwys paratoi CDU, atgyfeiriadau, a dogfennau ar gyfer cyfarfodydd, yn bryder a godwyd yn gyson gan yr ymatebwyr. Disgrifiodd yr ymatebwyr ei fod yn ormodol, a nododd rhai ei fod wedi cynnydd o dan y system ADY. Soniwyd hefyd am achosion o ddyblygu gwybodaeth ar draws ffurflenni ac aneffeithlonrwydd rhwng systemau ar-lein a phrosesau ALl.
- Amlygodd yr ymatebwyr gymhlethdod yr anghenion fel pryder: soniodd llawer am gymhlethdod cynyddol anghenion disgyblion, a sut yr oedd hyn yn ychwanegu at eu llwyth gwaith. Amlygodd CADYau heriau o ran cefnogi

dysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai ag anghenion meddygol neu niwroddatblygiadol cymhleth.

- Nododd yr ymatebwyr hefyd fod cyd-drafod â rhieni/gofalwyr a bodloni eu disgwyliadau yn cyfrannu at y llwyth gwaith, yn enwedig pan oedd oedi neu gymorth annigonol gan asiantaethau allanol.
- Nododd yr ymatebwyr heriau o ran cael mynediad at gymorth allanol, megis amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau arbenigol (e.e., therapyddion lleferydd, asesiadau niwroddatblygiadol neu seicolegwyr addysg). At hynny, nodwyd anawsterau ymarferol wrth gydlynu cyfarfodydd rhwng CADYau a gweithwyr proffesiynol allanol oherwydd bod amserlenni'n gwrthdaro a rolau rhan-amser. Nododd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn cael cyngor anghyson ac weithiau gyngor a oedd yn groes i'w gilydd gan dimau ALlau.
- Dim digon o staff: roedd yr ymatebwyr o'r farn bod prinder adnoddau, yn enwedig cynorthwywyr addysgu, i gefnogi'r nifer cynyddol o ddysgwyr y mae angen cymorth arnynt, a bod hynny'n ychwanegu at y llwyth gwaith. Yn ogystal â hynny, nododd yr ymatebwyr fod angen mwy o eglurder ynghylch rolau staff.

6.14 Gofynnwyd i'r CADYau hyn hefyd am awgrymiadau ymarferol ar ba newidiadau a fyddai'n helpu i wneud eu llwyth gwaith CADY yn fwy hylaw. Ymhlith y 170 o ymatebion (o blith cyfanswm o 257 a gwblhaodd yr holiadur), roedd y ffactorau a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Roedd mwyafrif clir o blaid gwneud rôl y CADY yn un llawn amser nad yw'n rôl addysgu er mwyn sicrhau llwyth gwaith mwy hylaw a bod modd canolbwyntio ar gyfrifoldebau ADY.
- Teimlai'r ymatebwyr fod angen cymorth gweinyddol penodol llawn amser, neu ddirprwy CADY, i helpu gyda'r gwaith papur sylweddol a'r gofynion trefniadol, yn enwedig mewn ysgolion mwy.
- Dywedodd yr ymatebwyr y dylid lleihau maint y gwaith papur a bod prosesau sy'n ymwneud â CDUau ac atgyfeiriadau (yn enwedig at gyrff iechyd) yn llafurus ac y dylid eu symleiddio.

- Galwodd yr ymatebwyr am well hyfforddiant i asiantaethau iechyd ac asiantaethau allanol er mwyn gwella cydweithio ac i egluro rolau mewn perthynas â chefnogi ADY.

Patrymau gwaith CADY: SABau

6.15 Nododd mwyafrif y CADYau (10 o blith 12, neu 83%) mewn SAB eu bod yn gweithio'n llawn amser. Dywedodd traean yr ymatebwyr (4 o blith 12, neu 33%) fod rôl y CADY wedi'i rhannu rhwng dau neu fwy o bobl yn eu coleg/sefydliad (dywedodd 8 o blith 12, neu 67% nad oedd hyn yn wir).[24]

6.16 Dywedodd mwyafrif llethol y CADYau (10 o blith 11, neu 91%) mewn SABau nad oeddent yn rhan o'r uwch dîm arwain yn eu coleg/sefydliad, a nododd traean (4 o blith 12, neu 33%) fod ganddynt gyfrifoldebau arwain eraill (e.e. pennaeth cyfadran) ochr yn ochr â'u rôl CADY.

6.17 Nododd mwyafrif y CADYau mewn SABau nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu yn ychwanegol at eu rôl CADY (10 o blith 12, neu 83%). Nododd mwyafrif y CADYau (8 o blith 12, neu 67%) hefyd eu bod yn cael amser 'wedi'i warchod' er mwyn cyflawni eu rôl CADY.

Amser 'wedi'i warchod' ar gyfer CADYau: SABau

6.18 Dywedodd pob un o'r CADYau mewn SABau a nododd eu bod yn cael amser wedi'i warchod eu bod yn cael rhwng 2.5 a 5 diwrnod yr wythnos o amser wedi'i warchod ar gyfer y rôl.

Adnoddau ychwanegol sydd ar gael i CADYau: SABau

6.19 Gofynnwyd i CADYau mewn SABau pa adnoddau staff ychwanegol, os o gwbl, oedd ar gael yn eu hysgol/lleoliad i'w cefnogi gyda'u cyfrifoldebau CADY. Dywedodd y

[24] Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr is-adran hon yn seiliedig ar sampl fach o 12 CADY mewn SABau. Er bod hyn yn cynrychioli cyfran uchel o golegau, mae'n bwysig trin y canlyniadau hyn fel rhai sy'n ddangosol o'r sampl a ymatebodd yn hytrach na rhai y gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth.

mwyafrif (7 o blith 11, neu 64%) fod cynorthwywyr addysgu ar gael i'w cefnogi, a nododd tua'u hanner fod cefnogaeth weinyddol (6 o blith 11, neu 55%), athrawon arbenigol (5 o blith 11, neu 45%) neu reolwr ADY (5 o blith 11, neu 45%) ar gael iddynt. Ni nododd yr un o'r CADYau mewn SABau nad oedd ganddynt unrhyw adnoddau staff ar gael i'w cefnogi.

Gweithgareddau'r CADY: SABau

6.20 Fel y dangosir yn Ffigur 13, nododd mwyafrif y CADYau mewn SABau (8 o blith 10, neu 80%) eu bod yn "Cynghori a chefnogi staff eraill yn y coleg/sefydliad" yn aml iawn (bron bob dydd). Nododd dros eu hanner eu bod yn gwneud y gweithgareddau canlynol bron bob dydd:

- Gweithgareddau gweinyddol (e.e. cadw cofnodion) – 6 o blith 10, neu 60%
- Cysylltu â rhieni a gofalwyr (gan gynnwys ymateb i ymholiadau) – 6 o blith 10, neu 60%

Nododd pob CADY mewn SAB (10 o blith 10, neu 100%) eu bod yn ymgymryd â phob un o'r gweithgareddau uchod o leiaf unwaith yr wythnos.

Ffigur 13. Ymatebion CADYau mewn SABau i'r cwestiwn: "Pa mor aml ydych chi'n ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol fel CADY?"



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Arad

N=9 i 11 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)

Barn ar rôl y Cydlynydd ADY: SABau

6.21 Roedd lleiafrif o'r CADYau mewn SABau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith CADY yn effeithiol o fewn yr oriau a neilltuwyd yn swyddogol i'w rôl (3 o bob 10, neu 30%), a dywedodd 4 o bob 10 (40%) eu bod yn "cytuno i raddau" â hyn. Roedd lleiafrif y CADYau mewn SABau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn cael digon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY (4 o blith 10, neu 40%), ac roedd 4 arall o blith 10 (40%) yn "cytuno i raddau". Ymhellach, roedd lleiafrif y CADYau mewn SABau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn gallu cydbwyso gofynion eu rôl CADY â gofynion y rolau eraill yr oeddent yn eu cyflawni (e.e. addysgu, prifathrawiaeth / arweinyddiaeth) (2 o blith 10, neu 20%), ac roedd 3 arall o blith 10 (30%) yn "cytuno i raddau".[25]

Ymatebion testun agored gan SABau mewn perthynas â'u rôl fel CADY

6.22 Gofynnwyd i CADYau mewn SABau a oedd yn anghytuno eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith yn effeithiol beth oedd yn effeithio fwyaf ar eu gallu i wneud hynny. Gofynnwyd iddynt hefyd am awgrymiadau ymarferol ar ba newidiadau a fyddai'n helpu i wneud eu llwyth gwaith CADY yn fwy hylaw. Ni chafwyd digon o ymatebion i'w dadansoddi.

[25] Gofynnwyd i CADYau mewn SABau a oedd yn anghytuno ag unrhyw un o'r datganiadau uchod beth sy'n effeithio fwyaf ar eu gallu i reoli eu llwyth gwaith yn effeithiol. Ni chafwyd digon o ymatebion i'w dadansoddi.

7. Adnabod ADY

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ar adnabod ADY. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY.

Canfyddiadau allweddol: adnabod ADY

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (71%) ac ALlau (79%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau yn eu sefydliad yn helpu i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn amserol. Roedd mwyafrif (22 o blith 31, neu 71%) yr ymatebwyr mewn SABau/ISPIs hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â’r datganiad hwn. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr o BILlau (44%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod prosesau sydd ar waith yn eu sefydliad yn helpu i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn amserol mewn plant o dan oedran ysgol gorfodol.
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau (61%) ac ALlau (68%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod dysgwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod eu ADY; roedd hyn yn nodedig uwch na'r ganran gyfatebol ar gyfer yr ymatebwyr mewn BILlau (30%). Roedd mwyafrif llethol (27 o blith 31, neu 87%) yr ymatebwyr mewn SABau/ISPIs hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â’r datganiad hwn.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (84%) ac ALlau (76%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau’n ymwneud ag adnabod ADY; roedd hyn yn nodedig uwch na'r ganran gyfatebol ar gyfer y rhai mewn BILlau (48%). Roedd mwyafrif (22 o blith 31, neu 71%) yr ymatebwyr mewn SABau/ISPIs hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â’r datganiad hwn.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- heriau i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â’r prosesau sydd ynghlwm wrth adnabod ADY gan gynnwys:

- anawsterau wrth ymgysylltu â rhieni a rhai dysgwyr yn ystod cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- gallu cyfyngedig i gyfrannu at brosesau neu ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau

Canfyddiadau cysylltiedig o adroddiad gwaelodlin AAA (2019)

7.1 Cynhwyswyd cwestiynau cysylltiedig ar gyfranogiad dysgwyr mewn prosesau asesu o dan y system AAA yn yr Ymchwil i bennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae'n bwysig nodi bod geiriad y cwestiynau yn arolygon 2019 a 2024 yn wahanol. Felly dylid cadw hyn mewn cof wrth wneud unrhyw gymariaethau rhwng y canlyniadau a byddai'n amhriodol dod i gasgliadau ar sail unrhyw gymariaethau o'r fath. Bydd angen gwaith ymchwil pellach i archwilio'r gwahaniaethau posibl rhwng y systemau yn fwy manwl. Cyflwynir rhai canfyddiadau o'r arolwg gwaelodlin hwn a gynhaliwyd yn 2019 isod ochr yn ochr â chanlyniadau cysylltiedig o'r arolwg hwn o ymarferwyr a gynhaliwyd yn 2024:

- Yn yr arolwg gwaelodlin o AAA a gynhaliwyd yn 2019, roedd lleiafrif yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (25%) ac adrannau addysg ALlau (16%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod "cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu statudol".[26] Mae hyn yn cymharu â thros hanner yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (61%) ac mewn ALlau (68%) a oedd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y "Galluogir dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod a phennu eu ADY" yn yr arolwg a gynhaliwyd yn 2024 ar gyfer yr adroddiad hwn.[27]
- Yn yr arolwg gwaelodlin o AAA a gynhaliwyd yn 2019, roedd lleiafrif bach (11%) o ymatebwyr o'r BILlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod "cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu statudol" (roedd

[26] Yn arolwg 2019, roedd 43% o ysgolion yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod 'cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy'.

[27] Mae'n bwysig nodi y gallai hyn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng y system AAA flaenorol a'r system ADY. O dan y system AAA, dim ond ALlau oedd â rôl yn y broses asesu statudol (yn ymwneud â datganiadau AAA), tra bod gan ysgolion ac ALlau rôl o dan y system ADY, a allai gael effaith ar gynnwys dysgwyr yn y prosesau hyn.

27% yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno”). Mae hyn yn cymharu â 30% o ymatebwyr o BILlau a oedd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” y “Galluogir dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod a phennu eu ADY” yn arolwg 2024 ar gyfer yr adroddiad hwn (roedd 8% yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno”).

Canfyddiadau yn ôl sector: Ysgolion ac UCDau

Ffigur 14. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY



N= 340 i 342 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

7.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 14, roedd mwyafrif yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (84%) yn “cytuno” neu'n “cytuno'n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag adnabod ADY. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (71%) yn “cytuno” neu'n “cytuno'n gryf” bod y prosesau yn eu hysgol neu UCD wedi helpu i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn amserol,

gydag ymatebwyr mewn ysgolion cynradd (174 o blith 222, neu 78%) yn llawer mwy tebygol o “gytuno” neu “gytuno’n gryf” â’r datganiad hwn o gymharu â'r rhai mewn ysgolion uwchradd (46 o blith 75, neu 61%). Ymhlith yr holl ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, roedd dros eu hanner (61%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” y galluogir dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod a phennu eu ADY.

Ymatebion testun agored gan Ysgolion ac UCDau mewn perthynas ag adnabod ADY

7.3 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar adnabod ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 54 o ymatebion, roedd y materion a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Dywedodd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau fod y broses o adnabod ADY yn gweithio’n dda, er y gallai agweddau ar y broses fod yn heriol. Nododd yr ymatebwyr fod y prosesau ar gyfer adnabod ADY yn gweithio'n dda ar y cyfan. Nododd yr ymatebwyr hyn y gallai heriau godi wrth ymdrin ag asiantaethau allanol: mae ysgolion yn ei chael hi’n anodd darparu’r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer llawer o asiantaethau allanol sy’n ymwneud â chefnogi’r dysgwyr, ac yn aml mae angen llawer o dystiolaeth i gefnogi atgyfeiriadau neu asesiad cychwynnol (e.e. atgyfeiriadau at seicolegwyr addysg, cymorth ymddygiad, therapi iaith a lleferydd). Nododd rhai ymatebwyr fod partneriaid iechyd yn aml yn gyndyn o gymryd rhan yn y broses o baratoi CDUau.
- Nododd ymatebwyr o ysgolion ei bod yn aml yn anodd cael barn plant fel rhan o ddulliau gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nododd ymatebwyr o ysgolion cynradd, yn arbennig, fod dysgwyr yn aml yn rhy ifanc neu nad oes ganddynt gapasiti i ymgysylltu’n ystyrlon â'r broses o adnabod eu ADY. Gall fod gan ddysgwyr eraill ADY sylweddol sy'n cymhlethu eu gallu i gymryd rhan yn y broses.
- Cyfeiriodd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau at lefelau amrywiol o ymgysylltu â rhieni: Amlygodd rhai ymatebwyr fod y cyfarfodydd ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi arwain at well cysylltiadau â rhieni, er y gallai ymgysylltu â nhw fod yn heriol o hyd ar brydiau. Roedd meithrin

perthnasoedd â rhieni yn cymryd llawer o amser ac nid yw rhai yn awyddus i gymryd rhan yn y broses. Ystyriwyd bod rheoli disgwyliadau rhieni, yn enwedig o ran asiantaethau allanol neu natur y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn heriol.

SABau ac ISPIs[28]

Ffigur 15. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY



N= 31

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

7.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 15, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (27 o blith 31, neu 87%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y galluogir dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod a phennu eu ADY. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (22 o

[28] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

blith 31, neu 71%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy’n ymwneud ag adnabod ADY ac roedd y mwyafrif (22 o blith 31, neu 71%) hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod prosesau a oedd ar waith yn eu coleg/sefydliad yn helpu i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn amserol.

Ymatebion testun agored gan SABau ac lSPIs mewn perthynas ag adnabod ADY

7.5 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar adnabod ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 7 ymateb, roedd y materion a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr yr angen parhaus am hyfforddiant a gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus ar ADY.
- Esboniodd yr ymatebwyr fod eu sefydliadau'n fawr, a bod hynny'n creu heriau o ran sicrhau bod gan ymarferwyr ar draws y sefydliad y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, yn ogystal â heriau o ran sicrhau cysondeb.

ALlau

Ffigur 16. Ymatebion ymarferwyr mewn ALlau i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY



N= 138

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

7.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 16, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (79%) o ALlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y prosesau sydd ar waith yn eu ALl yn helpu i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn amserol. Roedd y mwyafrif hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag adnabod ADY (76%). Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ALlau (68%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y galluogir dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod a phennu eu ADY.

Ymatebion testun agored gan ALlau mewn perthynas ag adnabod ADY

7.7 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar adnabod ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 24 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd wybodaeth ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Amlygodd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau ei bod weithiau'n heriol i rieni a dysgwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn enwedig dysgwyr ifanc. Nodwyd bod angen hyblygrwydd wrth gwblhau templedi CDU er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bob dysgwr unigol.
- Nododd gweithwyr proffesiynol ALlau fod y prosesau ar gyfer adnabod ADY yn effeithlon ac yn sefydledig.
- Nododd ymatebwyr o ALlau fod heriau o ran capasiti a chyllid yn cael effaith negyddol ar lefelau ymgysylltu ymarferwyr ar draws y sectorau ac ar allu staff ALlau i fynychu gweithgareddau dysgu proffesiynol.

BILlau

Ffigur 17. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY



N= 87

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

7.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud ag adnabod ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 17, roedd tua hanner yr ymatebwyr o BILlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y prosesau yn eu BILl yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio mewn perthynas ag addysg plant ag ADY (55%) a bod y prosesau hyn yn cefnogi'r broses o adnabod DDdY sy'n addas ar gyfer dysgwyr (50%). Roedd ymatebwyr mewn BILlau yn llai tebygol o gytuno bod prosesau'n sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn amserol (44% "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf") mewn plant o dan oedran ysgol gorfodol. Pan ofynnwyd i ba raddau y galluogir dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i

adnabod a phennu eu ADY, nododd y gyfran fwyaf o ymatebwyr o BILlau (34%) eu bod “ddim yn cytuno nac yn anghytuno” â’r datganiad hwn, tra bod 30% yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf”.

Ymatebion testun agored gan BILlau mewn perthynas ag adnabod ADY

7.9 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar adnabod ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 23 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau y gallai nifer o ffactorau gael effaith andwyol ar y broses o adnabod ADY. Roedd hyn yn cynnwys:
    - 'prosesau cymhleth' a allai ymestyn yr amser a gymerir i adnabod ADY ac ymateb iddynt. Awgrymwyd y gallai hyn gael ei waethygu gan rai asiantaethau partner nad ydynt yn deall y prosesau dan sylw yn llwyr, gan ychwanegu at lwyth gwaith a chyfrannu at oedi.
    - ni roddwyd digon o rybudd gan adrannau addysg awdurdodau lleol i BILlau ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau, gan gynnwys ceisiadau Adran 65.
    - capasiti cyfyngedig gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
    - rhestrau aros i blant gael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol - roedd angen yr asesiadau hyn yn aml er mwyn i bartneriaid yn y maes iechyd allu cwblhau eu cyfraniad at y broses.
- Nododd yr ymatebwyr i’r arolwg nad oedd rhieni bob amser yn ymwybodol o’r prosesau sy’n gysylltiedig ag adnabod ADY ac felly nid oeddent bob amser yn cymryd rhan weithredol neu ddigonol ynddynt. Awgrymwyd y gallai fod yn anodd cael rhieni i gymryd rhan yn y gwaith o bennu deilliannau ar gyfer eu plant.

8. Cynllunio

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ar y prosesau cynllunio. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chynllunio. Dim ond os oeddent wedi nodi eu bod yn ymwneud â pharatoi CDUau y gofynnwyd cwestiynau am gynllunio i ymatebwyr, felly mae llai o ymatebwyr yn yr adran hon o gymharu ag adrannau eraill.

Canfyddiadau allweddol: cynllunio

Ymhlith yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs, ALlau a BILlau:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (80%), SABau ac ISPIs (20 o blith 24, neu 83%) ac ALlau (83%), o gymharu â thua hanner yr ymatebwyr o BILlau (48%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau sydd ar waith yn eu sefydliad i gefnogi’r gwaith o baratoi CDUau yn glir[29].
- Mewn perthynas â’r capasiti i gefnogi’r gwaith o baratoi CDUau, roedd tua hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (12 o blith 24, neu 50%) a llai na hanner yr ymatebwyr o ALlau (41%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod ganddynt ddigon o gapasiti. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd lleiafrif yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (22%) a lleiafrif bach mewn BILlau (9%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod ganddynt ddigon o gapasiti i gefnogi’r gwaith o baratoi CDUau, tra bod 33% o ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau a 45% mewn BILlau yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf” â hyn.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod arferion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd ynghylch ADY a CDUau.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (78%), SABau (20 o blith 24, neu 83%) ac ALlau (75%), o gymharu â thua hanner y BILlau (49%) yn “cytuno”

[29] Gofynnwyd i BILlau i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad 'Mae'r prosesau sydd ar waith yn fy Mwrdd Iechyd Lleol i gefnogi'r gwaith o baratoi CDU yn glir.'

neu’n “cytuno’n gryf” bod y rhai a oedd yn ymwneud â pharatoi CDUau wedi rhoi ystyriaeth briodol i a oes angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr.

- Yn yr un modd, roedd 42% o ymatebwyr o BILlau yn “anghytuno'n gryf” neu'n “anghytuno” eu bod yn cael digon o rybudd o flaen llaw i gyfrannu at CDUau (e.e. mynychu cyfarfodydd, paratoi tystiolaeth) ac roedd lleiafrif bach (12%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â hynny.

Roedd ymatebwyr o ALlau yn llawer mwy tebygol na’r rhai o BILlau o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” ar y canlynol:

- defnyddiwyd arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ystod cyfarfodydd am ADY a CDUau.
- wrth baratoi CDUau rhoddwyd ystyriaeth briodol gan y rhai a oedd yn ymwneud â'r broses i a oedd angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- heriau o ran cadw at amserlenni statudol, yn enwedig o ystyried y pwysau ar lwyth gwaith a chapasiti.

Nododd yr ymatebwyr o BILlau, yn arbennig, nad oeddent yn aml yn cael digon o rybudd i allu mynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan eu bod eisoes wedi ymrwymo i apwyntiadau clinigol.

Canfyddiadau fesul sector: ysgolion ac UCDau

Ffigur 18. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio



N= 308 i 310 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Noder: nid yw datganiadau sy'n ymwneud â DDdY yn y Gymraeg wedi'u cynnwys yn y siart oherwydd bod llawer o'r ymatebwyr wedi dewis yr opsiwn "Ddim yn berthnasol" ac felly nid yw cymariaethau â datganiadau eraill yn briodol.
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

8.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chynllunio. Fel y dangosir yn Ffigur 18, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (93%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd ynghylch ADY a CDUau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (80%) hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod prosesau clir ar waith yn yr ysgol/UCD i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd traean yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (33%) yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno" bod ganddynt ddigon o amser a chapasiti i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau, tra bod lleiafrif yr ymatebwyr (22%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â hyn.

8.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd i ba raddau yr oedd y rhai a oedd yn ymwneud â'r broses yn rhoi ystyriaeth briodol i a oes angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr. Dylid nodi bod cyfran gymharol fawr o ymatebwyr (21%) wedi dewis yr opsiwn “Ddim yn berthnasol” mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn fwy penodol, nododd 37% o ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg nad oedd y datganiad yn berthnasol iddyn nhw. O ystyried y potensial i’r gyfran gymharol fawr hon o ymatebion a nododd "ddim yn berthnasol" ystumio’r canfyddiadau, cafodd ymatebwyr a ddewisodd “Ddim yn berthnasol” eu hepgor o’r dadansoddiad o’r cwestiwn hwn, ond mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn Atodiad C. Ar ôl hepgor yr ymatebion “Ddim yn berthnasol”, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (78%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y rhai a oedd yn ymwneud â llunio CDUau yn rhoi ystyriaeth briodol i a oedd angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr. Roedd mwyafrif llethol y rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (49 o blith 56, neu 88%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” wrth baratoi CDUau, bod y rhai a oedd yn ymwneud â'r broses wedi rhoi ystyriaeth briodol i a oes angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr, o gymharu â mwyafrif (125 o blith 163, neu 77%) o’r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg.

Ymatebion testun agored gan Ysgolion ac UCDau mewn perthynas â pharatoi CDUau

8.3 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar baratoi CDUau, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 34 o ymatebion, roedd y materion a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y cyfyngiadau amser yr oeddent yn eu hwynebu, gan egluro bod paratoi CDUau yn aml yn digwydd y tu allan i oriau arferol; roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn ystyried bod y broses yn drafferthus ac yn hirfaith.
- Soniwyd am broblemau'n ymwneud â'r prosesau ar gyfer paratoi CDUau, gan gynnwys y canfyddiad bod yr amserlen 30 diwrnod yn rhy dynn, heriau o ran cydlynu cyfarfodydd, ac anawsterau wrth ymgysylltu â rhieni a phartneriaid allanol.
- Dywedodd yr ymatebwyr, er bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i baratoi CDUau a darparu DDdY yn y Gymraeg, bod prinder adnoddau, ac y byddai angen

cymorth ychwanegol ar gyfer y rhai nad oedd ganddynt lawer o afael ar y Gymraeg.

SABau ac ISPIs[30]

Ffigur 19. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio



N= 24

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

[30] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

8.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chynllunio. Fel y dangosir yn Ffigur 19, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (21 o blith 24, neu 88%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod arferion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd am ADY a CDUau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau sydd ar waith yn eu coleg/sefydliad i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau yn glir (20 o blith 24, neu 83%) a bod y rhai sy'n ymwneud â'r broses o baratoi CDUau rhoi ystyriaeth briodol i a oes angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr (20 o blith 24, neu 83%). Roedd yr ymatebion yn fwy cymysg pan ofynnwyd a oedd gan yr ymatebwyr ddigon o amser a chapasiti i gefnogi’r gwaith o baratoi CDUau; roedd eu hanner (12 o blith 24, neu 50%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” a'u chwarter (6 o blith 24, neu 25%) “yn cytuno i raddau”.[31]

[31] Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar baratoi CDUau, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ni chafwyd digon o ymatebion i'w dadansoddi.

ALlau

Ffigur 20. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio



N= 111

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

8.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chynllunio. Fel y dangosir yn Ffigur 20, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ALlau yn "cytuno" neu "cytuno'n gryf" bod y prosesau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau yn eu ALl yn glir, a bod arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd ynghylch ADY a CDUau (79%). Roedd mwyafrif (75%) hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i a oes angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr wrth baratoi CDUau. Fodd bynnag, yn debyg i ymatebion mewn sectorau eraill, roedd llai na hanner yr ymatebwyr o ALlau (41%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ganddynt ddigon o amser a chapasiti i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau, roedd 22% yn "cytuno i raddau" a 15% yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno".

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn ALlau mewn perthynas â pharatoi CDUau

8.6 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar baratoi CDUau, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 18 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd wybodaeth ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau heriau o ran gallu bodloni'r amserlenni statudol, ac oedi oherwydd anawsterau'n ymwneud â chael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer paratoi CDU.
- Codwyd capasiti'r ALl i gyfrannu at/paratoi CDUau fel pryder, a nodwyd bod cynnydd yn nifer y cyfeiriadau yn cael effaith negyddol ar y gallu i fynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

BILlau

Ffigur 21. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau cynllunio



N= 57 i 58 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

8.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â chynllunio. Fel y dangosir yn Ffigur 21, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o BILlau (56%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd am ADY a CDUau. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr o BILlau yn llai tebygol o gytuno bod ganddynt ddigon o amser a chapasiti i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau; roedd 45% yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno" â hyn, roedd 21% yn "cytuno i raddau" a 9%

yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf". Yn yr un modd, roedd 42% yn “anghytuno'n gryf” neu'n “anghytuno” eu bod yn cael digon o rybudd o flaen llaw i gyfrannu at CDUau (e.e. mynychu cyfarfodydd, paratoi tystiolaeth) ac roedd 12% o ymatebwyr yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â hynny.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn BILlau mewn perthynas â pharatoi CDUau

8.8 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar baratoi CDUau, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 23 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau nad oeddent yn aml yn cael digon o rybudd i allu mynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nododd yr ymatebwyr fod dyddiaduron neu glinigau gweithwyr iechyd proffesiynol yn aml yn cael eu trefnu ymhell ymlaen llaw ac erbyn i wahoddiadau i fynychu cyfarfodydd ddod i law, eu bod eisoes wedi ymrwymo i ddyletswyddau eraill.
- Cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau hefyd at yr heriau yn sgil prinder amser o fewn eu hwythnos waith i ddarparu mewnbwn a phrosesau cymorth. Nododd gweithwyr iechyd proffesiynol bryderon ynghylch diffyg capasiti o fewn eu timau i ddarparu’r cymorth sydd ei angen – nodwyd hyn gan nifer o therapyddion iaith a lleferydd.
- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau fod angen cryn dipyn o amser i baratoi ar gyfer cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u mynychu, ac nad oedd amser ychwanegol wedi'i neilltuo o fewn eu rolau i adlewyrchu hyn.

9. Darpariaeth

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Canfyddiadau allweddol: darpariaeth

Ymhlith yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs, ALlau a BILlau:

- Roedd lleiafrif yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod adnoddau digonol ar gael yn eu sefydliad i gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Roedd traean yr ymatebwyr o BILlau (32%) ac ALlau (33%) yn ogystal â 42% o ysgolion ac UCDau a 26% (8 o blith 31) o ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn “anghytuno’n gryf” neu'n “anghytuno” bod adnoddau digonol ar gael.
- Roedd tua hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (16 o blith 31, neu 52%) ac ALlau (55%), a 44% o'r ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, o gymharu â lleiafrif yr ymatebwyr o BILlau (29%) yn “cytuno” neu'n “cytuno’n gryf” bod gwasanaethau, lle bo angen, yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu cefnogaeth gydlynus ar gyfer dysgwyr ag ADY (roedd 27% arall o ymatebwyr o BILlau yn “cytuno i raddau” â hyn).
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (24 o blith 31, neu 77%) a thua hanner yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau (52%) ac ALlau (50%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am DDdY. I’r gwrthwyneb, roedd lleiafrif yr ymatebwyr o BILlau (19%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â hyn (roedd 24% “yn cytuno i raddau” a 29% “ddim yn cytuno nac yn anghytuno”).
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (76%) a SABau/ISPIs (22 o blith 31, neu 71%) a thros hanner y rhai o ALlau (68%), o gymharu â llai na hanner yr ymatebwyr o BILlau (41%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau’n ymwneud â DDdY.
- Roedd ymatebwyr o ALlau (70%) yn llawer mwy tebygol na’r rhai o ysgolion ac UCDau (49%) a BILlau (44%) o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” bod DDdY ar gael yn

Gymraeg lle bo angen, tra bod 61% (19 o blith 31) o ymatebwyr o SABau/ISPI yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” â’r datganiad hwn (cafodd y rhai a ddewisodd yr ateb “ddim yn berthnasol” eu hepgor o’r dadansoddiad hwn ar draws pob sector).

Cwestiynau testun agored

- Mewn ymateb i gwestiynau testun agored, nododd yr ymatebwyr i'r arolwg ar draws pob sector fod pwysau neu ostyngiadau yn y gyllideb yn cael effaith negyddol ar y gallu i ddarparu cymorth i ddysgwyr ag ADY. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad mewn cymorth un-i-un a mynediad mwy cyfyngedig at adnoddau arbenigol.
- Mynegodd ymatebwyr o ysgolion ac ALlau bryder bod cyllidebau ysgolion yn golygu bod llai o staff cymorth neu gynorthwywyr addysgu ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY. Tynnwyd sylw hefyd at brinder staff mewn ALlau ac mewn rhai gwasanaethau BILlau.

Nododd BILlau bryderon nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau i ddarparu’r DDdY sydd ei hangen ar ddysgwyr. Roedd yr ymatebion testun agored gan ysgolion/UCDau ac ALlau hefyd yn mynegi pryder nad oedd digon o ddarpariaeth ar gael i gefnogi DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canfyddiadau cysylltiedig o adroddiad gwaelodlin AAA (2019)

9.1 Cynhwyswyd cwestiwn tebyg ar argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr Ymchwil i bennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Yn adroddiad gwaelodlin AAA 2019, roedd tua thraean yr ymatebwyr o ysgolion (33%) ac 16% o ymatebwyr o BILlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod darpariaeth addysgol arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir am hynny. Roedd canran debyg o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (33%), a chanran uwch o ymatebwyr o BILlau (42%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod DDdY ar gael yn Gymraeg lle bo angen yn yr arolwg hwn, a gynhaliwyd yn 2024.[32]

Canfyddiadau fesul sector: ysgolion ac UCDau

Ffigur 22. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â DDdY

[32] Mae’r rhai a ddewisodd “ddim yn gwybod” yn 2019 a “ddim yn berthnasol” yn 2024 ill dau wedi’u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.



N= 337 i 342 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

9.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â darpariaeth. Fel y dangosir yn Ffigur 22, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (84%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy’n ymwneud â DDdY. Roedd canran is o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn cytuno bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am DDdY; roedd tua'u hanner (52%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â hyn. Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd (50 o blith 75, neu 67%) ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (42 o blith 59, neu 71%) yn llawer mwy tebygol na’r rhai o ysgolion cynradd (100 o blith 222, neu 45%) ac ysgolion cyfrwng Saesneg (116 o blith 244, neu 48%) o “gytuno” neu “gytuno’n gryf” â hyn.

9.3 Roedd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn llai cadarnhaol eu barn ynghylch digonolrwydd yr adnoddau i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY; roedd 42% yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” a 15% yn “anghytuno i raddau” bod adnoddau digonol (h.y. adnoddau ariannol, capasiti’r gweithlu) ar gael yn eu hysgol/UCD yn y flwyddyn academaidd gyfredol i gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY (roedd 18% yn “cytuno” neu'n “cytuno’n gryf” ac 19% yn “cytuno i raddau”).

9.4 Cafwyd ymatebion cymysg o ran argaeledd DDdY yn y Gymraeg. Ar draws yr holl ysgolion ac UCDau, nododd traean (32%) nad oedd hyn yn berthnasol iddyn nhw.[33] O ystyried y potensial i’r gyfran gymharol fawr hon o ymatebion amherthnasol ystumio’r canfyddiadau, cafodd ymatebwyr a ddewisodd “Ddim yn berthnasol" eu heithrio o’r dadansoddiad o’r cwestiwn hwn, ond cyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad C. Ar ôl i'r ymatebion “Ddim yn berthnasol” gael eu hepgor, roedd hanner yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (50%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod DDdY ar gael yn Gymraeg lle bo'r angen, dywedodd 12% eu bod “yn cytuno i raddau”, dywedodd 21% eu bod "Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” a dywedodd 17% eu bod yn “anghytuno i raddau”, yn “anghytuno” neu'n “anghytuno’n gryf”. Roedd gwahaniaethau amlwg yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol yr oedd yr ymatebwyr yn gweithio ynddi. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (43 o blith 58, neu 74%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg (57 o blith 144, 40%) o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” bod DDdY ar gael yn Gymraeg lle bo'r angen.

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas â DDdY

9.5 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar DDdY, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a roddodd sylwadau (69 o ymatebion), roedd y materion a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

[33] Roedd pob un o’r rhai a nododd nad oedd y datganiad hwn yn berthnasol iddynt yn dod o ysgolion cyfrwng Saesneg. Dewisodd 41% o ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg yr opsiwn “Ddim yn berthnasol”.

- Y pwynt mwyaf cyffredin a wnaed gan ymatebwyr, o bell ffordd, oedd pryder ynghylch cyllid cyfyngedig. Dywedwyd bod cyfyngiadau ar gyllidebau, a thoriadau i gyllidebau, yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaeth DDdY, er enghraifft atal ysgolion rhag cyflogi digon o staff, darparu cymorth 1:1, neu gael mynediad at adnoddau arbenigol angenrheidiol. Soniodd yr ymatebwyr hefyd am faterion yn ymwneud â dysgwyr nad oedd ganddynt ADY ond a oedd angen cymorth o hyd, megis y rhai ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, a oedd yn ychwanegu at y straen ar amser staff a chronfeydd ysgol.
- Thema arall yn yr ymatebion oedd yr anhawster i recriwtio a chadw staff, yn enwedig y rhai â'r sgiliau i gefnogi dysgwyr ag anghenion cymhleth neu â sgiliau Cymraeg. Yn y sylwadau, tynnwyd sylw at y ffaith bod staff dan bwysau mawr, a oedd yn effeithio ar eu gallu i ddarparu cymorth.

9.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn "anghytuno'n gryf", yn "anghytuno" neu'n "anghytuno i raddau" bod adnoddau digonol ar gael i gynllunio ar gyfer darpariaeth effeithiol a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY (57% o'r ymatebwyr) i ddarparu rhagor o wybodaeth i egluro eu hateb. Ymhlith y 193 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau ychwanegol (o blith 344 o ymatebion gan ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Tynnodd yr ymatebwyr sylw at ostyngiad mewn capasiti staffio, yn enwedig cynorthwywyr addysgu, sy'n effeithio ar y gallu i ddarparu cymorth i ddysgwyr ag ADY.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr at heriau'n ymwneud â chyllid, sydd, yn ôl yr ymatebwyr, yn arwain at doriadau i staff ac adnoddau, sy'n ei gwneud yn anos fyth i gefnogi dysgwyr ag ADY.
- Roedd nifer cynyddol o ddysgwyr ag anghenion cymhleth yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion, gan ei gwneud yn anodd darparu asesiadau amserol a chymorth priodol.

- Dywedwyd bod y gwaith papur 'sylweddol' a'r gofynion sy'n ymwneud â CDUau yn dargyfeirio amser ac adnoddau oddi wrth gyswllt uniongyrchol â dysgwyr a darparu cymorth iddynt.

SABau ac ISPIs

Ffigur 23. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â DDdY



N= 31

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

9.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â darpariaeth. Fel y dangosir yn Ffigur 23, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am DDdY (24 o

blith 31, neu 77%) a bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau'n ymwneud â DDdY (22 o blith 31, neu 71%). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn llai cadarnhaol ynghylch argaeledd adnoddau digonol yn eu coleg/sefydliad; roedd lleiafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (8 o blith 31, neu 26%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod adnoddau digonol ar gael yn y flwyddyn academaidd gyfredol i gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY; roedd 10 o blith 31 (32%) yn "cytuno i raddau" ac 8 o blith 31 (26%) yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno" â hyn.

Ymatebion testun agored gan SABau ac ISPIs mewn perthynas â DDdY

9.8 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar DDdY, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y chwe ymateb, y pwynt a grybwyllwyd amlaf oedd y ffaith nad oedd unrhyw ddysgwr angen DDdY yn y Gymraeg ar hyn o bryd ynghyd â'r pryder y byddai'n heriol i ddarparu hynny pe bai angen yn y dyfodol. Yn ogystal â hynny, nodwyd heriau o ran ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol.

9.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anghytuno bod digon o adnoddau ar gael yn y flwyddyn academaidd gyfredol i gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY i roi rhagor o wybodaeth i egluro eu hateb. Ymhlith y saith ymatebydd a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr fod yr adnoddau ariannol yn annigonol i benodi'r staff angenrheidiol.
- Nododd yr ymatebwyr amrywiaeth o enghreifftiau i gefnogi eu hateb, gan gynnwys:
    - Y ffaith bod y galwadau presennol ar amser yn fwy na'r dyraniad staff, gan arwain at lwythi gwaith trymach a salwch ymysg y staff.
    - Prinder staff a phwysau ar amserlennu yn arwain at amser annigonol ar gyfer tasgau eraill megis gofal bugeiliol, cynllunio teithiau, a threfnu mynediad i arholiadau.

- Anallu i ariannu ymyriadau angenrheidiol, fel cymorth darllen un-i-un.
- Prinder cynorthwywyr ac arbenigwyr ar draws pob campws/safle.
- Diffyg mannau tawel addas ar gyfer dysgwyr niwroamrywiol, yn ogystal â dim cyfleusterau chwaraeon awyr agored i hybu iechyd a llesiant.

ALlau

Ffigur 24. Ymatebion ymarferwyr ALl i ddatganiadau yn ymwneud â darpariaeth ddysgu ychwanegol



N= 138 i 139 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

9.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â darpariaeth. Fel y dangosir yn Ffigur 24, roedd dros hanner yr ymatebwyr o ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo’n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau’n ymwneud â DDdY (68%). Roedd canran is o ymatebwyr o ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf”

bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am DDdY (50%), ac roedd 24% yn “cytuno i raddau”. Roedd ymatebwyr o ALlau yn llai cadarnhaol ynghylch digonolrwydd adnoddau; roedd traean (33%) yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” bod adnoddau digonol (h.y. adnoddau ariannol, capasiti’r gweithlu) ar gael i gynllunio ar gyfer a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn eu ALl, tra bod 22% yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno”. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ALlau (68%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod DDdY ar gael yn Gymraeg lle bo'r angen.

Ymatebion testun agored gan ALlau mewn perthynas â DDdY

9.11 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar DDdY, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 30 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd wybodaeth ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nodwyd cyllid gan ymatebwyr ALlau fel rhwystr i sicrhau DDdY ddigonol i ddiwallu anghenion. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y mecanwaith cyllido ar gyfer ysgolion bob amser yn ddigonol. Yn ogystal, teimlwyd bod heriau cyllido yn golygu nad oedd digon o leoedd arbenigol ar gael i ateb y galw.
- Roedd ymgysylltiad gan ymarferwyr iechyd ynghylch sicrhau DDdY gan gorff y GIG yn heriol, ac roedd cyfeiriadau o dan Adran 20 yn cael eu prosesu'n araf.[34]
- Roedd pryder gan weithwyr proffesiynol mewn ALlau fod darpariaeth DDdY yn Gymraeg yn annigonol, ac nad oedd digon o gymorth / darpariaeth ar gael, neu bod argaeledd DDdY yn y Gymraeg yn anghyson.

9.12 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anghytuno bod digon o adnoddau ar gael i gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY i roi rhagor o wybodaeth i egluro eu hateb. Ymhlith y 64 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

[34] Mae Adran 20 o’r Ddeddf ADY yn galluogi ALl neu gorff llywodraethu SAB (os yw’n paratoi neu’n cynnal CDU ar gyfer y person ifanc) i ofyn i gorff y GIG a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth (a ddarperir fel arfer fel rhan o’r gwasanaeth iechyd cynhwysfawr) sy’n debygol o fod yn fuddiol o ran mynd i’r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc.

- Teimlai gweithwyr proffesiynol mewn ALlau fod cyfyngiadau o fewn ysgolion yn atal anghenion rhag cael eu diwallu. Nodwyd y rhain fel prinder staff o fewn ysgolion (oherwydd bod swyddi'n cael eu dileu, problemau o ran cadw staff a dim digon o gynorthwywyr addysgu), yn ogystal â diffyg cyllid i ddarparu DDdY ddigonol.
- Nodwyd hefyd bod cyfyngiadau o fewn ALlau yn cael effaith negyddol ar ddiwallu anghenion. Roedd y rhain yn cynnwys prinder staff (ar yr ochr weinyddol yn ogystal ag o ran paratoi CDUau) yn ogystal â chyllid annigonol gan Lywodraeth Cymru i ALlau, sy'n effeithio ar gyllidebau ysgolion.
- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau fod cyllid annigonol ar gyfer lleoliadau arbenigol yn her, gyda dysgwyr yn aros mewn ysgolion prif ffrwd oherwydd prinder lleoedd mewn lleoliadau eraill.

Carfan Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar[35]

9.13 Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr ALl a oedd yn Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (N=8) i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod adnoddau digonol yn eu ALl[36] i ddelio'n brydlon â chyfeiriadau ar gyfer carfan y Swyddog Arweiniol ADY. Roedd pedwar o bob wyth (50%) o'r Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar a ymatebodd i'r arolwg yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno" â'r datganiad hwn ac roedd dau arall yn "anghytuno i raddau" (2 o blith 8, neu 25%).

Ymatebion testun agored gan Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar mewn perthynas â digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ymdrin â chyfeiriadau ar gyfer carfan y Swyddog Arweiniol ADY

- Ar ôl y cwestiwn hwn ynghylch a oes adnoddau digonol ar gael i ddelio'n brydlon â chyfeiriadau ar gyfer carfan y Swyddog Arweiniol ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr sy'n Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i roi sylwadau pellach. O'r saith a ymatebodd i'r arolwg (o blith wyth Swyddog Arweiniol ADY y

[35] Yn y Cod ADY, cyfeirir at blant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir fel "carfan y Swyddog Arweiniol ADY".
[36] (h.y. adnoddau ariannol, capasiti'r gweithlu)

Blynyddoedd Cynnar a gwblhaodd yr arolwg) a roddodd wybodaeth ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Amlygodd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau nad oedd lefelau cyllid wedi cynyddu. Nodwyd bod hyn wedi arwain at heriau o ran darparu niferoedd digonol o staff i ddarparu DDdY.
- Mewn perthynas â sector y Blynyddoedd Cynnar, tynnodd ymatebwyr o ALlau sylw at y cynnydd yn nifer y cyfeiriadau o ddysgwyr ag ADY, ond prinder ymarferwyr hyfforddedig mewn perthynas ag ADY mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar ac anawsterau wrth recriwtio staff / trosiant uchel.
- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau fod capasiti'n her, a dywedodd yr ymatebwyr ei bod yn anodd cadw at yr amserlenni statudol. At hynny, nodwyd bod rhyddhau staff i fynychu sesiynau hyfforddi hefyd yn her, yn ogystal â'r ffaith bod llawer o gyfeiriadau i'w prosesu.

BILlau

Ffigur 25. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â DDdY



N= 83 i 85 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

9.14 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â darpariaeth. Fel y dangosir yn Ffigur 25, roedd gan ymatebwyr o BILlau farn gymysg ar y datganiadau'n ymwneud â darpariaeth. Roedd llai na'u hanner yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod DDdY ar gael yn y Gymraeg lle bo angen (42%), a bod rhieni a gofalwyr, lle y bo’n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau’n ymwneud â DDdY (41%). Yn debyg i sectorau eraill, roedd ymatebwyr o BILlau yn llai cadarnhaol ynghylch digonolrwydd adnoddau; roedd traean (32%) yr ymatebwyr yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” bod digon o adnoddau ar gael er mwyn rhoi'r holl DDdY sydd wedi'i

chytuno fel darpariaeth i'w sicrhau gan eu BILl, tra bod lleiafrif bach (14%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â hyn.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn BILlau mewn perthynas â DDdY i'w sicrhau gan y BILl

9.15 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar DDdY, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 21 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau bryderon nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau i ddarparu'r DDdY sydd ei hangen ar ddysgwyr**.** Roedd yr ymatebion yn nodi bod gwasanaethau dan bwysau, gan gyfeirio'n benodol at brinder staff mewn therapi lleferydd ac iaith a gwasanaethau ffisiotherapi pediatrig.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr i'r arolwg hefyd at yr angen am fuddsoddiad i recriwtio therapyddion iaith a lleferydd ychwanegol sy'n gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys mewn meysydd arbenigol. Er i'r ymatebwyr nodi bod rhai gweithwyr proffesiynol â sgiliau Cymraeg o fewn eu timau, disgrifiwyd hyn fel 'lwc' yn hytrach na chynllunio pwrpasol. Dywedodd yr ymatebwyr nad oedd Therapyddion Iaith a Lleferydd Cymraeg o reidrwydd yn gallu diwallu'r gofynion penodol a nodir mewn rhai CDUau.

9.16 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anghytuno bod digon o adnoddau i ddarparu'r DDdY y cytunodd eu bwrdd iechyd lleol i'w sicrhau, i ddarparu rhagor o wybodaeth i egluro eu hateb. Ymhlith y 32 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau fod timau staff dan bwysau cynyddol ac nad oedd digon o adnoddau'n cael eu darparu i wasanaethau. Dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn anghytuno â'r honiad bod y diwygiadau ADY yn 'gost-niwtral'.
- Nododd yr ymatebwyr amrywiaeth o enghreifftiau i gefnogi eu hateb, gan gynnwys:

- Nid oedd digon o amser i gwblhau'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r system ADY.
- Roedd y gwaith gweinyddol a'r ffurflenni yn gymhleth, ac roedd yr amser yr oedd ei angen i brosesu a chyflwyno'r wybodaeth yn fwy na'r amser a neilltuwyd – o ganlyniad, dywedodd yr ymarferwyr eu bod yn teimlo eu bod dan bwysau'n barhaus ac yn methu â chyrraedd terfynau amser yn rheolaidd.
- Roedd capasiti gweithwyr proffesiynol y BILl dan bwysau cynyddol oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion cymhleth.
- Galw cynyddol am wasanaethau a darpariaeth, heb unrhyw gapasiti ychwanegol i ateb y galw.

- Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at ganlyniadau'r prinder adnoddau:
  - Roedd yn fwy heriol darparu'r ymyriadau angenrheidiol.
  - Roedd staff a gwasanaethau yn lleihau eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau pan oedd CDUau yn cael eu creu oherwydd nad oeddent yn teimlo y byddent yn gallu darparu'r ddarpariaeth 'ddelfrydol'.
  - Oedi cyn i ddysgwyr ag ADY gael mynediad at wasanaethau arbenigol, oherwydd yr amseroedd aros.
  - Roedd llai o amser yn cael ei dreulio wyneb yn wyneb gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys gyda'r rhai a oedd yn agored i niwed.
  - Roedd y pwysau parhaus ar y gweithlu yn cael effaith andwyol ar forâl.

10. Prosesau adolygu

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ar brosesau adolygu. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg mewn ysgolion/UCDau, SABau/ISPIs nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu.[37] Dim ond os oeddent wedi nodi eu bod yn ymwneud ag adolygu CDUau y gofynnwyd cwestiynau am brosesau adolygu i ymatebwyr, felly mae nifer llai o ymatebwyr yn yr adran hon o gymharu ag adrannau eraill.

Canfyddiadau allweddol: prosesau adolygu

Ymhlith yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs ac ALlau:

- Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” eu bod yn deall y gofynion a nodir yn y Cod ADY ar gyfer adolygu a diwygio CDUau.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod prosesau adolygu’n cael eu cyflwyno'n effeithiol yn eu sefydliad.
- Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (21 o blith 23, neu 91%), mwyafrif y rhai o ysgolion ac UCDau (76%) a thros hanner y rhai o ALlau (69%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc/dysgwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn prosesau adolygu.
- Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau adolygu.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- heriau o ran sicrhau bod rhieni a phlant yn mynychu cyfarfodydd adolygu.

canfyddiad ymhlith ymatebwyr o ysgolion ac UCDau fod y broses adolygu CDU yn cael ei hystyried yn broses lafurus, a bod angen mewnbwn sylweddol gan amrywiol aelodau o staff.

[37] Ni ofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr mewn BILlau yn ymwneud â phrosesau adolygu.

Canfyddiadau fesul sector: ysgolion ac UCDau

Ffigur 26. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu



N= 316 i 319 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

10.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu. Fel y dangosir yn Ffigur 26 roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau adolygu (94%) a'u bod yn deall y gofynion yn y Cod ADY ar gyfer adolygu a diwygio

CDUau (88%). Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod prosesau adolygu’n cael eu cyflwyno'n effeithiol yn eu hysgol/UCD (83%), gydag ysgolion cynradd (183 o blith 205, neu 89%) yn llawer mwy tebygol na’r rhai o ysgolion uwchradd (50 o blith 71, neu 70%) o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” â hyn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion a CDUau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc/dysgwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn prosesau adolygu (76%).

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas â'r broses adolygu

10.2 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar brosesau adolygu, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 26 o ymatebwyr a roddodd sylwadau, roedd y materion a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Heriau o ran cael rhieni i fynychu cyfarfodydd adolygu, sydd wedyn yn rhwystro cydweithio effeithiol.
- Mae cyfranogiad plant mewn adolygiadau yn amrywio'n fawr, yn aml yn dibynnu ar oedran a gallu'r dysgwyr. Nododd yr ymatebwyr fod plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan lle bo modd.
- Roedd y broses adolygu ar gyfer CDUau yn cael ei hystyried yn broses drylwyr ond llafurus iawn, a bod angen cyfranogiad sylweddol gan amrywiol aelodau o staff.

SABau ac ISPIs[38]

Ffigur 27. Ymatebion ymarferwyr mewn SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu



N= 22 i 23 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

10.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu. Fel y dangosir yn Ffigur 27, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn deall y gofynion a nodir yn y Cod ADY ar gyfer adolygu a diwygio CDUau (22 o blith 23, neu 96%) a bod dysgwyr (21 o blith 23, neu 91%) a rhieni/gofalwyr

[38] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

(21 o blith 23, neu 91%) yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn prosesau adolygu.[39]

ALlau

Ffigur 28. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu



N= 100 i 101 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

10.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â phrosesau adolygu. Fel y dangosir yn Ffigur 28 roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ALlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn deall y gofynion a nodir yn y Cod ADY ar gyfer adolygu a diwygio CDUau (88%) a bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau

[39] Gofynnwyd i ymatebwyr o SABau ac ISPIs roi sylwadau ychwanegol ar y broses adolygu. Ni chafwyd digon o ymatebion i'w dadansoddi.

adolygu (88%). Roedd canran is o ymatebwyr o ALlau (69%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn prosesau adolygu.

Ymatebion testun agored gan ALlau mewn perthynas â'r broses adolygu

10.5 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar brosesau adolygu, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith yr 14 o ymatebwyr a roddodd sylwadau, roedd y materion a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd ymatebwyr o ALlau nad oedd dysgwyr ifanc bob amser yn gallu cymryd rhan lawn mewn adolygiadau a chyfarfodydd oherwydd eu hoedran/ADY. Teimlwyd bod hyn yn creu heriau i ymarferwyr o ran dod o hyd i ffyrdd ystyrlon o ymgysylltu â’r dysgwyr hyn.
- Amlygodd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau fod y prosesau adolygu yn fuddiol er mwyn eu galluogi i ymgysylltu â rhieni, er budd y dysgwyr. Dywedodd gweithwyr proffesiynol o ALlau fod teuluoedd weithiau'n cael eu cefnogi'n dda, ond bod hyn yn anghyson.

11. Prosesau pontio

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ar brosesau pontio rhwng gwahanol gyfnodau addysg (e.e. cynradd i uwchradd) a mathau o leoliadau (e.e. ysgolion prif ffrwd i golegau AB). Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud ag effeithiolrwydd prosesau pontio o ran sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Ym mhob sector, nododd llawer o'r ymatebwyr nad oedd rhai o'r prosesau pontio rhwng gwahanol fathau o leoliadau yn berthnasol iddyn nhw. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r canfyddiadau, mae'r ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

Canfyddiadau allweddol: prosesau pontio

- Roedd ymatebwyr o ALlau (68%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion ac UCDau (47%) o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod y prosesau pontio rhwng y cyfnodau meithrin a chynradd yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (62%) ac ALlau (62%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y prosesau pontio rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (45 o blith 56, neu 80%) yn llawer mwy tebygol nag ysgolion cyfrwng Saesneg o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" (145 o blith 239, neu 61%) â hyn.
- Roedd ymatebwyr o ALlau yn llawer mwy tebygol o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" â datganiadau am effeithiolrwydd prosesau pontio rhwng ysgolion prif ffrwd a mathau eraill o leoliadau (e.e. UCDau, ysgolion arbennig, lleoliadau AHY) o gymharu ag ymatebwyr o ysgolion/UCDau.[40]

[40] Roedd ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ALlau o ddewis "Ddim yn berthnasol" mewn ymateb i gwestiynau am y mathau hyn o brosesau pontio; gallai hyn awgrymu mai profiad cyfyngedig oedd gan rai ymatebwyr o ysgolion o'r broses bontio rhwng rhai mathau o leoliadau.

- Roedd tua hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (15 o blith 29, neu 52%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau pontio rhwng ysgolion uwchradd a cholegau AB yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Ymatebwyr o ALlau yn nodi bod y cymorth a ddarparwyd ganddynt i gefnogi prosesau pontio rhwng lleoliadau yn effeithiol.
- Ymatebwyr o bob sector yn cyfeirio at heriau’n ymwneud â phrosesau pontio, ac yn aml yn pwysleisio bod problemau ar wahanol gyfnodau pontio.
- Ymatebwyr o ysgolion yn nodi bod diffyg adnabod anghenion ymlaen llaw yn golygu bod dysgwyr yn cyrraedd dosbarthiadau meithrin ysgolion heb fod eu hanghenion yn hysbys nac wedi'u dogfennu.

Ymatebwyr o ALl yn nodi bod mwy o fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr hŷn wrth iddynt bontio i ysgolion uwchradd.

Canfyddiadau fesul sector: ysgolion ac UCDau

Ffigur 29. Ymatebion ymarferwyr o ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "I ba raddau yr ydych yn cytuno bod trefniadau pontio rhwng y lleoliadau addysg canlynol yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY?"



Noder: Mae ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r siart hwn ond wedi'u cynnwys yn y tablau data. N= 145 i 328 gydag ymatebion Dd/B wedi'u dileu. N = 333 i 342 gydag ymatebion Dd/B wedi'u cynnwys. (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

11.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod y trefniadau pontio rhwng gwahanol leoliadau addysg yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 29, dywedodd llawer o'r ymatebwyr nad oedd rhai mathau o brosesau pontio yn berthnasol iddyn

nhw; er enghraifft, nododd 77% o ymatebwyr o ysgolion uwchradd nad oedd y cwestiwn ar bontio rhwng lleoliadau meithrin a'r cyfnod cynradd yn berthnasol iddyn nhw. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r canfyddiadau, mae'r ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

11.2 Gyda'r ymatebion "Ddim yn berthnasol" hyn wedi'u hepgor, roedd yr ymatebwyr yn fwyaf cadarnhaol eu barn ynghylch y prosesau pontio rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd: roedd 62% yn "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno" bod y rhain yn effeithiol. Roedd yr ymatebwyr leiaf cadarnhaol eu barn ynghylch y prosesau pontio rhwng ysgolion/UCDau a lleoliadau mewn gwahanol ALlau: roedd 27% yn "cytuno i raddau" bod y rhain yn effeithiol, 25% yn "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno", 22% "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" ac 16% yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf".

11.3 Roedd rhai gwahaniaethau nodedig yn ôl y math o ysgol. Mewn perthynas â threfniadau pontio rhwng lleoliadau meithrin a'r cyfnod cynradd, roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (31 o blith 51, neu 61%) yn llawer mwy tebygol nag ysgolion cyfrwng Saesneg (84 o blith 191, neu 44%) o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod y rhain yn effeithiol.[41] O ran y prosesau pontio rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd, roedd ymatebwyr o ysgolion lle roedd canran isel (57 o blith 78, neu 73%) a chanran ganolig (73 o blith 103, neu 71%) o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llawer mwy tebygol o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod y rhain yn effeithiol o gymharu â'r rhai o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau am ddim (59 o blith 113, neu 52%). Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (45 o blith 56, neu 80%) hefyd yn llawer mwy tebygol o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" nag ysgolion cyfrwng Saesneg (145 o blith 239, neu 61%) bod y prosesau pontio rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd yn effeithiol. Ymhellach, roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (28 o blith 46, neu 61%) yn llawer mwy tebygol o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod y trefniadau pontio rhwng ysgolion prif ffrwd ac

[41] Atebodd ymatebwyr o 215 o ysgolion cynradd, 17 o ysgolion uwchradd, 13 o ysgolion pob oed, 13 o ysgolion arbennig a 4 UCD y cwestiwn hwn. Dywedodd 54 o ymatebwyr nad oedd y datganiad hwn yn berthnasol iddyn nhw.

UCDau yn effeithiol, o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg (72 o blith 169, neu 42%).

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas â'r prosesau pontio

11.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â phrosesau pontio. Ymhlith y 61 o ymatebwyr a roddodd sylwadau, roedd y materion a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Tynnodd yr ymatebwyr sylw at heriau gyda phrosesau pontio rhwng y blynyddoedd cynnar a'r cynradd, gan gynnwys:
    - Diffyg adnabyddiaeth flaenorol o anghenion, gydag enghreifftiau o ddysgwyr ag ‘anghenion cymhleth’ yn pontio rhwng lleoliadau blynyddoedd cynnar neu’n cyrraedd dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion heb fod y gwasanaethau perthnasol yn gwybod amdanynt ymlaen llaw a heb CDU.
    - Eglurodd yr ymatebwyr nad yw’r cymorth sydd ar gael mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar — a’r cyllid ar ei gyfer — yn dilyn ymlaen i’r ysgol gynradd. Mae hyn yn golygu y gallai plentyn gael cymorth un-i-un amser llawn gan gynorthwyydd addysgu mewn darpariaeth Dechrau’n Deg ond y bydd yn cael awr o DDdY yn yr ysgol gynradd.
- Mae rhannu gwybodaeth a chyfathrebu yn amrywio ar draws pob cyfnod pontio. Nododd yr ymatebwyr fod hyn yn arbennig o anodd pan oedd dysgwyr yn symud rhwng ardaloedd ALlau neu'n symud o Loegr. Roedd yr heriau’n cynnwys:
    - Peth gwybodaeth yn cael ei rhannu ar y funud olaf, gan effeithio ar gynllunio.
    - Roedd gwahanol awdurdodau lleol a lleoliadau yn defnyddio gwahanol gymwysiadau data a CDU neu lwyfannau TG. Nododd yr ymatebwyr

fod anghysondeb mewn prosesau, gwaith papur, a dulliau gweithredu rhwng awdurdodau lleol, gan achosi dryswch ac oedi.

- Roedd y cyfathrebu ynghylch prosesau pontio yn llafurus, gan ychwanegu at lwythi gwaith.

- Nododd yr ymatebwyr eu bod yn teimlo bod ansawdd y prosesau pontio, a'r profiad i ddysgwyr, yn amrywio'n sylweddol. Mae gan rai ysgolion systemau effeithiol ar waith, tra bod eraill yn ei chael hi'n anodd.
    - Roedd prosesau cyfeirio araf at ddarpariaethau arbenigol yn creu heriau ychwanegol a gallai olygu bod dysgwyr yn aros yn y brif ffrwd am gyfnodau estynedig nes i leoedd ddod ar gael.
    - Nodwyd adnoddau ac opsiynau cymorth cyfyngedig ar gyfer dysgwyr sy'n pontio i UCDau neu ohonynt, gan greu heriau ychwanegol i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

SABau ac ISPIs[42]

Ffigur 30. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i'r cwestiwn: "I ba raddau yr ydych yn cytuno bod trefniadau pontio rhwng y lleoliadau addysg canlynol yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY?"



Noder: Mae ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r cwestiwn hwn.
N= 18 i 29 (gydag ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor), N= 31 (gydag ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u cynnwys) (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

11.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod y trefniadau pontio rhwng gwahanol leoliadau addysg yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r canfyddiadau, mae'r ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r

[42] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl bach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

11.6 Fel y dangosir yn Ffigur 30, roedd dros hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (18 o blith 29, neu 62%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod trefniadau pontio rhwng ysgolion arbennig a cholegau AB yn effeithiol o ran sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (15 o blith 29, neu 52%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y trefniadau pontio rhwng ysgolion uwchradd a cholegau AB yn effeithiol o ran sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, tra bod 8 o blith 29 o ymatebwyr (28%) yn "cytuno i raddau" a 4 o blith 29 (14%) yn "anghytuno gryf" neu'n "anghytuno". Roedd yr ymatebwyr yn lleiaf tebygol o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod y prosesau pontio rhwng SABau ac UCDau neu leoliadau AHY eraill yn effeithiol (7 o blith 28, neu 25%), gyda hanner yr ymatebwyr (14 o blith 28, neu 50%) yn nodi eu bod yn "cytuno i raddau" â hyn.[43]

Ymatebion testun agored gan SABau ac ISPIs mewn perthynas â phrosesau pontio

11.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â phrosesau pontio. Ymhlith y 10 ymateb, roedd y pwyntiau a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Eglurodd ymatebwyr o SABau eu bod wedi gweld lefelau amrywiol o ymgysylltu gan ysgolion uwchradd prif ffrwd.
    - Nid oedd timau ADY colegau bob amser yn cael eu gwahodd i adolygiadau CDU terfynol dysgwyr mewn llawer o ysgolion, er gwaethaf sawl cais i gymryd rhan.
    - Mae ymweliadau a sesiynau blasu mewn sefydliadau AB yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, yn aml nid oedd ysgolion yn gallu darparu

[43] Dim ond ymatebwyr o SABau a atebodd y datganiadau ynghylch y trefniadau pontio rhwng SABau ac UCDau neu leoliadau AHY eraill a rhwng SABau ac ISPIs (dewisodd ymatebwyr o ISPIs "Ddim yn berthnasol" mewn ymateb i'r datganiadau hyn).

gweithiwr cymorth i fynychu gyda'r dysgwyr yn ystod ymweliadau pontio.

- Nid yw ysgolion bob amser yn darparu'r wybodaeth gefndir a ddefnyddir i baratoi'r CDUau (e.e. adroddiadau, asesiadau risg).
- Eglurodd yr ymatebwyr fod gwybodaeth a/neu CDUau yn cael eu derbyn yn hwyr weithiau. Nodwyd bod achosion lle nad oedd colegau'n ymwybodol o CDUau dysgwyr tan y diwrnod cofrestru, gan nad oedd y dysgwyr wedi datgelu eu ADY.

ALlau

Ffigur 31. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i'r cwestiwn: "I ba raddau yr ydych yn cytuno bod trefniadau pontio rhwng y lleoliadau addysg canlynol yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY?"



Noder: Mae ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r cwestiwn hwn.
N= 117 i 132 (gydag ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor), N= 136 i 139 (gydag ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u cynnwys) (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

11.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod y trefniadau pontio rhwng gwahanol leoliadau addysg yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r

canfyddiadau, mae'r ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi’u hepgor o’r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae’r ymatebion hyn wedi’u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

11.9 Fel y dangosir yn Ffigur 31, roedd dros hanner yr ymatebwyr o ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y trefniadau pontio rhwng lleoliadau meithrin ac ysgolion cynradd (68%) a rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd (62%) yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Roedd yr ymatebwyr leiaf tebygol o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” bod trefniadau pontio rhwng ysgolion/UCDau a lleoliadau mewn gwahanol awdurdodau lleol yn effeithiol (39%).

Ymatebion testun agored gan ALlau mewn perthynas â'r prosesau pontio

11.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod y trefniadau pontio rhwng gwahanol leoliadau addysg yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Ymhlith y 28 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Teimlai gweithwyr proffesiynol mewn ALlau fod y cymorth a ddarparwyd ganddynt yn effeithiol ac yn helpu'r trefniadau pontio rhwng lleoliadau. Nodwyd bod angen mwy o adnoddau mewn meysydd penodol, megis rheoli achosion cymhleth a phontio i leoliadau ôl-16.
- Er bod gweithwyr proffesiynol mewn ALlau wedi tynnu sylw at arfer da a threfniadau pontio effeithiol, roedd heriau ac anghysondebau hefyd. Nodwyd bod ALlau fel arfer yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer prosesau pontio, ond nad oedd hyn bob amser yn bosibl oherwydd eu llwyth gwaith.
- Nodwyd bod prosesau pontio rhwng rhai lleoliadau yn fwy didrafferth nag eraill. Dywedodd yr ymatebwyr o ALlau fod cefnogaeth dda ar gael yn aml ar gyfer prosesau pontio i ddysgwyr y blynyddoedd cynnar, ond roedd pryderon ynghylch bylchau ar gyfer dysgwyr hŷn (megis mwy o DDdY ar gael mewn lleoliadau cynradd o gymharu â lleoliadau uwchradd).

12. Cydweithio ag eraill

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ar gydweithio ag eraill, gan gynnwys gydag ymarferwyr a sefydliadau yn eu sector eu hunain yn ogystal â dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno y datblygwyd perthynas waith effeithiol mewn perthynas â chydweithio ag eraill wrth gefnogi dysgwyr ag ADY. Ym mhob sector, nododd llawer o'r ymatebwyr nad oedd y cwestiynau ar rai mathau o ymarferwyr a sefydliadau yn berthnasol iddyn nhw, sy'n awgrymu nad oeddent yn cydweithio'n agos â'r rhain. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r canfyddiadau, mae'r ymatebion hyn wedi'u hepgor o'r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

Canfyddiadau allweddol: gweithio gydag eraill

- Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs ac ALlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda dysgwyr ac ymarferwyr yn eu sefydliadau eu hunain wrth gefnogi dysgwyr ag AALl. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, a mwyafrif yr ymatebwyr mewn SABau/ISPIs ac ALlau hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda rhieni a gofalwyr.
- Roedd ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau ac ALlau yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn BILlau o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda dysgwyr, rhieni, ymarferwyr yn eu sefydliadau eu hunain a rhai rhanddeiliaid eraill wrth gefnogi dysgwyr ag ADY.
- Roedd ymatebwyr mewn ALlau yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn BILlau o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gydag Ysgolion, UCDau a lleoliadau AHY eraill wrth gefnogi dysgwyr ag ADY.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- prinder amser a diffyg capasiti i gydweithio'n llawn.

- ysgolion yn amlygu rhestrau aros hir ar gyfer rhai gwasanaethau a ddarperir gan BILlau, a allai lesteirio'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr.
- ymatebwyr o ysgolion yn awgrymu bod angen gwell hyfforddiant i ymarferwyr ynghylch sut a phryd i gynnwys partneriaid allanol.

ymatebwyr o ALlau a BILlau yn cyfeirio at drefniadau rhannu gwybodaeth annigonol – gyda systemau TG yn cael eu nodi fel rhwystr penodol.

Canfyddiadau cysylltiedig o adroddiad gwaelodlin AAA (2019)

12.1 Cynhwyswyd cwestiwn tebyg ar gydweithio ag eraill yn yr Ymchwil i bennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae canfyddiadau o arolwg gwaelodlin AAA 2019 a'r arolwg gwerthuso ADY hwn a gynhaliwyd yn 2024 wedi'u cyflwyno isod:

- Yn y ddau arolwg, roedd canran debyg o ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau ac ALlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda rhieni a gofalwyr.
    - Roedd canran yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs a oedd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda rhieni a gofalwyr yn uwch yn 2024 (80%) nag yn 2019 (55%).[44]
- Yn y ddau arolwg, ar draws pob sector, roedd canrannau gweddol debyg o ymatebwyr yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gydag ysgolion (eraill) neu UCDau.
- Yn arolwg 2024, roedd canran uwch o SABau ac ISPIs (69%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gydag adrannau addysg awdurdodau lleol o gymharu ag arolwg gwaelodlin 2019 (30%).

[44] Mae'n bwysig nodi bod y samplau o ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn y ddau arolwg yn golygu y dylid ystyried gwahaniaethau fel rhai dangosol o'r samplau hyn yn hytrach na chael eu hystyried yn rhai nodedig.

Canfyddiadau fesul sector: ysgolion ac UCDau

Ffigur 32. Ymatebion ymarferwyr mewn ysgolion/UCDau i'r datganiad: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…'



Noder: Mae ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u dileu uchod. N = 139 i 341 (gydag ymatebion "Dd/B" wedi'u dileu), N = 331 i 341 (gydag ymatebion "Dd/B" wedi'u cynnwys). (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn) ThG=Therapi Galwedigaethol ThILl=Therapi Iaith a Lleferydd YI=Ymwelydd Iechyd
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

12.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gydag amrywiaeth o sefydliadau, gwasanaethau, rhieni a dysgwyr. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r canfyddiadau, mae'r ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi'u hepgor o'r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

12.3 Fel y dangosir yn Ffigur 32, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o BILlau hefyd yn “cytuno” neu'n “cytuno'n gryf”, wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda dysgwyr (93%), rhieni a gofalwyr (93%), ac ymarferwyr o fewn eu hysgol/UCD (86%). Roedd yr ymatebwyr yn lleiaf tebygol o “gytuno” neu “gytuno'n gryf” bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda gwasanaethau pediatreg cymunedol (24%).

12.4 Roedd rhai gwahaniaethau nodedig yn ôl y math o leoliad. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn llawer mwy tebygol nag ysgolion cyfrwng Saesneg o “gytuno'n gryf” neu “gytuno” bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gydag:

- Adrannau addysg ALlau (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog 42 o blith 55, neu 76%, cyfrwng Saesneg 133 o blith 237, neu 56%).
- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALlau (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog 30 o blith 53, neu 57%, cyfrwng Saesneg 77 o blith 226, neu 34%).
- Proffesiynau perthynol i iechyd (gwasanaethau Therapi Galwedigaethol, Therapi Iaith a Lleferydd, Ffisiotherapi) (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog 35 o blith 58, neu 60%, cyfrwng Saesneg 108 o blith 244, neu 44%).
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog 19 o blith 46, neu 41%, cyfrwng Saesneg 43 o blith 196, neu 22%).
- Timau gofal sylfaenol a gwasanaethau Nyrsio (e.e. ymwelwyr iechyd, nyrsio ysgol a nyrsio plant cymunedol) (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog 33 o blith 58, neu 57%, cyfrwng Saesneg 73 o blith 229, neu 32%).
- Gwasanaethau iechyd eraill (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog 19 o blith 48, neu 40%, cyfrwng Saesneg 47 o blith 202, neu 23%).

Ymhellach, roedd ymatebwyr o ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (34 o blith 78, neu 44%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau am ddim (25 o blith 112, neu 22%) o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod perthnasau gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau mewn perthynas ag effeithiolrwydd perthnasoedd gwaith ag eraill

12.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas ag unrhyw gryfderau a/neu wendidau o ran y trefniadau presennol ar gyfer cydweithio ag eraill. Ymhlith y 79 o ymatebwyr a roddodd sylwadau, roedd y materion a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:

- Roedd mynediad at wasanaethau yn her, ac roedd rhestrau aros hir, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol a CAMHS sydd wedyn yn llesteirio darparu cymorth i ddysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth. Roedd dryswch hefyd ynghylch y meini prawf ar gyfer cyfeirio dysgwyr at amrywiol asiantaethau.
- Roedd yr ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol yn amrywiol ond yn aml yn heriol. Yn benodol,
    - Cyfeiriwyd yn aml at anawsterau o ran cael mewnbwn gan weithwyr iechyd proffesiynol i lywio'r CDU ac anawsterau o ran sicrhau presenoldeb gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
    - Nododd yr ymatebwyr y gallai cyfathrebu rhwng iechyd ac addysg fod yn 'wael' ar adegau, gan arwain at oedi a chamddealltwriaeth.
    - Cyfeiriodd yr ymatebwyr at heriau'n ymwneud â chapasiti partneriaid iechyd i ddarparu asesiadau a chymorth amserol.
- Dywedodd yr ymatebwyr fod angen gwell hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i ysgolion ynghylch sut a phryd i gynnwys asiantaethau allanol, a bod angen

mwy o hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol ar yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion.

12.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gyda rhai partneriaid i ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhwystrau i gydweithio. Ymhlith y 166 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf yn debyg i'r pwyntiau a wnaed ym mharagraff 12.6, sef ei bod yn anodd ceisio cael cymorth neu wybodaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer CDUau. Y pwyntiau eraill a godwyd oedd:

- Amser cyfyngedig ar gyfer cyfarfodydd gyda chydweithwyr ac asiantaethau allanol. Yn gysylltiedig â hyn, dywedwyd ei bod yn anodd trefnu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau pontio.
- Nododd yr ymatebwyr fod cyfathrebu gwael gan wasanaethau cymdeithasol a thimau iechyd yn arwain at rwystredigaeth ac oedi o ran darparu cymorth. Roedd canfyddiad bod y gwasanaethau wedi'u gorlethu gan nifer yr achosion a oedd yn golygu bod llai o amser i ysgolion adnabod anghenion a threfnu darpariaeth.
- Roedd heriau penodol yn ymwneud â phrosesau phontio. Gallai symud rhwng darpariaethau prif ffrwd a darpariaethau arbenigol adael amser annigonol ar gyfer cynllunio a chydweithio priodol. Yn y cyfamser, yn y blynyddoedd cynnar, adroddwyd nad oedd prosesau pontio bob amser yn effeithiol, gan ei gwneud yn anodd darparu cymorth a oedd yn bodloni disgwyliadau rhieni.

SABau ac ISPIs

Ffigur 33. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i ddatganiadau'n ymwneud â chydweithio ag eraill: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…'



Noder: Mae ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u dileu uchod. N= 24 i 31 (gydag ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u dileu), N= 30 i 31 (gydag ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u cynnwys) (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
ThG=Therapi Galwedigaethol. ThILl=Therapi Iaith a Lleferydd YI=Ymwelydd Iechyd
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

12.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gydag amrywiaeth o sefydliadau, gwasanaethau, rhieni a dysgwyr. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r canfyddiadau, mae'r ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

12.8 Fel y dangosir yn Ffigur 33, roedd yr holl ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf", wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, fod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda dysgwyr (30 o blith 30, sef 100%) ac roedd y mwyafrif llethol yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â hyn mewn perthynas ag ymarferwyr yn eu coleg/sefydliad (27 o blith 31, neu 87%). Roedd ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn lleiaf tebygol o "gytuno" neu "gytuno'n gryf" gyda'r datganiad, wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, fod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda thimau gofal sylfaenol a gwasanaethau nyrsio (e.e. ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a nyrsio plant cymunedol); roedd chwarter (26%, 7 o blith 27 o ymatebwyr) "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" tra bod 5 o blith 27 (19%) yn "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno" a 5 o blith 27 (19%) yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno".[45]

Ymatebion testun agored gan SABau ac ISPIs mewn perthynas ag effeithiolrwydd perthnasoedd gwaith ag eraill

12.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas ag unrhyw gryfderau a/neu wendidau o ran y trefniadau presennol ar gyfer cydweithio ag eraill. Ymhlith y saith ymateb, y mater a grybwyllwyd amlaf oedd yr angen am welliant sylweddol yn y berthynas waith â gwasanaethau iechyd.

12.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gyda rhai partneriaid i ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhwystrau i gydweithio. Ymhlith yr 11 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

[45] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

- Roedd enghreifftiau o gydweithio effeithiol wedi'u sefydlu ag ysgolion uwchradd sy'n bwydo SABau ac awdurdodau lleol, ond mae rhwystrau'n parhau oherwydd systemau rhannu gwybodaeth aneffeithiol a'r heriau o feithrin perthnasoedd ag ystod amrywiol ac eang o bartneriaid.
- Heriau o ran capasiti staff a oedd yn ei gwneud yn anodd datblygu perthnasoedd gwaith cryf.

ALlau

Ffigur 34. Ymatebion ymarferwyr ALl i ddatganiadau'n ymwneud â chydweithio ag eraill: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…'



Noder: Mae ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi'u hepgor o'r cwestiwn hwn.
N= 112 i 138 (gydag ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi'u hepgor), N= 136 i 139 (gydag ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi'i gynnwys) (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
ThG=Therapi Galwedigaethol. ThILl=Therapi Iaith a Lleferydd YI=Ymwelydd Iechyd
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

12.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gydag amrywiaeth o sefydliadau, gwasanaethau, rhieni a dysgwyr. Er mwyn cynorthwyo â dehongli'r canfyddiadau, mae'r ymatebion "Ddim yn berthnasol" wedi'u hepgor o'r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

12.12 Fel y dangosir yn Ffigur 34, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ALlau hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf", wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gydag ymarferwyr o fewn eu ALl (88%) a gyda dysgwyr (85%). Roedd yr ymatebwyr yn lleiaf tebygol o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) (28%); roedd 33% arall yn "cytuno i raddau".

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn ALlau mewn perthynas ag effeithiolrwydd perthnasoedd gwaith ag eraill

12.13 O ran cydweithio ag eraill, gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi unrhyw sylwadau pellach am unrhyw gryfderau a/neu wendidau o ran y trefniadau presennol ar gyfer cydweithio ag eraill. O blith y 35 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr o ALlau anawsterau o ran ymgysylltu ag ymarferwyr iechyd fel gwendid. Roedd yr heriau a nodwyd yn cynnwys capasiti ymarferwyr iechyd i fynychu cyfarfodydd, mewnbwn i CDUau, ac ymatebion araf i geisiadau am wybodaeth. Amlygwyd bod pwysau ar wasanaethau iechyd, gyda rhestrau aros hir ar gyfer CAMHS a'r timau niwroamrywiaeth yn arbennig, a bod prinder cyllid yn golygu bod ysgolion weithiau'n cael eu gadael i geisio ymdopi ag anghenion heb fewnbwn gan wasanaethau iechyd.
- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau fod cydweithio rhwng sectorau yn gryfder, a bod trefniadau cydweithio a chyfathrebu effeithiol ar waith. Nodwyd hefyd, er gwaethaf heriau'n ymwneud ag ymgysylltu â rhai

ymarferwyr iechyd, bod cysylltiadau da gyda rhai timau penodol (fel Ymwelwyr Iechyd).

- Nododd yr ymatebwyr bod y trefniadau cydweithio da rhwng gwahanol dimau o fewn yr ALl hefyd yn gryfder.

12.14 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gyda rhai partneriaid, i ymhelaethu ar hynny. O blith y 44 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Roedd ymatebwyr o ALlau yn ystyried bod ymgysylltu ag ymarferwyr iechyd yn her. Nodwyd bod ymgysylltu â gwasanaethau iechyd yn anodd, ac felly hefyd gael mynediad at wasanaethau iechyd. Nodwyd ymhellach y teimlwyd bod capasiti cyfyngedig a chyllid yn y gwasanaethau iechyd yn ffactorau a oedd yn cyfrannu at hynny.
- Dywedodd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau fod yr amserlenni statudol yn rhy dynn, gan arwain at heriau o ran cwblhau prosesau ADY. Nodwyd nad oedd digon o amser bob tro i gasglu gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn nac wrth baratoi CDUau, ac nad oedd rhai sectorau yn rhannu gwybodaeth mewn modd amserol.

Carfan Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar[46]

12.15 Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr a oedd yn Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (N=8) i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr ALl a sefydliadau eraill mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY. Roedd Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn fwyaf tebygol o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” bod trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr ALl a CADYau mewn ysgolion a gynhelir y gallai plant yng ngharfan y Swyddog Arweiniol ADY fynd ymlaen i’w mynychu (88). At hynny, roedd chwech o blith yr wyth Swyddog

[46] Yn y Cod ADY, cyfeirir at blant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir fel “carfan y Swyddog Arweiniol ADY”.

Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (75%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr ALl a darparwyr addysg blynyddoedd cynnar nas cynhelir (a elwir hefyd yn addysg feithrin) yn ogystal â staff perthnasol mewn ysgolion arbennig y gallai plant yng ngharfan Swyddogion Arweiniol ADY awdurdod fynd ymlaen i’w mynychu.

12.16 Roedd dros hanner yr ymatebwyr a oedd yn Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (5 o blith 8, neu 63%) hefyd yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr ALl a darparwyr gofal plant (roedd dau gyfranogwr arall yn “cytuno i raddau”). Roedd cyfran y Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar a oedd yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr ALl a chyrff ac ymarferwyr iechyd (gan gynnwys ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, a SACDAau) yn llai; roedd tri o bob wyth (38%) o ymatebwyr yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” â’r datganiad hwn, tra bod tri ymatebydd arall yn “cytuno i raddau”. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr sy'n Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (3 o blith 8, 38%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr ALl a sefydliadau'r trydydd sector, ond dylid nodi bod dau ymatebydd arall wedi dewis "ddim yn berthnasol" mewn ymateb i’r datganiad hwn.

Ymatebion testun agored gan ymatebwyr sy'n Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng yr ALl a sefydliadau eraill (mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY)

- Roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr sy'n Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i roi sylwadau pellach ynghylch pa mor effeithiol oedd y trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng yr ALl a sefydliadau eraill. O blith y tri Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar a roddodd sylwadau ychwanegol, nodwyd nad oedd gan rai lleoliadau fynediad at systemau rheoli gwybodaeth a oedd yn ei gwneud yn anodd rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Yn ogystal â hynny, nododd yr ymatebwyr hyn fod prinder cyllid a staff â chymwysterau addas mewn rhai lleoliadau yn golygu nad oedd anghenion yn cael eu diwallu bob amser.

12.18 Gofynnwyd hefyd i Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i ba raddau, mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY, y mae trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng rhaglenni a gwasanaethau'r ALlau (e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, gwasanaethau cymdeithasol). Roedd chwech o blith yr wyth Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (75%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng rhaglenni a gwasanaethau’r ALl.

Ymatebion testun agored gan ymatebwyr sy'n Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng rhaglenni a gwasanaethau'r awdurdod lleol

12.19 O blith y pum ymatebydd a roddodd sylwadau ychwanegol, nodwyd bod y trefniadau cydweithio o fewn ALlau yn gweithio'n dda, a bod timau ALlau gwahanol yn cael eu hintegreiddio gan arwain at lefelau da o rannu gwybodaeth a chydweithio. Er bod yr ymatebwyr hyn wedi tynnu sylw at rai heriau'n ymwneud â threfniadau gweithio mewnol, roeddent hefyd yn nodi bod ymarferwyr mewn ALlau yn cydweithio'n effeithiol ar y cyfan.

BILlau

Ffigur 35. Ymatebion ymarferwyr mewn BILlau i ddatganiadau'n ymwneud â chydweithio ag eraill: 'Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, datblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda…'



Noder: Mae ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi'u hepgor o'r cwestiwn hwn.
N= 62 i 85 (gydag ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi'u ddileu), N= 84 i 86 (gydag ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi'u cynnwys) (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn). Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

12.20 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gydag amrywiaeth o sefydliadau, gwasanaethau, rhieni a dysgwyr. Er mwyn cynorthwyo â dehongli’r canfyddiadau,

mae'r ymatebion “Ddim yn berthnasol” wedi’u hepgor o’r dadansoddiad yn yr adran hon, ond mae’r ymatebion hyn wedi’u cynnwys yn y tablau data (Atodiad C).

12.21 Fel y dangosir yn Ffigur 35 roedd dros hanner yr ymatebwyr o BILlau hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf”, wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi’u datblygu gydag ymarferwyr yn eu BILl (62%), rhieni a gofalwyr (61%), a dysgwyr (58%). Roedd yr ymatebwyr leiaf tebygol o gytuno bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gydag ISPIs; nododd 41% eu bod “ddim yn cytuno nac yn anghytuno” ac roedd 22% yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” â hyn.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn BILlau mewn perthynas ag effeithiolrwydd perthnasoedd gwaith ag eraill

12.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau ar effeithiolrwydd perthnasoedd gwaith ag eraill. Ymhlith yr 19 o ymatebwyr a roddodd sylwadau, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau at y berthynas waith dda gyda nifer o bartneriaid, yn enwedig adrannau addysg ALlau. Hwyluswyd neu cydlynwyd rhywfaint o'r gweithgaredd hwn gan y SACDA.
- Soniodd yr ymatebwyr am y cynnydd a wnaed o ran ymgysylltu â sector y blynyddoedd cynnar – gyda chefnogaeth Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar.
- Fe wnaeth gweithwyr proffesiynol mewn BILlau sylwadau ar berthnasoedd amrywiol gydag ysgolion a sefydliadau addysg bellach.
- Awgrymodd yr ymatebwyr y gellid gwneud mwy i hyrwyddo gwaith amlasiantaeth a chyswllt ar lefel uwch ar draws sectorau.

12.23 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anghytuno bod perthynas waith effeithiol wedi'i datblygu gyda rhai partneriaid i ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhwystrau i gydweithio. Ymhlith y 29 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Amser a chapasiti cyfyngedig oedd y prif rwystrau i gydweithio a nodwyd gan weithwyr proffesiynol mewn BILlau.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at ddiffyg dealltwriaeth o rolau pobl eraill / ddim yn gwybod at bwy i droi am wybodaeth fel rhwystr.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y ffaith nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei rhannu – gyda systemau TG yn cael eu nodi fel rhwystr penodol – a allai olygu nad yw partneriaid yn ymgysylltu ar yr amser cywir.

13. Y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â barn yr ymatebwyr ynghylch y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY a gofynnwyd iddynt hefyd pa mor hyderus oeddent y byddai rhai o'r deilliannau hyn yn cael eu cyflawni.

Canfyddiadau allweddol: y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o ALlau (50 i 67%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion ac UCDau (37 i 50%) a BILlau (30 i 54%) o "gytuno" neu "gytuno'n gryf" y byddai'r system ADY yn arwain at well deilliannau'n ymwneud ag: adnabod ADY; ymyrraeth gynharach; gwell prosesau cynllunio; darpariaeth o ansawdd uwch; gwell cydweithio amlasiantaeth; datrys anghydfodau'n well; gwell deilliannau i ddysgwyr; a gwell profiadau i deuluoedd. Roedd rhwng 55% (16 o blith 29) a 73% (22 o blith 30) o ymatebwyr o SABau/ISPIs yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y byddai'r system ADY yn arwain at bob un o'r deilliannau uchod.
- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr mewn ALlau (rhwng 46 a 56%) yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion ac UCDau (rhwng 27 a 33%) a BILlau (rhwng 19 a 29%) o nodi eu bod yn "hollol hyderus" neu'n "eithaf hyderus" y byddai'r diwygiadau i'r system ADY yn cyfrannu at neu'n cefnogi:
    - system addysg sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.
    - system addysg sy'n deg i bob dysgwr.
    - creu system addysg sy'n gynhwysol i bob dysgwr.
    - gwell dyheadau ar gyfer pob dysgwr.
    - cynnydd a chyrhaeddiad gwell i bob dysgwr.

  Nododd rhwng 43% (13 o blith 30) a 53% (16 o blith 30) o ymatebwyr o SABau ac ISPIs eu bod yn "hollol hyderus" neu'n "eithaf hyderus" y byddai'r diwygiadau i'r system ADY yn cyfrannu at neu'n cefnogi pob un o'r deilliannau uchod.

Cwestiynau testun agored

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- ymrwymiad ymhlith ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol i nodau a dyheadau'r diwygiadau, sef gwell deilliannau i ddysgwyr yn ogystal â chefnogaeth i ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn arbennig.
- anawsterau sy'n gysylltiedig â'r pwysau ar gyllidebau a staffio a wynebir gan ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff iechyd.
- canfyddiad bod y system yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd.
- anghysondebau wrth ddehongli a chymhwyso agweddau ar y Cod, yn enwedig diffiniadau o ADY a DDdY.
- canfyddiad y gallai'r deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY ddibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys pa mor rhagweithiol oedd ysgolion ac asiantaethau allanol wrth sicrhau mynediad at gymorth i ddysgwyr; pa mor gynnar y caiff anghenion plentyn eu hadnabod; ac effeithiolrwydd y cydweithio rhwng ysgolion, ALlau a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Canfyddiadau fesul sector: ysgolion ac UCDau

Ffigur 36. Ymatebion ymarferwyr o ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:"



N= 339 i 343 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

13.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 36, roedd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn fwyaf tebygol o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" y byddai'r system ADY yn arwain at well profiadau i deuluoedd (50%) ac yn arwain at well prosesau adnabod, lle caiff anghenion eu

hadnabod cyn gynted â phosibl (46%). Roedd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau yn lleiaf tebygol o “gytuno'n gryf” neu “gytuno” y byddai'r system ADY yn arwain at ddarpariaeth o ansawdd uwch (37%). Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn llawer mwy tebygol nag ysgolion cyfrwng Saesneg o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” y bydd y system ADY yn arwain at bob un o'r deilliannau ar restrwyd, heblaw un.[47]

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau yn ymwneud â’r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

13.2 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith yr 87 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr newidiadau i’r system megis gwell perthnasoedd â gweithwyr iechyd proffesiynol yn arwain at fwy o gymorth i ddysgwyr, a mwy o atebolrwydd (cyfreithiol) yn arwain at well goruchwyliaeth a chydymffurfiaeth yn y broses ADY.
- Amlygodd yr ymatebwyr hefyd rwystrau i gyflawni’r deilliannau a ragwelir, gan gynnwys:
    - Yr amser ychwanegol sydd ei angen i adnabod ADY a pharatoi CDUau, yr oedd yr ymatebwyr yn credu eu bod yn arwain at fwy o fiwrocratiaeth ac oedi.
    - Dim digon o arian ac adnoddau i gefnogi dysgwyr.
    - Prinder cynorthwywyr addysgu a staff, ac felly roedd llai o gymorth i ddysgwyr.

[47] Yr unig eithriad oedd y datganiad y byddai'r system ADY yn arwain at well prosesau adnabod, lle caiff anghenion eu hadnabod cyn gynted â phosib; roedd canran uwch o ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” â hyn o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg ond nid oedd y gwahaniaeth o ran pwynt canran yn nodedig.

    - Dealltwriaeth gyfyngedig o ADY ymhlith cydweithwyr ysgol yn llesteirio gweithredu'r fframwaith ADY yn effeithiol.

- Rhestrodd yr ymatebwyr ddeilliannau negyddol yr oeddent yn eu rhagweld, gan gynnwys:
    - Risg y gallai teuluoedd deimlo eu bod wedi cael cam oherwydd bod ceisiadau am leoliadau arbenigol wedi cael eu gwrthod, gan olygu bod llawer o blant yn cael eu gadael i ymdopi mewn darpariaeth prif ffrwd heb y cymorth angenrheidiol.
    - Diffyg ymyrraeth gynnar effeithiol oherwydd diffyg darpariaeth arbenigol ac amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau.
- Nododd yr ymatebwyr hefyd bryderon ynghylch tegwch, er enghraifft anghysondebau o ran y ffordd yr oedd y Tribiwnlys Addysg yn ymdrin ag achosion a phryder nad yw'r system yn diwallu anghenion pob dysgwr yn ddigonol, yn enwedig y rhai ag anghenion sylweddol neu'r rhai nad ydynt yn 'gymwys' i gael CDU.

Ffigur 37. Ymatebion ymarferwyr o ysgolion ac UCDau i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?"



N= 340 i 342 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

13.3 Roedd barn gymysg ymhlith yr ymatebwyr o ran yr hyder y bydd deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni. Fel y nodir yn Ffigur 37, roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o nodi eu bod yn "hollol hyderus" neu'n "eithaf hyderus" y byddai'r diwygiadau i'r system ADY yn cefnogi gwell dyheadau ar gyfer pob dysgwr (35%), er i chwarter yr ymatebwyr (25%) nodi eu bod "ddim yn hyderus iawn" neu "ddim yn hyderus o gwbl" ynglŷn â hyn. Nododd dros draean yr

ymatebwyr (35%) eu bod “ddim yn hyderus iawn” neu “ddim yn hyderus o gwbl” y byddai’r diwygiadau yn cyfrannu at system addysg sy’n diwallu anghenion pob dysgwr tra bod 28% yn “hollol hyderus” neu’n “eithaf hyderus” ynglŷn â hyn.

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau yn ymwneud â hyder y bydd y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni

13.4 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ynghylch hyder y bydd deilliannau disgwyliedig y system ADY yn cael eu cyflawni, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 95 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Mae ysgolion yn wynebu cyfyngiadau cyllido sylweddol yn ôl yr ymatebwyr. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i ddarparu DDdY arbenigol i ddysgwyr ag anghenion cymhleth a darpariaeth gyffredinol mewn lleoliadau prif ffrwd. Mae llwythi gwaith CADYau wedi cynyddu, ac roedd ysgolion yn cael trafferth i ymdopi â'r system AAA yn ogystal â'r system ADY, gyda chyllidebau llai ac amser digyswllt cyfyngedig i staff.
- Mae rhestrau aros hir oherwydd prinder lleoliadau arbenigol a phrinder ymyriadau gan wasanaethau iechyd, megis cymorth iaith a lleferydd ac iechyd meddwl, yn cyfyngu ar lwyddiant y system ADY.
- Dywedodd yr ymatebwyr fod y ffordd yr oedd awdurdodau lleol a'r panel ADY yn cymhwyso'r system ADY yn anghyson.
- Teimlai’r ymatebwyr fod llawer o ddysgwyr a chanddynt anghenion a oedd ychydig o dan y meini prawf ADY yn cael cam ac nad oeddent yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt oherwydd capasiti ac adnoddau cyfyngedig mewn ysgolion.

SABau ac ISPIs[48]

Ffigur 38. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:"



N= 29 i 30 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

[48] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, ni chaiff canlyniadau SABau ac ISPIs eu disgrifio'n 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill a chaiff y canlyniadau ar gyfer y sector hwn eu cyflwyno gan ddefnyddio niferoedd yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau i ddangos maint y sampl.

13.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 38, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” y bydd y system ADY yn arwain at well prosesau adnabod, lle caiff anghenion eu hadnabod cyn gynted â phosibl (22 o blith 30, neu 73%) a gwell deilliannau i ddysgwyr (21 o blith 30, neu 70%). Roedd yr ymatebwyr leiaf tebygol o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” y byddai’r system ADY yn arwain at well cydweithio amlasiantaeth (16 o blith 29, neu 55%) a datrys anghydfodau'n well (16 o blith 30, neu 53%).

Ymatebion testun agored gan SABau ac ISPIs yn ymwneud â’r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

13.6 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y pum ymatebydd i’r arolwg a roddodd sylwadau, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Roedd mwy o gydweithio a gwell cydweithio'n digwydd, ond roedd yr ymatebwyr o'r farn nad oedd rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion a SABau bob amser yn digwydd mewn modd amserol.
- Nid oedd digon o wybodaeth yn y CDUau, gan olygu bod angen mwy o amser i fynd ar drywydd gwybodaeth.

Ffigur 39. Ymatebion ymarferwyr o SABau ac ISPIs i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?"



N= 30

Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

13.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd pa mor hyderus oeddent y byddai cyfres o ddeilliannau'n ymwneud â'r system ADY yn cael eu cyflawni. Fel y dangosir yn Ffigur 39, roedd ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn fwyaf tebygol o "gytuno" neu "gytuno'n gryf" y byddai'r diwygiadau i'r system ADY yn cefnogi gwell dyheadau ar gyfer pob dysgwr (16 o blith 30, neu 53%). Roedd yr ymatebwyr yn lleiaf tebygol o

"gytuno" neu "gytuno'n gryf" y byddai'r diwygiadau yn cyfrannu at greu system addysg sy'n gynhwysol i bob dysgwr (13 o blith 30, neu 43%).[49]

ALlau

Ffigur 40. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:"



N= 133 i 138 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

[49] Gofynnwyd i ymatebwyr o SABau ac ISPIs roi sylwadau ar eu hyder y byddai deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni. Ni chafwyd digon o ymatebion i'w dadansoddi.

13.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 40, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ALlau (71%) yn fwyaf tebygol o “gytuno” neu “gytuno’n gryf” y bydd y system ADY yn arwain at well prosesau adnabod, lle y caiff anghenion eu hadnabod cyn gynted â phosibl. Roedd yr ymatebwyr yn lleiaf tebygol o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” y byddai’r system ADY yn arwain at ddatrys anghydfodau’n well a darpariaeth o ansawdd uwch (50%).

Ymatebion testun agored gan ALlau yn ymwneud â’r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

13.9 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 31 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Roedd ymrwymiad i ethos y diwygiadau gan weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol, gyda’r gobaith y bydd y diwygiadau yn arwain at newid a deilliannau gwell i ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd fod rhoi'r newidiadau ar waith yn llwyddiannus yn heriol. Teimlwyd bod deilliannau llwyddiannus yn dibynnu ar gynnydd mewn capasiti staff a chyllid.
- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn ALl bryderon bod y system ADY yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd, a bod diffyg dealltwriaeth gyffredin mewn meysydd allweddol megis diffiniadau o ADY/DDdY a chytundeb ynghylch yr hyn y dylai 'Darpariaeth Gyffredinol' ei gwmpasu a'i ddarparu.
- Gwelwyd bod ymatebwyr o ALlau yn teimlo bod y system ADY yn welliant ar y system AAA flaenorol. Nodwyd newidiadau o ran ymarfer gwell yn y blynyddoedd cynnar, a nodwyd hefyd bod CDUau yn welliant ar Ddatganiadau. Croesawyd y ffocws ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd, ynghyd â mwy o amddiffyniadau cyfreithiol i ddysgwyr.

Ffigur 41. Ymatebion ymarferwyr o ALlau i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?"



N= 136 i 138 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

13.10 Roedd barn gymysg ymhlith yr ymatebwyr o ran yr hyder y bydd deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni. Fel y dangosir yn Ffigur 41, roedd ymatebwyr o ALlau yn fwyaf tebygol o nodi eu bod yn "hollol hyderus" neu'n "eithaf hyderus" y byddai'r diwygiadau i'r system ADY yn cefnogi gwell dyheadau ar gyfer pob dysgwr (56%) ac yn cyfrannu at system addysg sy'n deg i bob dysgwr (50%).

13.11 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ynghylch hyder y bydd deilliannau disgwyliedig y system ADY yn cael eu cyflawni, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Ymhlith y 30 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd yr ymatebwyr o ALlau fod heriau cyllido yn effeithio ar eu hyder ynghylch a fyddai'r deilliannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni. Er ei fod yn cael ei groesawu, teimlwyd bod adnabod anghenion yn gynharach yn arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr ag ADY, gan roi pwysau ychwanegol ar y system. Nododd yr ymatebwyr fod cyfyngiadau cyllidebol yn effeithio ar yr hyn y gellid ei gyflawni, ac y byddai anghenion yn cael eu diwallu'n well pe bai mwy o gyllid ar gael.
- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau ddiffyg hyder ynghylch a fyddai'r system ADY ddiwygiedig yn diwallu anghenion pob dysgwr. Teimlwyd bod gwahaniaethau yn y ffordd yr oedd y system yn cael ei rhoi ar waith mewn gwahanol ranbarthau a rhwng ysgolion a lleoliadau yn arwain at amrywiadau mewn deilliannau i ddysgwyr.
- Teimlai ymatebwyr o ALlau fod angen gwell dealltwriaeth a gwybodaeth am addysg gynhwysol a'r model cymdeithasol o anabledd er mwyn sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr. At hynny, teimlwyd y byddai gwell cyfatebiaeth rhwng y diwygiadau ADY a'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn helpu i wireddu'r deilliannau a ragwelir ar gyfer dysgwyr.

BILlau

Ffigur 42. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i'r cwestiwn: "Gan feddwl am y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Bydd y system ADY yn arwain at:"



N= 83 i 84 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

13.12 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â'r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY. Fel y dangosir yn Ffigur 42, roedd ymatebwyr o BILlau yn fwyaf tebygol o "gytuno" neu "gytuno'n gryf" y bydd y system ADY yn arwain at well prosesau adnabod, lle y caiff

anghenion eu hadnabod cyn gynted â phosibl (54%). Roedd yr ymatebwyr yn lleiaf tebygol o “gytuno’n gryf” neu “gytuno” y byddai’r system ADY yn arwain at ddatrys anghydfodau’n well (35%) a darpariaeth o ansawdd uwch (30%).

Ymatebion testun agored gan BILlau yn ymwneud â’r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

13.13 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY. Ymhlith y 26 o ymatebwyr a roddodd sylwadau, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Ailbwysleisiodd gweithwyr proffesiynol o BILlau bryderon, er gwaethaf cefnogaeth i amcan y diwygiadau, y byddai cyllid annigonol ar gyfer ADY a lefelau staffio ar draws gwasanaethau yn ei gwneud yn anodd cyflawni’r deilliannau a fwriedir ar gyfer plant. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at effaith pwysau cyllido ar gapasiti, gan nodi gostyngiadau yn nifer y cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion, prinder seicolegwyr addysg a therapyddion eraill.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr i’r arolwg at ffactorau eraill a allai achosi anawsterau o ran cyflawni’r deilliannau a ragwelir yn sgil y diwygiadau:
    - Anghysondeb wrth ddehongli a chymhwyso'r Ddeddf a'r Cod.
    - Hyd yma, ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran adnabod ADY yn gynharach (yn rhannol oherwydd diffyg darpariaeth therapi).
    - Dealltwriaeth wael o’r system ADY – ymhlith rhieni a rhai ymarferwyr.

Ffigur 43. Ymatebion ymarferwyr o BILlau i'r cwestiwn: "Pa mor hyderus ydych chi y bydd y datganiadau canlynol sydd yn ymwneud â deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni?"



N= 83 i 84 (Ni ddewisodd pob ymatebydd ateb pob cwestiwn)
Ffynhonnell: Arolwg o Ymarferwyr a gynhaliwyd gan Arad

13.14 Roedd barn gymysg ymhlith ymatebwyr o BILlau ynghylch yr hyder y bydd deilliannau disgwyliedig y system ADY ddiwygiedig yn cael eu cyflawni. Fel y dangosir yn

13.15 Ymatebion testun agored gan BILlau yn ymwneud â'r deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

13.16 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY, roedd yr holiadur yn gwahodd yr ymatebwyr i roi sylwadau pellach. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach ar y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY. Ymhlith y 26 o ymatebwyr a roddodd sylwadau, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Ailbwysleisiodd gweithwyr proffesiynol o BILlau bryderon, er gwaethaf cefnogaeth i amcan y diwygiadau, y byddai cyllid annigonol ar gyfer ADY a lefelau staffio ar draws gwasanaethau yn ei gwneud yn anodd cyflawni'r deilliannau a fwriedir ar gyfer plant. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at effaith pwysau cyllido ar gapasiti, gan nodi gostyngiadau yn nifer y cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion, prinder seicolegwyr addysg a therapyddion eraill.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr i'r arolwg at ffactorau eraill a allai achosi anawsterau o ran cyflawni'r deilliannau a ragwelir yn sgil y diwygiadau:
    - Anghysondeb wrth ddehongli a chymhwyso'r Ddeddf a'r Cod.
    - Hyd yma, ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran adnabod ADY yn gynharach (yn rhannol oherwydd diffyg darpariaeth therapi).
    - Dealltwriaeth wael o'r system ADY – ymhlith rhieni a rhai ymarferwyr.

13.17 Ffigur 43, nododd lleiafrif yr ymatebwyr o BILlau eu bod yn "hollol hyderus" neu'n "eithaf hyderus" y byddai'r diwygiadau i'r system ADY yn cefnogi cynnydd a chyrhaeddiad gwell i bob dysgwr (29%) ac yn cyfrannu at greu system addysg sy'n gynhwysol i bob dysgwr (29%). Roedd yr ymatebwyr yn llai hyderus y byddai'r diwygiadau'n cyfrannu at system addysg sy'n bodloni anghenion pob dysgwr, neu'n cyfrannu at system addysg a oedd yn deg i bob dysgwr (roedd 19% yn "hollol hyderus" neu'n "eithaf hyderus" y byddai pob un o'r rhain yn cael eu cyflawni). Ar gyfer pob un o'r deilliannau hyn, nododd 30 i 40% arall o ymatebwyr eu bod "rhywfaint yn hyderus" y byddent yn cael eu cyflawni, tra bod 26 i 36% "ddim yn hyderus iawn" neu "ddim yn hyderus o gwbl".

13.18 Ar ôl y gyfres o ddatganiadau ynghylch hyder y bydd deilliannau disgwyliedig y system ADY yn cael eu cyflawni, roedd yr holiadur yn gwahodd ymatebwyr i roi

sylwadau pellach. Ymhlith y 23 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau fod y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael ar draws y system i gefnogi ADY yn eu gwneud yn bryderus am y deilliannau i blant o ganlyniad i'r diwygiadau. Mewn rhai achosion, mynegodd yr ymatebwyr siom ynghylch y deilliannau i ddysgwyr hyd yma, er gwaethaf ewyllys ac ymrwymiad ymarferwyr ar draws y system i gefnogi dysgwyr.
- Nododd yr ymatebwyr yr amrywioldeb ar draws y system ac y gallai'r deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY ddibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys:
    - Ansawdd y CADY mewn ysgolion a pha mor rhagweithiol oedd y CADY o ran sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.
    - Pa mor gynnar y mae anghenion plentyn yn cael eu hadnabod, a allai hefyd ddibynnu ar amgylchedd yr ysgol.
    - Effeithiolrwydd y cydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol.
    - Amgylchiadau teuluol a daearyddiaeth: roedd teuluoedd mwy gwybodus a mwy cefnog yn gallu cael cymorth gan gyfreithwyr ac mewn sefyllfa well i gael 'mynediad at y cymorth y maent ei eisiau' i'w plant, tra bod teuluoedd eraill sydd â llai o ymwybyddiaeth neu sy'n llai cadarn yn ariannol yn cael cymorth cyfyngedig.

14. Rhwystrau a galluogwyr i weithredu'r system ADY

Mae'r bennod hon yn edrych ar y ffactorau sy'n hwyluso ac yn llesteirio gweithredu'r system ADY, gan ddefnyddio ymatebion testun agored i gwestiynau'r arolwg.

Canfyddiadau allweddol ar y rhwystrau a'r galluogwyr i weithredu'r system ADY

Themâu cyffredin ar draws ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs, ALlau a BILlau oedd:

- Galluogwyr:
    - Cydweithio a Chyfathrebu: Gwell cydweithio rhyngasiantaethol ymhlith ysgolion, ALlau, a gweithwyr iechyd proffesiynol, gan helpu i greu dull unedig o ddarparu cymorth ar gyfer ADY.
    - Mae mabwysiadu dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn cyfarfodydd CDU wedi arwain at gynnwys rhieni a dysgwyr yn fwy, ac mewn ffordd well, mewn prosesau gwneud penderfyniadau.
    - Mae adborth cadarnhaol ar hyfforddiant ac adnoddau yn cyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff yn gyffredinol o ADY.
- Rhwystrau:
    - Cyfyngiadau cyllido a thoriadau yn y gyllideb yn effeithio ar gapasiti ysgolion a gwasanaethau iechyd i gefnogi ADY yn effeithiol.
    - Dulliau a diffiniadau anghyson ar draws awdurdodau lleol ac ysgolion yn arwain at amrywioldeb mewn ymarfer a darpariaeth.
    - Llwythi gwaith trwm.
    - Straen ar adnoddau’r GIG, yn enwedig wrth gyflwyno therapi iaith a lleferydd, gan effeithio ar gymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio a chymorth cyffredinol i ddysgwyr.

Canfyddiadau fesul sector: ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system ADY yn effeithiol.

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau ar y ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system ADY

14.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn credu oedd yn gweithio'n dda hyd yma fel rhan o weithredu'r system ADY, gan nodi unrhyw ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system a pha fuddion nas rhagwelwyd o flaen llaw sydd wedi codi. Ymhlith y 186 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau (o blith 344 o ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Dywedodd yr ymatebwyr fod gwell cydweithio rhwng ysgolion, asiantaethau allanol ac awdurdodau lleol. Roedd gwell perthnasoedd gyda rhieni hefyd, a llais y dysgwr yn cael ei gynnwys yn fwy yn y broses.
- Mae'r dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynnal cyfarfodydd a'r ffocws ar anghenion y dysgwyr wedi bod yn effeithiol, ac ystyrir bod gan rieni a dysgwyr fwy o lais mewn penderfyniadau. Dywedwyd bod y broses o lunio CDUau yn caniatáu ar gyfer diweddariadau a newidiadau amserol.
- Tynnodd yr ymatebwyr sylw at enghreifftiau o hyfforddiant a chymorth da gan gynnwys hyfforddiant a chymorth gan awdurdodau lleol, ac roeddent yn teimlo bod hyfforddiant, adnoddau ac arweiniad gan gynghorwyr wedi bod yn ddefnyddiol.
- Bellach roedd gan holl staff yr ysgol well ymwybyddiaeth o ADY, ac roedd ffocws ar gyfrifoldeb ysgol gyfan a darpariaeth gyffredinol yn flaenoriaeth.

Ymatebion testun agored gan SABau ac ISPIs ar y ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system ADY

14.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn credu oedd yn gweithio'n dda hyd yma fel rhan o weithredu'r system ADY, gan nodi unrhyw

ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system a pha fuddion nas rhagwelwyd o flaen llaw sydd wedi codi. Ymhlith yr 11 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau (o blith 33 o ymatebwyr o SABau/ISPIs), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Tynnodd yr ymatebwyr sylw at well cydweithio, sy'n arwain at:
    - Derminoleg gyffredin rhwng lleoliadau a phartneriaid.
    - Mewnbwn gwell a chynharach gan SABau mewn cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac adolygiadau CDU mewn ysgolion uwchradd, gan gyfrannu at drafodaethau'n cael eu cynnal yn gynharach am y DDdY y gellid ei darparu yn y coleg.
- Gwell arferion gwaith a llif gwaith o amgylch ADY mewn SABau, gan alluogi mwy o ddidwylledd ynghylch ADY, model gwell o drafod anghenion dysgwyr, mwy o gyfleoedd i fynychu hyfforddiant a chynadleddau ar y pwnc, mwy o rannu arfer da.

Ymatebion testun agored gan ALlau ar y ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system ADY

14.3 Gwahoddwyd ymatebwyr i'r arolwg i roi sylwadau pellach ar yr hyn yr oeddent yn credu ei fod yn gweithio'n dda fel rhan o weithredu'r system ADY. O blith y 72 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau ychwanegol (o blith 139 o ymatebwyr o ALlau), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nodwyd y ffocws ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan ymatebwyr ALl fel maes a oedd yn gweithio'n dda. Teimlwyd bod canolbwyntio ar y disgybl ac integreiddio llais y disgybl i drafodaethau a phrosesau cynllunio yn ddefnyddiol ac yn welliant ar y system AAA flaenorol.
- Roedd gweithwyr proffesiynol mewn ALlau yn teimlo bod gwell trefniadau gweithio a chydweithio rhyngasiantaethol yn gryfder yn y system ADY. Amlygwyd cydweithio, rhannu gwybodaeth yn effeithiol (gan gynnwys drwy systemau TG ar y cyd), a datblygu dulliau cyffredin fel meysydd a oedd yn datblygu'n dda o dan y diwygiadau.

- Nododd ymatebwyr o ALl fod perthnasoedd â rhieni a gofalwyr wedi gwella o dan y system ADY, a'u bod yn ymgysylltu mwy â phrosesau ADY.

Ymatebion testun agored gan weithwyr proffesiynol mewn BILlau ar y ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system ADY

14.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn credu oedd yn gweithio'n dda hyd yma fel rhan o weithredu'r system ADY, gan nodi unrhyw ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system a pha fuddion nas rhagwelwyd o flaen llaw sydd wedi codi. Ymhlith y 42 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau (o blith 87 o ymatebwyr o BILlau), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau fod gweithredu'r Ddeddf wedi cryfhau'r berthynas waith rhwng gwasanaethau iechyd a phartneriaid, yn arbennig adrannau addysg ALlau, ysgolion a'r blynyddoedd cynnar. Dywedodd yr ymatebwyr fod y system ADY wedi dod â phartneriaid ynghyd ac wedi meithrin ymdeimlad o gydweithio. Nodwyd hefyd bod cydweithio agosach wedi amlygu'r pwysau sylweddol ar wasanaethau iechyd ac addysg.
- Nododd yr ymatebwyr fod cydweithio, ynghyd â hyfforddiant a ddarparwyd i gefnogi gweithrediad y system ADY wedi arwain at well dealltwriaeth o'r gwahanol rolau a dyletswyddau. Roedd hyn yn cynnwys gwell dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyfreithiol ar ymarferwyr a chlinigwyr o fewn BILlau. Roedd sylwadau'n dangos bod SACDAau, yn arbennig, wedi chwarae rhan bwysig o ran cefnogi'r broses weithredu, darparu arweiniad, a rhannu'r hyn a ddysgwyd.
- Datgelodd ymatebion gweithwyr proffesiynol mewn BILlau eu bod yn gwerthfawrogi'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd yn fwy ystyrlon i ddysgwyr a'u teuluoedd. Teimlai gweithwyr iechyd proffesiynol eu bod yn gallu chwarae rhan bwysig yn hyn o beth drwy ddarparu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'i bwydo i asesiadau.
- Yn olaf, cyfeiriodd yr ymatebwyr at ymroddiad, ymrwymiad ac ewyllys da ymarferwyr fel ffactor pwysig wrth gefnogi gweithredu'r system ADY.

Canfyddiadau yn ôl sector: rhwystrau i weithredu'r system ADY

Ymatebion testun agored gan ysgolion ac UCDau ar y rhwystrau rhag gweithredu'r system ADY

14.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach ar yr hyn yr oeddent yn credu oedd y rhwystrau allweddol i weithredu'r system ADY neu pa heriau nas rhagwelwyd sydd wedi codi o dan y system. Ymhlith y 230 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau (o blith 344 o ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Roedd llwyth gwaith trwm a chyfyngiadau amser yn rhwystr allweddol yn ôl yr ymatebwyr. Dywedodd CADYau yn arbennig eu bod yn wynebu heriau sylweddol o ran eu llwyth gwaith, gyda llawer yn gorfod ysgwyddo cyfrifoldebau addysgu a chyfrifoldebau eraill ochr yn ochr â'u rôl. Roedd natur lafurus paratoi CDUau a thasgau gweinyddol eraill yn achosi straen, gan gyfrannu at drosiant CADYau mewn ysgolion.
- Mae'r ffaith bod cyllidebau yn dal wedi'u rhewi a thoriadau yn y gyllideb wedi gwaethygu'r sefyllfa, gan ei gwneud yn anodd i ysgolion ddyrannu staff ac adnoddau angenrheidiol ar gyfer DDdY.
- Dywedodd yr ymatebwyr fod anghysondeb amlwg yn y ffordd y caiff DDdY ei diffinio a'i gweithredu ar draws gwahanol ysgolion ac awdurdodau lleol, gan arwain at ddryswch ac amrywiad yn y cymorth.
- Dywedodd yr ymatebwyr nad oedd y cyfathrebu a'r cydweithio rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau iechyd yn gweithio'n dda. Mae hyn yn llesteirio darparu cymorth amserol ac yn ychwanegu at y baich gweinyddol a roddir ar ysgolion.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr at yr her ddeublyg o weithredu'r system ADY, ochr yn ochr â'r system AAA tra'n adfer o effeithiau'r pandemig COVID-19 a oedd wedi ychwanegu at y pwysau ar arweinwyr ysgol a CADYau, ac a oedd yn ei dro wedi arwain at heriau o ran diwallu anghenion dysgwyr.

Ymatebion testun agored gan SABau ac ISPIs ar y rhwystrau i weithredu'r system ADY

14.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach ar yr hyn yr oeddent yn credu oedd y rhwystrau allweddol i weithredu'r system ADY neu pa heriau nas rhagwelwyd sydd wedi codi o dan y system. Ymhlith yr 13 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau (o blith 33 o ymatebwyr o SABau/ISPIs), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Canfyddiad o ddulliau gweithredu anghyson yn cael eu defnyddio ar draws gwahanol awdurdodau lleol
- Materion yn ymwneud â rhannu data a throsglwyddo CDUau o ysgolion i golegau
- Roedd yr ymatebwyr yn pryderu y gallai rhai dysgwyr (e.e. y rhai sy'n dal ar gynlluniau dysgu a sgiliau, y rhai a oedd ar y cynllun gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy o dan AAA yn flaenorol) fod yn colli'r cyfle i gael cymorth gan nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ADY.
- Roedd capasiti staff i baratoi ac adolygu CDUau yn bryder, a disgwylir i'r sefyllfa waethygu oherwydd y nifer cynyddol o CDUau y bydd angen i'r colegau eu paratoi yn y blynyddoedd i ddod, ochr yn ochr â heriau o ran cadw staff.

Ymatebion testun agored gan ALlau ar y rhwystrau i weithredu'r system ADY

14.7 Gwahoddwyd yr ymatebwyr i'r arolwg i roi sylwadau pellach ar yr hyn yr oeddent yn credu oedd y rhwystrau allweddol i weithredu'r system ADY neu pa heriau nas rhagwelwyd sydd wedi codi o dan y system a sut y gellid eu goresgyn. O blith yr 85 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau ychwanegol (o blith 139 o ymatebwyr o ALlau), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd gweithwyr proffesiynol o ALlau heriau mewn lefelau cyllido o fewn ysgolion fel rhwystr allweddol. Credai'r ymatebwyr nad oedd gweithredu'r diwygiadau yn gost-niwtral a bod ysgolion yn gyfyngedig i'r hyn y gallent ei ddarparu oherwydd prinder cyllid.

- Nododd yr ymatebwyr o ALlau ddiffiniadau anghyson, a oedd yn arwain at anghysondeb mewn ymarfer, fel rhwystr allweddol. Teimlwyd bod angen dehongliad cyson o ddiffiniadau er mwyn osgoi gwahaniaethau cenedlaethol o ran gweithredu'r system.
- Nododd gweithwyr proffesiynol ADY fod rôl a chapasiti'r CADY yn rhwystr allweddol. Teimlwyd llwyth gwaith y CADYau yn drwm, a bod hyn yn eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Ymatebion testun agored gan BILlau ar y rhwystrau i weithredu'r system ADY

14.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sylwadau pellach ar yr hyn yr oeddent yn credu oedd y rhwystrau allweddol i weithredu'r system ADY neu pa heriau nas rhagwelwyd sydd wedi codi o dan y system. Ymhlith y 53 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau (o blith 87 o ymatebwyr o BILlau), roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol mewn BILlau at y pwysau sylweddol ar y gweithlu a oedd yn rhwystr mawr i weithredu'r system ADY. Mynegodd yr ymatebwyr y farn bod y system ADY wedi gosod gofynion ychwanegol ar gapasiti'r GIG ac nad oedd modd ysgwyddo'r galw ychwanegol. Nododd ymarferwyr fod mynychu cyfarfodydd cynllunio CDUau a chyfrannu atynt yn golygu bod yn rhaid treulio llai o oriau'n gwneud gwaith clinigol 'sydd eisoes dan bwysau'.
- Awgrymwyd bod y galw am therapi iaith a lleferydd yn 'anhydrin' ac yn 'anghynaliadwy', gyda thimau'n methu â diwallu'r galw ac nad ydynt bob amser yn gallu mynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn pan ofynnir iddynt wneud hynny.
- Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, ailbwysleisiodd yr ymatebwyr fod cyllid yn rhwystr sylweddol hefyd.
- Mynegodd yr ymatebwyr o BILlau rywfaint o rwystredigaeth ynghylch prosesau sy'n gysylltiedig â'r system ADY.

15. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae'r crynodeb isod yn seiliedig ar y canfyddiadau ym Mhenodau 4 i 14 uchod. Wrth ddehongli'r crynodeb hwn, dylid ystyried cyfyngiadau'r fethodoleg (gweler Adran 2), sef y dull samplu a dosbarthu a'r risg bosibl o duedd sampl.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY

15.2 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau, SABau/ISPIs ac ALlau, yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn deall sut i ddehongli a rhoi'r diffiniadau o ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ar waith. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn y sectorau hyn hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod diffiniadau o ADY a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson yn eu sefydliadau. Ar draws pob sector (gan gynnwys BILlau), roedd ymatebwyr yn llai tebygol o gytuno bod y diffiniadau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson gan eraill y tu allan i'w sefydliadau.

15.3 Roedd barn gymysg ar draws y sectorau ynghylch a oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gan ymarferwyr/gweithwyr proffesiynol yn eu sefydliad wybodaeth a sgiliau priodol ac a oedd eu sefydliad yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Roedd ymatebwyr o ALlau yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn sectorau eraill o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod gan weithwyr proffesiynol yn eu sefydliad y wybodaeth a'r sgiliau priodol (o gymharu â barn ymatebwyr o ysgolion/UCDau a SABau/ISPIs ar athrawon ac ymarferwyr yn eu lleoliadau nhw) a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng ymarferwyr yn eu sefydliadau i gefnogi gweithrediad y system ADY. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion gan BILlau mewn perthynas â chwestiynau ynghylch gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY yn llai cadarnhaol nag ymatebion gan y sectorau eraill a gymerodd ran yn yr arolwg.

15.4 Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr o SABau ac ISPIs (4 o blith 32, neu 13%) a lleiafrif o ysgolion ac UCDau (22%) wedi dilyn y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ADY (LlDPC ADY) ar Hwb. Yn y ddau sector, roedd mwyafrif y rhai a oedd wedi dilyn y LlDPC ADY yn cytuno, i raddau o leiaf, ei fod wedi gwella eu dealltwriaeth o'r system ADY a/neu wedi eu helpu i gyflawni eu rôl.

15.5 Roedd barn wahanol mewn perthynas â'r dyletswyddau'n ymwneud â dysgwyr ôl-16. Roedd yr ymatebwyr o ALlau yn llai tebygol na'r rhai o SABau ac ISPIs o gytuno eu bod yn deall y dyletswyddau ar eu sefydliad mewn perthynas â'r garfan hon.[50]

15.6 Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a roddodd atebion i gwestiynau testun agored, thema gyffredin a gododd, ar draws y sectorau, oedd pryder ynghylch yr anghysondebau o ran dehongli a/neu roi agweddau ar y system ADY ar waith, gan gynnwys diffiniadau o ADY a DDdY. Roedd hyn yn cynnwys anghysondeb o ran cymhwyso diffiniadau rhwng ysgolion a lleoliadau: gellid ystyried darpariaeth a ddisgrifir fel 'darpariaeth gyffredinol' mewn un lleoliad yn DDdY mewn lleoliad arall. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg hefyd y byddai arweiniad neu hyfforddiant pellach yn fuddiol. Nododd ymatebwyr o BILlau, yn arbennig, fod problemau'n ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer rhai dysgwyr ag ADY. Nododd yr ymatebwyr hyn nad oedd ysgolion a lleoliadau yn adnabod ADY mewn modd amserol bob tro, gan arwain at beidio â rhoi darpariaeth ar waith yn ddigon buan.

15.7 O ran cymwysterau a gweithgaredd dysgu proffesiynol, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr heriau a wynebir gan CADYau yn deillio'n fwy o brinder cyllid ac adnoddau nag o ddiffyg hyfforddiant.

Cefnogaeth i'r gweithlu

15.8 Yn gyffredinol, roedd gan ymatebwyr o ALlau farn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn sectorau eraill ynghylch argaeledd a digonolrwydd y cymorth. Roedd yr ymatebwyr o ALlau yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion/UCDau o ddweud bod ganddynt fynediad at gymorth priodol, ac yn llai tebygol o nodi bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau a SABau/ISPIs eu bod yn cael digon o gymorth gan eu lleoliadau, ond nododd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs, a

[50] Mae'r canlyniadau ar gyfer SABau ac ISPIs yn seiliedig ar sampl cymharol fach (33) o fewn poblogaeth cymharol fach o ymatebwyr ac felly dylid ystyried eu bod yn ddangosol o'r sampl hwn yn hytrach nag yn nodedig wrth gymharu â sectorau eraill. Am y rheswm hwn, nid yw canlyniadau SABau ac ISPIs yn cael eu disgrifio fel rhai 'nodedig' wrth gymharu â sectorau eraill.

mwy na hanner yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau[51] fod angen cymorth pellach arnynt (e.e. dysgu proffesiynol, arweiniad, cymorth gan gydweithwyr) mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY. Ymhlith ysgolion/UCDau a SABau/ISPIs, y math mwyaf cyffredin o gymorth oedd ei angen oedd "Penderfynu pryd mae cyflwr iechyd – gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl – yn golygu bod gan ddisgybl ADY (ac felly bod angen CDU)". Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr o BILlau hefyd fod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY. Ymhlith y rhai a nododd hynny, y math mwyaf cyffredin o gymorth oedd ei angen oedd "Cyfrannu at CDUau".

15.9 Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd gwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys y pwysau'n gysylltiedig â'r llwyth gwaith ychwanegol sylweddol a wynebir gan y gweithlu sy'n gysylltiedig â gweithredu'r system ADY. Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar y cymorth a ddarparwyd: dywedodd ysgolion ac UCDau fod cymorth yn anghyson a mynegwyd pryder nad oeddent wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer newidiadau; roedd ALlau yn tueddu i roi adborth mwy cadarnhaol ar y lefelau da o gymorth a ddarperir gan rwydweithiau lleol; roedd ymatebwyr o BILlau yn cydnabod y cymorth a'r arweiniad gwerthfawr a ddarparwyd gan SACDAau – gan nodi hefyd eu bod yn teimlo bod llai o gyfleoedd i weithwyr iechyd proffesiynol fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol. Tynnodd pob sector sylw at yr angen am gymorth pellach i uwchsgilio a helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall y diwygiadau'n well ac ymateb yn well iddynt.

Rôl y CADY

15.10 Roedd amrywiadau yn rolau a chyfrifoldebau ychwanegol CADYau mewn ysgolion/UCDau o gymharu â SABau. Mewn ysgolion ac UCDau, roedd mwyafrif y CADYau yn rhan o'r uwch dîm arwain, ond lleiafrif bach yn unig o'r CADYau mewn SABau oedd yn uwch arweinwyr. Roedd gan ganran uwch o CADYau mewn ysgolion ac UCDau gyfrifoldebau addysgu yn ychwanegol at eu rôl CADY o

[51] Yn "cytuno", yn "cytuno'n gryf", neu'n "cytuno i raddau" bod angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas ag agweddau penodol ar y system ADY fel y mae'n berthnasol i'w rôl

gymharu â'r rhai mewn SABau, ac roedd gan ganran is fynediad at gymorth gan gynorthwywyr addysgu a staff eraill.

15.11 O ran llwyth gwaith CADYau, roedd peth gwahaniaeth barn rhwng CADYau mewn ysgolion/UCDau o gymharu â CADYau o SABau. Roedd lleiafrif y CADYau mewn ysgolion/UCDau, neu 12%, yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith CADY yn effeithiol o fewn yr oriau a neilltuwyd yn swyddogol i’w rôl CADY, tra bod dros hanner (55%) yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf” â hyn. Ymysg CADYau mewn SABau, nododd 4 o bob 10 (40%) o ymatebwyr eu bod yn “cytuno i raddau” eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith CADY yn effeithiol o fewn yr oriau a neilltuwyd yn swyddogol i’w rôl, ac roedd 3 o bob 10 (30%) arall yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â hyn.

15.12 Roedd gan CADYau mewn ysgolion/UCDau a'r rhai mewn SABau[52] farn wahanol hefyd ynghylch a oedd ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY. Roedd lleiafrif y CADYau mewn ysgolion/UCDau (15%) yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY, ac roedd tua hanner (53%) yn “anghytuno” neu’n “anghytuno’n gryf” â hyn. Mewn SABau roedd 4 o bob 10 (40%) o CADYau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf”, bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau CADY gyda 40% arall yn nodi eu bod yn “cytuno i raddau” â hyn.

15.13 O ran y ffactorau sy’n effeithio ar eu rôl, nododd CADYau mewn ysgolion ac UCDau gyfyngiadau amser, gan nodi bod y llwyth gwaith sylweddol y maent yn ei wynebu yn golygu bod tasgau'n gysylltiedig ag ADY yn aml yn cael eu cwblhau y tu allan i oriau ysgol. Amlygodd CADYau mewn ysgolion ac UCDau yr anhawster o gydbwyso eu dyletswyddau o dan y Cod â’u cyfrifoldebau addysgu. Nododd yr ymatebwyr hyn eu bod yn teimlo bod swm y gwaith papur wedi cynyddu o dan y system ADY o gymharu â’r system flaenorol.

[52] Ni nododd unrhyw ymatebydd o ISPIs fod ganddo rôl CADY. Felly, mae gweddill yr adran hon yn cyfeirio at SABau yn unig

Adnabod ADY

15.14 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau, SABau/ISPIs ac ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau sydd ar waith yn eu sefydliad yn helpu i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn amserol a bod rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau hyn. Roedd dros hanner yr ymatebwyr mewn ysgolion/UCDau ac ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod dysgwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan briodol mewn prosesau i adnabod eu ADY, tra bod mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau/ISPIs yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â hyn. Roedd ymatebwyr o ysgolion/UCDau ac ALlau yn llawer mwy tebygol o fynegi barn gadarnhaol na’r rhai o BILlau am brydlondeb prosesau adnabod ADY a chynnwys dysgwyr, rhieni a gofalwyr mewn prosesau adnabod.

15.15 Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a roddodd atebion i gwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys heriau i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â’r prosesau sy’n gysylltiedig ag adnabod ADY. Roedd hyn yn cynnwys anawsterau o ran ymgysylltu â rhieni a rhai dysgwyr yn ystod cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; capasiti cyfyngedig i gyfrannu at brosesau neu ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau.

Cynllunio

15.16 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs, ac ALlau yn “cytuno” neu “cytuno’n gryf” bod y prosesau sydd ar waith yn eu sefydliad i gefnogi’r gwaith o baratoi CDUau yn glir, a bod arferion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd ynghylch ADY a CDUau. Roedd yr ymatebwyr yn llai tebygol o gytuno bod ganddynt ddigon o gapasiti i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau. Roedd tua hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs a llai na hanner yr ymatebwyr o ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod ganddynt ddigon o gapasiti i gefnogi’r gwaith o baratoi CDUau, tra bod traean yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (y gyfran fwyaf o ymatebwyr) yn “anghytuno” neu “anghytuno’n gryf” â hyn. Roedd tua hanner yr ymatebwyr o BILlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau sydd ar waith yn eu BILl ar gyfer cyfrannu at baratoi CDUau yn glir. Fodd bynnag, yn debyg i ymatebwyr o sectorau eraill, roedd cyfranogwyr o

BILlau yn llai tebygol o gytuno bod ganddynt ddigon o amser a chapasiti i gefnogi'r gwaith o baratoi CDUau; roedd 45% yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” â hyn. Yn yr un modd, roedd 42% o ymatebwyr o BILlau yn “anghytuno'n gryf” neu'n “anghytuno” eu bod yn cael digon o rybudd o flaen llaw i gyfrannu at CDUau (e.e. mynychu cyfarfodydd, paratoi tystiolaeth).

15.17 Ymhlith lleiafrif yr ymatebwyr a roddodd atebion i gwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a gododd yn cynnwys heriau'n ymwneud â chadw at amserlenni statudol, yn enwedig o ystyried y pwysau ar lwyth gwaith a chapasiti. Nododd yr ymatebwyr o BILlau, yn arbennig, nad oeddent yn aml yn cael digon o rybudd i allu mynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan eu bod eisoes wedi ymrwymo i apwyntiadau clinigol.

Darpariaeth

15.18 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod ymatebwyr ym mhob sector yn ystyried bod heriau'n ymwneud â'r adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Roedd traean yr ymatebwyr mewn BILlau (32%) ac ALlau (33%) yn ogystal â 42% mewn ysgolion ac UCDau a 26% (8 o blith 31) mewn SABau ac ISPIs yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” bod adnoddau digonol ar gael i gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Pan ofynnwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydweithio'n effeithiol i ddarparu cefnogaeth gydlynus i ddysgwyr ag ADY lle bo angen, roedd y canfyddiadau braidd yn gymysg. Roedd tua hanner yr ymatebwyr o SABau/ISPIs ac ALlau, a 44% o ysgolion/UCDau o gymharu â lleiafrif o’r rhai o BILlau (29%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â’r datganiad hwn (roedd 27% arall o ymatebwyr o BILlau yn “cytuno i raddau” â hyn).

15.19 Roedd pedwar o blith yr wyth (50%) Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar a ymatebodd i’r arolwg yn “anghytuno’n gryf” neu’n “anghytuno” bod adnoddau digonol yn eu ALl i ddelio’n brydlon â chyfeiriadau ar gyfer carfan y Swyddogion Arweiniol ADY (roedd dau ymatebydd arall yn “anghytuno i raddau”).

15.20 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a thros hanner yr ymatebwyr o ALlau, yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod DDdY ar gael yn Gymraeg lle bo angen.

15.21 Ar draws pob sector, roedd canran uwch o ymatebwyr yn cytuno bod rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau'n ymwneud â DDdY o gymharu â’r ganran gyfatebol mewn perthynas â dysgwyr. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs, tua hanner yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau ac ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am DDdY. O gymharu, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau/ISPIs, a thros hanner y rhai o ALlau, o gymharu â llai na hanner yr ymatebwyr o BILlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau’n ymwneud â DDdY.

15.22 Mewn ymateb i gwestiynau testun agored, nododd yr ymatebwyr i'r arolwg ar draws pob sector fod pwysau neu ostyngiadau yn y gyllideb yn cael effaith negyddol ar y gallu i ddarparu cymorth i ddysgwyr ag ADY. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad mewn cymorth un-i-un a mynediad mwy cyfyngedig at adnoddau arbenigol. Mynegodd ymatebwyr o ysgolion ac ALlau bryder bod cyllidebau ysgolion yn golygu bod llai o staff cymorth neu gynorthwywyr addysgu ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY. Tynnwyd sylw hefyd at brinder staff mewn ALlau ac mewn rhai gwasanaethau BILlau. Nododd BILlau bryderon nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau i ddarparu’r DDdY sydd ei hangen ar ddysgwyr. Roedd yr ymatebion testun agored gan ymatebwyr o ysgolion/UCDau ac ALlau hefyd yn mynegi pryder nad oedd digon o ddarpariaeth ar gael i gefnogi DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adolygu

15.23 Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs ac ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” eu bod yn deall y gofynion yn y Cod ADY ar gyfer adolygu a diwygio CDUau a bod rhieni a gofalwyr, lle y bo’n briodol, yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau adolygu. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod prosesau adolygu’n cael eu

cyflwyno'n effeithiol yn eu sefydliad. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs, mwyafrif y rhai o ysgolion ac UCDau (76%) a thros hanner y rhai o ALlau (69%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc/dysgwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn prosesau adolygu.

15.24 Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a ymatebodd i gwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn cynnwys heriau'n ymwneud â sicrhau bod rhieni a phlant yn mynychu cyfarfodydd adolygu. Dywedodd ymatebwyr o ysgolion ac UCDau fod y broses adolygu CDU yn cael ei hystyried yn broses lafurus, a bod angen mewnbwn sylweddol gan amrywiol aelodau o staff.

Prosesau pontio

15.25 Roedd gan ymatebwyr o ALlau farn fwy cadarnhaol na’r rhai o ysgolion ac UCDau ar effeithiolrwydd prosesau pontio rhwng lleoliadau meithrin a chynradd, a rhwng ysgolion prif ffrwd a mathau eraill o leoliadau (e.e. UCDau, ysgolion arbennig a lleoliadau AHY eraill).[53] Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau ac ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau pontio rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY ac roedd ychydig yn llai na'u chwarter yn "cytuno i raddau" â hyn. O ran prosesau pontio ôl-16, roedd tua hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod y prosesau pontio rhwng ysgolion uwchradd a cholegau AB yn effeithiol o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, ac roedd eu chwarter yn "cytuno i raddau".

15.26 Ymhlith lleiafrif yr ymatebwyr a ymatebodd i gwestiynau testun agored, roedd y themâu cyffredin a godwyd yn adlewyrchu'r data a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiynau caeedig. Nododd ymatebwyr o ALlau fod y cymorth a ddarparwyd ganddynt i gefnogi prosesau pontio rhwng lleoliadau yn effeithiol. Cyfeiriodd ymatebwyr o bob sector at heriau’n ymwneud â phontio, gan bwysleisio'n aml

[53] Cafodd yr ymatebion “Ddim yn berthnasol” eu hepgor o'r dadansoddiad hwn. Roedd ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau hefyd yn fwy tebygol na’r rhai mewn ALlau o ddewis 'Ddim yn berthnasol' mewn ymateb i gwestiynau am y mathau hyn o brosesau pontio, a allai awgrymu mai profiad cyfyngedig oedd gan rai ymatebwyr o ysgolion o'r broses bontio rhwng rhai mathau o leoliadau; dylid cadw hyn mewn cof felly wrth ddehongli'r canfyddiadau.

broblemau ar wahanol gyfnodau pontio. Nododd ymatebwyr o ysgolion fod y ffaith nad yw anghenion yn cael eu hadnabod ymlaen llaw yn golygu bod dysgwyr yn cyrraedd dosbarthiadau meithrin ysgol heb i'w hanghenion fod yn hysbys nac wedi'u dogfennu. Nododd ymatebwyr o ALlau fod mwy o fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr hŷn wrth iddynt bontio i ysgolion uwchradd.

Cydweithio ag eraill

15.27 Roedd ymatebwyr o ysgolion/UCDau, SABau/ISPIs ac ALlau yn gadarnhaol eu barn ynghylch y perthnasoedd gwaith yr oeddent wedi'u datblygu gyda dysgwyr ac ymarferwyr yn eu sefydliadau eu hunain wrth gefnogi dysgwyr ag ADY; roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn y sectorau hyn yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda dysgwyr ac ymarferwyr yn eu sefydliadau eu hunain. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau, a mwyafrif yr ymatebwyr mewn SABau/ISPIs ac ALlau hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda rhieni a gofalwyr. Roedd ymatebwyr mewn ysgolion/UCDau ac ALlau yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn BILlau o "gytuno'n gryf" neu "gytuno" bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi'u datblygu gyda dysgwyr, rhieni, ymarferwyr yn eu sefydliadau eu hunain a rhai rhanddeiliaid eraill wrth gefnogi dysgwyr ag ADY.

15.28 Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a atebodd gwestiynau testun agored, datgelodd themâu cyffredin a godwyd ar draws pob sector ganfyddiad bod prinder amser a diffyg capasiti er mwyn gallu cydweithio'n llawn. Tynnodd yr ymatebion testun agored gan ysgolion/UCDau sylw at y rhestrau aros hir ar gyfer rhai gwasanaethau a ddarperir gan BILlau, a allai lesteirio'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr. Awgrymodd yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau hefyd fod angen gwell hyfforddiant i ymarferwyr ynghylch sut a phryd i gynnwys partneriaid allanol i gefnogi prosesau ADY. Cyfeiriodd yr ymatebwyr o ALlau a BILlau at drefniadau rhannu gwybodaeth annigonol – gyda systemau TG yn cael eu nodi fel rhwystr penodol.

Crynodeb o'r farn am Gynnwys rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc yn y system ADY

15.29 Isod, rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n ymwneud â chynnwys rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc yn y system ADY. Daw'r canfyddiadau hyn o adrannau 7, 9, 10 a 12 o'r adroddiad hwn.

Cynnwys rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc mewn prosesau i adnabod ADY

15.30 Roedd dros hanner yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau (61%) ac ALlau (68%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod dysgwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod eu ADY; roedd hyn yn nodedig uwch na'r ganran gyfatebol ar gyfer yr ymatebwyr mewn BILlau (30%). Roedd mwyafrif llethol (27 o blith 31, neu 87%) yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â'r datganiad hwn. Cynhwyswyd cwestiynau cysylltiedig ar gyfranogiad dysgwyr mewn prosesau asesu o dan y system AAA yn yr Ymchwil i bennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019).

- Yn yr arolwg gwaelodlin o AAA a gynhaliwyd yn 2019, roedd lleiafrif yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (25%) ac adrannau addysg ALlau (16%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod "cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu statudol".[54] Mae hyn yn cymharu â thros hanner yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (61%) ac mewn ALlau (68%) a oedd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y "Galluogir dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod a phennu eu ADY" yn yr arolwg a gynhaliwyd yn 2024 ar gyfer yr adroddiad hwn.[55]
- Yn yr arolwg gwaelodlin o AAA a gynhaliwyd yn 2019, roedd lleiafrif bach (11%) o ymatebwyr o'r BILlau yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod "cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu statudol" (roedd 27% yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno"). Mae hyn yn cymharu â 30% o ymatebwyr o BILlau a oedd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y "Galluogir

[54] Yn arolwg 2019, roedd 43% o ysgolion yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod 'cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy'.

[55] Mae'n bwysig nodi bod geiriad y cwestiynau yn arolygon 2019 a 2024 yn wahanol, ac felly dylid cadw hyn mewn cof wrth wneud unrhyw gymariaethau rhwng y canlyniadau. Mae hefyd yn bwysig nodi y gallai hyn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng y system AAA flaenorol a'r system ADY. O dan y system AAA, dim ond ALlau oedd â rôl yn y broses asesu statudol (yn ymwneud â datganiadau AAA), tra bod gan ysgolion ac ALlau rôl o dan y system ADY, a allai gael effaith ar gynnwys dysgwyr yn y prosesau hyn.

dysgwyr i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod a phennu eu ADY" yn arolwg 2024 ar gyfer yr adroddiad hwn (roedd 8% yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno").

15.31 Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr mewn ysgolion ac UCDau (84%) a mwyafrif yr ymatebwyr mewn ALlau (76%) a SABau/ISPIs (22 o blith 31, 71%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau'n ymwneud ag adnabod ADY; roedd hyn yn nodedig uwch na'r ganran gyfatebol ar gyfer y rhai mewn BILlau (48%).

Cynnwys rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â DDdY

15.32 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (24 o blith 31, neu 77%) a thua hanner yr ymatebwyr o ysgolion/UCDau (52%) ac ALlau (50%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am DDdY. I’r gwrthwyneb, roedd lleiafrif yr ymatebwyr o BILlau (19%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” â hyn, roedd 24% “yn cytuno i raddau” a 29% “ddim yn cytuno nac yn anghytuno”.

15.33 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau (76%) a SABau/ISPIs (22 o blith 31, neu 71%) a thros hanner y rhai o ALlau (68%), o gymharu â llai na hanner yr ymatebwyr o BILlau (41%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau’n ymwneud â DDdY.

Cynnwys rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc mewn prosesau adolygu*[56]*

15.34 Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs (21 o blith 23, neu 91%), mwyafrif y rhai o ysgolion ac UCDau (76%) a thros hanner y rhai o ALlau (69%) yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn prosesau adolygu.

15.35 Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr ym mhob sector yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod rhieni a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau adolygu.

Perthnasoedd gwaith effeithiol gyda rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc

15.36 Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, SABau ac ISPIs ac ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi’u datblygu gyda rhieni a gofalwyr.

[56] Ni ofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr mewn BILlau yn ymwneud â phrosesau adolygu.

15.37 Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, a mwyafrif yr ymatebwyr mewn SABau/ISPIs ac ALlau hefyd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi’u datblygu gyda rhieni a gofalwyr. Cynhwyswyd cwestiwn cysylltiedig yn Ymchwil i bennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Roedd canran debyg o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau ac ALlau yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi’u datblygu gyda rhieni a gofalwyr. Roedd canran yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs a oedd yn “cytuno” neu’n “cytuno’n gryf” bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi’u datblygu gyda rhieni a gofalwyr yn uwch yn 2024 (80%) o gymharu â 2019 (55%).[57]

Y deilliannau a ragwelir ar gyfer y system ADY

15.38 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o ALlau yn llawer mwy tebygol na’r rhai mewn ysgolion ac UCDau a BILlau o “gytuno'n gryf” neu “gytuno” y byddai'r system ADY yn arwain at well deilliannau'n ymwneud ag adnabod ADY, ymyrraeth gynharach, gwell prosesau cynllunio, darpariaeth o ansawdd uwch, gwell cydweithio amlasiantaeth, datrys anghydfodau'n well, gwell deilliannau i ddysgwyr a gwell profiadau i deuluoedd.

15.39 Roedd ymatebwyr o ALlau hefyd yn llawer mwy tebygol na’r rhai mewn ysgolion ac UCDau a BILlau o ddweud eu bod yn hyderus y byddai’r diwygiadau i’r system ADY yn:

- cyfrannu at system addysg sy’n diwallu anghenion pob dysgwr.
- cyfrannu at system addysg sy'n deg i bob dysgwr.
- cyfrannu at greu system addysg sy'n gynhwysol i bob dysgwr.
- cefnogi gwell dyheadau ar gyfer pob dysgwr.
- cefnogi cynnydd a chyrhaeddiad gwell i bob dysgwr.

[57] Mae'n bwysig nodi bod y samplau o ymatebwyr o SABau ac ISPIs yn y ddau arolwg yn golygu y dylid ystyried gwahaniaethau fel rhai dangosol o'r samplau hyn yn hytrach na chael eu hystyried yn rhai nodedig.

15.40 Datgelodd ymatebion testun agored ymrwymiad ymhlith ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol i nodau a dyheadau'r diwygiadau, yn arbennig gwell deilliannau i ddysgwyr. Roedd cefnogaeth i ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn arbennig. Cyfeiriwyd droeon yn yr ymatebion testun agored at yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r system ADY yng nghyd-destun y pwysau ar gyllidebau a staffio a wynebir gan ysgolion, ALlau a BILlau. Dywedwyd bod y system yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd. Ystyriwyd bod anghysondebau wrth ddehongli a chymhwyso agweddau ar y Cod – yn nodedig mewn perthynas â diffiniadau o ADY a DDdY – yn broblematig. Nododd yr ymatebwyr yr amrywioldeb ar draws y system ac y gallai'r deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY ddibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys pa mor rhagweithiol oedd ysgolion ac asiantaethau allanol wrth sicrhau mynediad at gymorth i ddysgwyr; pa mor gynnar y caiff anghenion plentyn eu hadnabod; ac effeithiolrwydd y cydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Atodiad A: Proffil y sampl

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am broffil y sampl (Gweler Pennod 3).

Ysgolion ac UCDau

Nododd lleiafrif bach o ymatebwyr o ysgolion fod ganddynt rolau heblaw CADY, uwch arweinwyr, athrawon neu weithwyr cymorth dysgu. Roedd y rhain yn cynnwys ‘athrawon arweiniol/arbenigol/dros dro’, ‘dirprwy CADY dros dro’, ‘swyddog diogelu penodedig’, ‘rheolwr cymorth dysgu’, ‘cynorthwyydd addysgu lefel uwch’, ‘seicolegydd addysg’, ‘llywodraethwr ysgol’, ‘swyddog dynodedig plant sy’n derbyn gofal’, ‘nyrs ysgol’, ‘therapydd iaith a lleferydd’, ‘cwnselydd’ ac ‘athro cymunedol’.

SABau ac ISPIs

Disgrifiodd chwarter yr ymatebwyr (24%) eu rôl yn llawn mewn ymatebion testun agored; roedd y rhain yn cynnwys: 'Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr a Rheolwr Prosiect ADY', 'Swyddog polisi', 'Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Profiad Dysgwyr', 'Cydlynydd CDU', 'Asesydd/hyfforddwr'. Nododd dros hanner yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs eu bod yn gweithio gyda dysgwyr ar raglenni dysgu prif ffrwd a rhaglenni dysgu ar wahân. Nododd lleiafrif bach (15%) yr ymatebwyr o SABau ac ISPIs fod ganddynt rolau eraill gan gynnwys pennaeth coleg, darlithydd neu aelod o’r tîm cymorth dysgu. Dywedodd lleiafrif bach eu bod yn gweithio'n bennaf ar raglenni dysgu prif ffrwd, nododd lleiafrif bach eu bod yn gweithio ar raglenni ar wahân a nododd lleiafrif bach nad oeddent yn gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr.

ALlau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu rôl. Y rolau a nodwyd amlaf oedd:

- Athro ymgynghorol neu athro arbenigol – 39
- Rheolwr / arweinydd tîm / cydlynydd – 29
- Seicolegydd Addysg – 23

- Swyddog cynhwysiant / arweinydd – 15
- Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar – 8
- Swyddog Cyswllt Teulu – 4
- Swyddog Cymorth – 4
- Gweithiwr pontio – 3
- Cynorthwyydd Addysgu neu CALU – 2
- Arall - 8
    - Swyddogaethau eraill a nodwyd - Cyfarwyddwr, Therapydd galwedigaethol, swyddog sicrhau ansawdd, swyddog lles, arbenigwr perfformiad, swyddog systemau, Swyddog Statudol ADY, Cyfreithiwr Addysg.

BILlau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu cefndir proffesiynol. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- Therapi iaith a lleferydd - plant - 26
- Ymwelydd iechyd – 12
- Pediatreg gymunedol – 9
- Gwasanaethau anabledd dysgu – 9
- Ffisiotherapi – plant – 8
- Pediatreg (arall) - 7
- Therapi galwedigaethol – plant – 6
- Seicoleg plant – 5
- Nyrsio ysgol – 3
- CAMHS/Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant (CEWM) – 3

- Niwroddatblygiadol – 3
- Nyrs plant cymunedol – 2
- Therapi iaith a lleferydd – oedolion 1
- Arall - 10
    - Nyrs feithrin gymunedol, gwasanaeth cyfan, plant mewn gofal, dieteg, gweithiwr cymdeithasol, nyrs arbenigol, plant ac oedolion anabledd dysgu

Holwyd yr ymatebwyr ynghylch statws eu rôl:

- Uwch weithiwr iechyd proffesiynol – 28
- Uwch arweinydd - 15
- Ymarferydd – 13
- Arweinydd tîm – 9
- Arweinydd gwasanaeth – 8
- Staff cymorth – 5
- Gweithiwr iechyd proffesiynol iau – 3
- Rheolwr – 2
- Arall - 4
    - Nyrs, Seicolegydd Clinigol, Rheolwr Achos, Ymwelydd Iechyd.

Atodiad B: Adroddiad technegol

Mae Tabl 2 yn dangos y trothwyon a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion gan wahanol grwpiau o ymatebwyr. Mae'r trothwyon hyn wedi'u datblygu ar sail nifer yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb o fewn y gwahanol haenau / categorïau.

Tabl 2. Trothwyon ar gyfer adrodd ar wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion gan wahanol grwpiau o ymatebwyr

Categorïau y byddai gwahaniaethau'n cael eu hadrodd rhyngddynt	Y gwahaniaeth o ran pwyntiau canran mewn ymatebion gan y grwpiau hyn yr ystyrir eu bod yn nodedig*
Ysgolion cynradd ac uwchradd	16
Ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg	16
Ysgolion â chanrannau isel, canolig ac uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:	19
Ysgolion â chanrannau isel, canolig ac uchel o ddysgwyr ag ADY/AAA:	19
Ysgolion sydd â chanrannau isel, canolig ac uchel o ddysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	19
Ysgolion/UCDau ac ALlau	13
Ysgolion/UCDau a Byrddau Iechyd Lleol	16
ALlau a Byrddau Iechyd Lleol	19
SABau, Ysgolion Arbennig ac UCDau	Mae'r cyfyngau hyder yn rhy fawr i adrodd ar wahaniaethau nodedig

*Wedi'i gyfrifo drwy grynhoi'r cyfyngau hyder ar gyfer pob haen yn Nhabl 2 (mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl nad ydynt yn cyfansymio'n union).

Mae Tabl 3 Tabl yn dangos y sampl a'r proffil o'r boblogaeth a'r cyfyngau hyder dangosol y seiliwyd y trothwyon yn Nhabl 1 arnynt. Mae'r cyfyngau hyder dangosol a gyflwynwyd wedi'u cyfrifo ar sail yr un dull a fyddai wedi'i ddefnyddio pe bai'r sampl wedi bod yn sampl tebygolrwydd.

Proffil y sampl yn erbyn data poblogaeth

Mae Tabl 3 isod yn cyflwyno gwybodaeth am y sampl o ymatebwyr o ysgolion ac UCDau, ALlau a BILlau fesul sector a math o leoliad yn erbyn proffil y boblogaeth (os yw ar gael). Mae hefyd yn cynnwys cyfyngau hyder dangosol y seiliwyd y trothwyon yn Nhabl 4 arnynt.[58]

[58] Er nad yw'r sampl yn sampl tebygolrwydd, mae'r cyfyngau hyder dangosol a gyflwynir yn Nhabl 4 wedi'u cyfrifo ar sail yr un dull a fyddai wedi cael ei ddefnyddio pe bai'r sampl wedi bod yn sampl tebygolrwydd. Defnyddiwyd y cyfyngau hyder dangosol 2 hyn fel canllaw ar gyfer cynhyrchu trothwyon ar gyfer adrodd ar wahaniaethau nodedig rhwng grwpiau o ymatebwyr.

Tabl 3. Sampl a phoblogaeth ysgolion a chyfyngau hyder (CH) dangosol ar gyfer pennu gwahaniaethau nodedig

Haenau	Is-haenau	Nifer yr ymatebion**	% yr ymatebion	Poblogaeth	% y boblogaeth	CH os yn sampl tebygolrwydd
Y Sampl Gyffredinol						
	Cyfanswm yr ysgolion	294**	100%	1454	100%	5
	Cyfanswm yr ysgolion ac UCDau.	302**	100%	1476	100%	5
Sector						
	Cynradd a meithrin	205**	68%	1216	82%	6
	Uwchradd	67**	22%	176	12%	9
	Ysgolion pob oed (3 i 16/18)	11**	4%	29	2%	*
	UCD	8**	3%	22	1%	*
	Ysgolion arbennig	11**	4%	39	3%	*
	Cyfanswm	302**	100%	1476	100%	5
Cyfrwng Iaith						
	Pob ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	57	19%	440	30%	12
	Pob ysgol cyfrwng Saesneg	226	77%	975	66%	6
	Heb eu dosbarthu yn ôl iaith	11	4%	45	3%	26
	Cyfanswm	294	100%	1415	96%	5
Cymwys i gael prydau ysgol am ddim						
	Isel (Yr holl ysgolion â llai nag 13% o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim)	74	26%	455	32%	10

Haenau	Is-haenau	Nifer yr ymatebion**	% yr ymatebion	Poblogaeth	% y boblogaeth	CH os yn sampl tebygolrwydd
	Canolig (Yr holl ysgolion ag 13.1 i 25% o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim)	100	35%	483	34%	9
	Uchel (Yr holl ysgolion â thros 25% o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim)	109	39%	477	34%	8
	Cyfanswm	283	100%	1415	100%	5
ADY/AAA						
	Isel (Yr holl ysgolion â llai na 7% o ddysgwyr ag ADY/AAA)	110	39%	503	36%	8
	Canolig (Yr holl ysgolion gyda 7.1 i 14% o ddysgwyr ag ADY/AAA)	100	35%	458	32%	9
	Uchel (Yr holl ysgolion gyda thros 14% o ddysgwyr ag ADY/AAA)	73	26%	454	32%	11
	Cyfanswm	283	100%	1415	100%	5
Dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol						
	Isel (Yr holl ysgolion â llai na 4% o ddysgwyr)	110	39%	434	31%	8
	Canolig (Yr holl ysgolion â 4.1 i 10% o ddysgwyr)	100	35%	514	36%	9
	Uchel (Yr holl ysgolion sydd â thros 10% o ddysgwyr)	73	26%	467	33%	11
	Cyfanswm	283	100%	1415	100%	5
Rhanbarth yr ysgol						
	Canol y De	80	27%	466	32%	10
	Y Canolbarth a'r Gorllewin	81	28%	459	31%	10
	Y gogledd	58	20%	403	27%	12
	Y De-ddwyrain	75	26%	148	10%	8
	Cyfanswm	294	100%	1476	100%	5

Haenau	Is-haenau	Nifer yr ymatebion**	% yr ymatebion	Poblogaeth	% y boblogaeth	CH os yn sampl tebygolrwydd
Canran y dysgwyr ag ADY/AAA sydd â CDU						
	Isel (Yr holl ysgolion â 0 i 25% o ddysgwyr ag ADY â CDUau)	86	29%	475	32%	10
	Canolig (Yr holl ysgolion â 25 i 60%% o ddysgwyr ag ADY â CDUau)	102	35%	498	34%	9
	Uchel (Yr holl ysgolion â 60% o ddysgwyr ag ADY â CDUau)	95	32%	442	30%	9
ALlau						
	Ymatebwyr sy'n gweithio i ALlau	139		-		8
BILlau						
	Ymatebwyr sy'n gweithio i BILlau	87		-		11

Ffynonellau: CYBLD a rhestr cyfeiriadau ysgolion Llywodraeth Cymru

Noder: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

*CH yn rhy fawr i adrodd ar wahaniaeth nodedig

**Mae niferoedd yr ymatebion ar gyfer ysgolion ac UCDau yn seiliedig ar nifer y lleoliadau unigryw, yn hytrach na chyfanswm yr ymatebwyr.

Atodiad C: Tablau data (gweler y ddogfen ar wahân)

Atodiad D: Holiadur yr arolwg (gweler y ddogfen ar wahân)